

Hawliau Dynol Plant yng Nghymru: Adolygiad o'r Dystiolaeth

Dr Rhian Barrance

Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd,
Data a Dulliau Cymru (WISERD)



Cynnwys

CRYNODEB GWEITHREDOL	4
1. CYFLWYNIAD	12
STRWYTHUR YR ADRODDIAD.....	13
1. EGWYDDORION CYFFREDINOL.....	13
1.1 PEIDIO A CHAMWAHANIAETHU.....	13
1.1.1 Canlyniadau gwahaniaethol.....	14
1.1.2 Bwlio a chamwahaniaethu yn erbyn grwpiau crefyddol ac ethnig	15
1.1.3. Bwlio a chamwahaniaethu ar sail rhywedd.....	15
1.1.4 Bwlio a chamwahaniaethu homoffobig a thrawsffobig.....	16
1.1.5 Bwlio a chamwahaniaethu ar sail anabledd.....	16
1.2 CYFRANOGIAD A PHARCH AT FARN Y PLENTYN.....	17
1.2.1 Lefel genedlaethol.....	17
1.2.2 Cyfranogiad cymunedol.....	20
2. ANABLEDD, IECHYD SYLFAENOL A LLES	21
2.1 IECHYD CYFFREDINOL.....	21
2.1.1 Marwoldeb babanod a phlant	21
2.1.2 Anafiadau plant.....	23
2.1.3 Imiwneiddio.....	23
2.1.4 Iechyd deintyddol.....	24
2.1.5 Ansawdd aer.....	25
2.2 YMDDYGIAD IECHYD	25
2.2.1 Smygu	26
2.2.2 Yfed alcohol.....	26
2.2.3 Bwyta ffrwythau a llysiau.....	27
2.2.4 Camddefnyddio sylweddau.....	27
2.2.5 Gweithgarwch rhywiol a beichiogrwydd yn yr ardddegau.....	28
2.2.6 Chwaraeon a chyfranogi mewn ymarfer corff.....	29
2.2.7 Pwysau a gordewdra	29
2.2.8 Gamblo	30
2.2.9 Cwsg.....	31
2.3 IECHYD MEDDWL.....	31
2.3.1 Amlygrwydd salwch meddwl.....	31
2.3.2 Darpariaeth CAMHS.....	33



2.3.3 Hunanladdiad plant a phobl ifanc.....	33
2.3.4 Cefnogi iechyd meddwl mewn ysgolion	34
2.4 TLODI PLANT A DIGARTREFEDD	34
2.4.1 Tlodi.....	35
2.4.2 Digartrefedd.....	36
2.5 PLANT ANABL.....	38
3. ADDYSG, HAMDDEN A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL	40
3.1 ADDYSG.....	40
3.1.1 Cyflawniad academaidd yn ôl nodweddion disgyblion.....	40
3.1.2 Gwaharddiadau o'r Ysgol.....	44
3.1.3 Profiadau dysgwyr o'r ysgol.....	45
3.1.4 Cyfranogiad mewn penderfyniadau addysgol	48
3.1.5 Gwybodaeth a dealltwriaeth o'u hawliau.....	51
3.1.6 Pobl ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn Addysg, Hyfforddiant na Chyflogaeth	51
3.2. HAMDDEN, CELFYDDYDAU A CHWARAE.....	52
3.2.1 Gweithgareddau allgyrsiol	52
3.2.2 Mynediad i'r celfyddydau.....	54
3.2.3 Chwarae	55
3.2.4 Amser sgrîn	56
4. AMGYLCHEDD Y TEULU A GOFAL AMGEN	57
5. TRAIS, CAM-DRIN AC ESGEULUSO	62
6. MESURAU AMDDIFFYN ARBENNIG	65
6.1 CEISWYR LLOCHES A FFOADURIAID.....	65
6.2 CYFIAWNDER IEUENCTID	65
7. DIWEDDGLO.....	70
LLYFRYDDIAETH.....	72
ATODIAD 1.....	88
DANGOSYDDION CAM-DRIN AC ESGEULUSO PLANT — YR NSPCC	88



Crynodeb Gweithredol

Mae'r adran hon yn crynhoi prif ganfyddiadau'r adroddiad mewn perthynas â gwahanol agweddau ar fywydau plant.

Canlyniadau gwahaniaethol (peidio â chamwahaniaethu)

Mae'r adroddiad yn canfod enghreifftiau niferus o ganlyniadau gwahaniaethol ar gyfer plant mewn meysydd megis iechyd a llesiant a chyrraedd addysgol, yn arbennig yn achos y rhai o gefndir sosio-economaidd is. Mae gan blant sy'n dod o ardaloedd lle ceir mwy o amddifadedd sosio-economaidd gyfraddau uwch o farwoldeb babanod, llygredd aer yn eu hardaloedd lleol, gwaharddiadau o'r ysgol, pydredd dannedd a gordewdra. Mae ganddyn nhw hefyd lefelau is o gyrhaeddiad addysgol ym mhob Cyfnod Allweddol, fel sydd gan blant sy'n derbyn gofal a phlant o gefndiroedd Sipsiwn a Sipsiwn Roma.

Mae angen rhagor o ddata mewn rhai meysydd i asesu a oes anghydraddoldebau pellach yn bodoli. Yn arbennig, mae bylchau yn y data sy'n ymwneud â phlant sy'n ffoaduriaid a phlant sy'n geiswyr lloches, a'r plant anabl a'r plant o leiafrifoedd ethnig sy'n byw mewn tlodi. Mae absenoldeb data wedi'i ddadgrynhoi hefyd yng nghyswllt achosion o fwlio mewn ysgolion.

Camwahaniaethu uniongyrchol a bwlio

Mae plant a gweithwyr proffesiynol fel ei gilydd yn sôn am lefelau uchel o iaith a bwlio hiliol, rhywiol, homoffobig a thrawsffobig mewn ysgolion. Fodd bynnag, nid oes data monitro swyddogol ar y mater hwn. Mae hefyd fwch pwysig yn y dystiolaeth o ran profiadau plant anabl o fwlio.

Cyfranogiad

Mae canfyddiadau'r arolwg yn awgrymu bod llawer o blant yn teimlo nad oes neb yn gwrando ar eu barn ac nad ydynt yn gwneud gwahaniaeth i bolisi yng Nghymru ar lefel genedlaethol, ysgol neu gymunedol. Mae peth tystiolaeth bod y Cynulliad yn cynnwys pobl ifanc mewn penderfyniadau ynghylch eu cyfranogiad mewn strwythurau democrataidd, trwy ymgynghoriadau ar oed pleidleisio a'r Senedd ieuentid. Fodd bynnag, pryder pwysig a nodwyd gan blant a phobl ifanc ynghylch cyfranogiad democrataidd yw canlyniad refferendwm Brexit. Mae ymchwil ansoddol yn awgrymu bod ymdeimlad amlwg o rwystredigaeth ymhlith pobl ifanc 16-17 oed oedd yn methu pleidleisio yn refferendwm yr UE, ac sy'n teimlo eu bod wedi cael eu hamddifadu o'r cyfle i fod yn rhan o benderfyniad a fydd yn effeithio ar eu dyfodol.

Iechyd a Llesiant

Gwelwyd gwelliant ar draws nifer o ddangosyddion iechyd yng Nghymru yn ystod y degawd diwethaf, er mai'r rhai o'r ardaloedd lle ceir yr amddifadedd sosio-economaidd gwaethaf sy'n dal i gael y canlyniadau gwaethaf. Er bod cyfraddau marwoldeb babanod a phlant wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae marwoldeb



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

babanod yn dal yn uchel mewn ardaloedd lle ceir amddifadedd sosio-economaidd, ac yn achos babanod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Mae diffyg data wedi'i ddadgrynhai ynghylch marwoldeb plant.

Mae data'r arolwg yn awgrymu bod ymddygiad afiach yn yr arddegau wedi lleihau, gyda chyfraddau smygu, yfed a beichiogi yn yr arddegau yn gostwng yn sylweddol yn ystod y ddau ddegawd diwethaf. Fodd bynnag, y rhai o ranbarthau mwyaf difreintiedig Cymru oedd y lleiaf tebygol o sôn eu bod yn bwyta ffrwythau a llysiau. Roeddent hefyd yn fwy tebygol o fod dros bwysau neu'n ordeu. Roedd cyfraddau smygu ac alcohol yn gymaradwy yng Nghymru a Lloegr. Roedd cyfran y disgyblion blwyddyn 11 a ddywedodd eu bod wedi cael rhyw yn uwch yng Nghymru nag yn Lloegr. Roedd lefelau bwyta ffrwythau a llysiau yn is yng Nghymru nag yn Lloegr. Roedd merched yng Nghymru yn llai tebygol o fod yn gorfforol actif na merched yn Lloegr, ond roedd lefel gweithgarwch corfforol y bechgyn yn gymaradwy yn y ddwy wlad.

Anaml y cesglir data am iechyd meddwl plant a phobl ifanc, er mai'r amcangyfrifon ynghylch salwch meddwl ymhlith plant yng Nghymru, ar sail data'r arolwg, yw 11.6 y cant. Mae peth tystiolaeth bod defnydd plant o gyfryngau cymdeithasol yn cael effaith ar eu cwsig, eu canolbwytio yn yr ysgol a'u lefelau llesiant cyffredinol. Dengys ffigurau ynghylch nifer y sesiynau cwnsela yn yr ysgol yng Nghymru fod llawer yn manteisio arnynt, gan fod 11,558 o fyfyrwyr ysgol uwchradd wedi derbyn cwnsela trwy eu hysgolion yn 2016/17.

Tlodi a digartrefedd

Dengys y ffigurau swyddogol fod 28 y cant o blant yng Nghymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol. Er bod hyn yn ostyngiad bychan o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol, rhagwelir y bydd cyfran y plant sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol yng Nghymru yn cynyddu tua 8 y cant erbyn 2022. Rhagwelir y bydd y tlodi incwm cymharol yn achos teuluoedd lle mae o leiaf un plentyn yn anabl yn codi i tua 18.5 y cant erbyn 2021.

Mae cyfran yr aelwydydd digartref sy'n cynnwys plant wedi gostwng rhwng 2005/6 a 2014/15. Fodd bynnag, mae cryn nifer yn parhau yng Nghymru, ac yn 2017/18 roedd 882 o aelwydydd o'r fath.

Addysg

Mae bylchau cyrhaeddiad allweddol ar draws y Cyfnodau Allweddol yn achos plant sy'n derbyn gofal a chymorth, plant mewn ardaloedd lle ceir amddifadedd sosio-economaidd, a phlant o gefndir Sipsiwn neu Sipsiwn Roma. Mae arolygon wedi canfod, er bod lefelau cyrhaeddiad merched yn uwch na rhai'r bechgyn, eu bod yn llai hapus yn yr ysgol.

Mae'r data'n awgrymu bod nifer o grwpiau'n wynebu rhwystrau i ddysgu a chyfranogi ym mywyd yr ysgol, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal, sy'n sôn am newid ysgol a lleoliad yn fynych, plant o gefndir Sipsiwn, Sipsiwn Roma a Theithwyr, sydd weithiau'n teimlo bod gwerthoedd addysg statudol yn gwrthdaro â gwerthoedd eu cymuned. Mae plant anabl hefyd wedi nodi y gall eu profiadau addysgol gael eu cyfyngu gan faterion hygrychedd.

Mae disgyblion sydd â hawl i dderbyn Prydau Ysgol am Ddim (FSM) bum gwaith yn fwy tebygol o gael eu gwahardd o'r ysgol. Mae data arolygon yn awgrymu bod cyfleoedd i gyfranogi yn eu dewisiadau addysgol ac ym mywyd ysgol yn fwy cyffredinol yn gyfyngedig.



Chwarae, y celfyddydau a gweithgareddau hamdden

Mae nifer o wahaniaethau'n nodweddu cyfranogiad mewn chwarae a gweithgareddau hamdden. Dengys canlyniadau arolygon fod bechgyn yn tueddu i fod yn gorfforol actif, tra bod merched yn cyfrangi'n fwy yn y celfyddydau a gweithgareddau diwylliannol. Roedd plant oedd yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim yn llai tebygol o chwarae offerynnau, cymryd rhan mewn chwaraeon oedd ddim yn gystadleuol ac ymarfer corff y tu allan i'r ysgol, a mynychu digwyddiadau celfyddydau. Soniodd plant anabl am hygyrchedd fel rhwystr i chwarae a gweithgareddau hamdden.

Dywedodd dros 44 y cant o'r plant oedd yn 14 oed adeg yr arolwg eu bod yn gwyllo'r teledu neu fideos ar y cyfrifiadur am fwy na thair awr bob diwrnod o'r wythnos. Dywedodd ychydig o dan 1 o bob 10 eu bod yn gwneud hynny am fwy na saith awr. Dywedodd mwyafrif y cyfranogwyr hefyd eu bod yn defnyddio'r rhyngwyd gartref am fwy na 3 awr y dydd, ac roedd ychydig dros 1 o bob 5 yn ei ddefnyddio am fwy na 7 awr.

Amgylchedd y teulu a gofal amgen

Ym mis Mawrth 2017 roedd 15,930 o blant yn derbyn gofal a chymorth, ac roedd 2,135 o'r rheiny ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a 5,780 yn derbyn gofal. Mae nifer o ganlyniadau iechyd a llesiant negyddol yn gysylltiedig â phlant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys lefel isel o foddhad mewn bywyd a pherthynas waelach gydag athrawon a ffrindiau. Mae rhan o hyn yn gysylltiedig ag amllder newid lleoliadau. Roedd 10 y cant o'r plant oedd yn derbyn gofal wedi cael tri lleoliad neu fwy yn 2016/17.

Mae gan Gymru gyfraddau llawer uwch o blant sy'n derbyn gofal fesul 10,000 o blant na Lloegr. Ar hyn o bryd, Cymru yw'r unig un o wledydd y Deyrnas Unedig sydd ddim yn cyhoeddi data ar gyfran y plant sydd ar gofrestrau neu gynlluniau amddiffyn plant am fwy na dwy flynedd. Mae tebygolrwydd bod yn 'blentyn sy'n derbyn gofal' rhwng y cymunedau mwyaf a lleiaf difreintiedig ar ei uchaf yng Nghymru o gymharu â gweddill y Deyrnas Unedig.

Trais, camdriniaeth ac esgeulustod

Bu cynnydd mawr yn yr achosion a gofnodwyd o gam-drin ac esgeuluso yn ystod y degawd diwethaf, ond credir mai'r rheswm am hynny yw gwell gweithdrefnau adrodd a phlismona ac ymwybyddiaeth y cyhoedd. O ran y troseddau angheuol yn erbyn plant, mae cyfradd gyfartalog llofruddiaethau plant dros y cyfnod o bum mlynedd hyd at 2016/17 wedi codi rhywfaint i 4.8 o bob miliwn o blant. Cofnodwyd 2,845 o droseddau rhywiol yn erbyn plant o dan 16 oed yn 2016/17. Mae hon yn gyfradd o 51.1 o droseddau rhywiol fesul 10,000 o blant o dan 16 oed, sef y gyfradd uchaf ar draws pob un o bedair gwlad y Deyrnas Unedig eleni.¹ Cofnodwyd 426 o droseddau creulondeb ac esgeuluso yng Nghymru yn 2016/17 — cyfradd o 7.6 o droseddau fesul 10,000 o blant o dan 16 oed.

¹ National Society for the Prevention of Cruelty to Children. 2018. *How safe are our children? 2018*. Ar gael yn: <https://www.nspcc.org.uk/globalassets/documents/research-reports/how-safe-children-2018-report.pdf>



Plant sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches

Mae'r amcangyfrifon yn awgrymu bod rhyw 27 o blant sy'n ceisio lloches ar eu pen eu hunain yng Nghymru. Mae bwlch mawr yn y data ynghylch plant sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches yng Nghymru.

Plant yn y system cyfiawnder ieuencid

Bu gostyngiad sylweddol yn nifer y plant sy'n cyflawni dedfrydau yn y ddalfa yng Nghymru yn ystod y degawd diwethaf. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon ynghylch y diffyg cyfleusterau i droseddwyr ifanc yng Nghymru: mae 45 y cant o'r plant o Gymru sydd yn y ddalfa ar hyn o bryd wedi'u carcharu mewn sefydliadau yn Lloegr, ac mae rhai ohonynt yn sôn am deimlo'n fwy unig ac ynysig o ganlyniad. Yn ogystal, mae adroddiadau arolygu yn codi pryderon difrifol ynghylch diogelwch a llesiant plant sy'n cael eu cadw yn y ddalfa mewn sefydliadau. Yn Lloegr, mae nifer anghymesur o'r carcharorion sy'n blant a ddedfrydir o gefndir du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME), ond yng Nghymru nid yw cyfran y carcharorion sy'n blant o gefndir BAME ond rhyw fymryn yn uwch na'r gyfran yn y boblogaeth gyffredinol.

Argaeledd ac ansawdd data

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiadau pwysig i fonitro'r cynnydd a wnaed o ran ei rhwymedigaethau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae wedi sefydlu Monitor Llesiant Plant a Phobl Ifanc Cymru, ac yn ei gyhoeddi deirgwaith y flwyddyn.² Mae hefyd wedi cynnwys dangosyddion sy'n ymwneud â bywydau plant yn ei Dangosyddion Cenedlaethol i asesu'r cynnydd o ran nodau a bennwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.³ Fodd bynnag, mae bylchau allweddol yn parhau yn y dystiolaeth mewn rhai meysydd, yn arbennig rhai sydd heb eu datganoli, fel cyfiawnder ieuencid a mewnfudo. Yn fwyaf nodedig, mae diffyg data Cymru'n unig ynghylch y canlynol:

- marwoldeb plant yn ôl amddifadedd sosio-economaidd ac ethnigrwydd⁴
- bywydau plant ag anableddau, ac eithrio'r ystadegau ynghylch addysg a chyrrhaeddiad
- achosion o fwlio mewn ysgolion, wedi'u datgrynhoi yn ôl rhywedd, hunaniaeth rhywedd, ethnigrwydd, cefndir sosio-economaidd a chyfeiriadedd rhywiol
- amlygrwydd salwch meddwl ymhlith plant a phobl ifanc
- llesiant plant sydd mewn sefydliadau carcharu
- cyfran y plant sy'n derbyn gofal a chymorth sydd ar gofrestrau neu gynlluniau amddiffyn plant am fwy na dwy flynedd

² Llywodraeth Cymru 2015. *Mesur Llesiant Plant a Phobl Ifanc*. Ar gael yn:

<https://gov.wales/statistics-and-research/children-young-peoples-wellbeing-monitor-wales/?lang=en>

³ Llywodraeth Cymru. 2017. *Dangosyddion Cenedlaethol Iechyd a Llesiant i Blant*. Ar gael yn:

<https://gov.wales/statistics-and-research/health-well-being-measures-children/?lang=en>

⁴ Mae data marwoldeb babanod wedi'i ddatgrynhoi ar gael, ond nid oes data o'r fath ar gael ar gyfer plant hŷn.



- amlygrwydd cam-drin ac esgeuluso plant a phobl ifanc
- plant sy'n ffoaduriaid ac yn ceisio lloches yng Nghymru, i gynnwys data canlyniadau wedi'u datgrynhai ac ystadegau dibynadwy ar niferoedd y plant sy'n cael eu hebrwng a'r rhai sydd heb eu hebrwng.

Cryfderau a gwendidau methodolegol

Mae ystadegau gwladol yn gyffredinol yn cyrraedd safon uchel yng Nghymru o ran dibynadwyedd a dilysrwydd. Mae llawer o'r ystadegau iechyd yn cael eu cynhyrchu gan gyrrff y Llywodraeth fel Iechyd Cyhoeddus Cymru ac wedi'u seilio ar waith ymchwil trylwyr sy'n cynnwys asesu gan weithwyr iechyd proffesiynol, megis:

- Rhaglen Mesuriadau Plant Cymru
- Arolwg Iechyd Deintyddol Plant
- Rhaglen Dreigl yr Arolwg Diet a Maeth Cenedlaethol (yn cynnwys dadansoddiad maetholynnau yn y gwaed)

Un maes lle mae ystadegau gwladol yn achosi trafferth ar hyn o bryd yng Nghymru yw digartrefedd, gan fod cynghorau lleol ar hyn o bryd yn dychwelyd data i Lywodraeth Cymru ar lefel wedi'i chrynhai, a allai olygu bod rhai unigolion yn cael eu cyfrif ar draws dwy sir. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu ADRC-W a WISERD i gynnal astudiaeth ddichonoldeb er mwyn edrych ar y posibilrwydd o gyflwyno proses o gasglu, adrodd a dadansoddi data ar lefel unigol.

Mae cydnabyddiaeth hefyd yn Llywodraeth Cymru nad yw'r holl Ddangosyddion Llesiant Cenedlaethol yn cwmpasu plant 16 oed a than hynny, gan eu bod wedi'u seilio ar Arolwg Cenedlaethol Cymru, sy'n cynnwys rhai dros 16 yn unig yn yr arolwg.⁵ Er bod ffynonellau eraill wedi ychwanegu at beth o'r data, megis arolwg Ymddygiad Iechyd Plant Oed Ysgol, mae mwy o waith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i ddatblygu dulliau newydd o gasglu data sy'n berthnasol i ddangosyddion plant yng Nghymru a chydweithio ymhellach â sefydliadau eraill sydd eisoes yn casglu data perthnasol.

Mae sawl sefydliad yn casglu data hunan-adrodd gan blant a phobl ifanc yn rheolaidd, gyda maint amrywiol i'r sampl. Darperir y rhain isod:

⁵ Llywodraeth Cymru. 2017. *Llesiant Cymru 2016-17*. Ar gael yn: <https://gov.wales/docs/statistics/2017/170925-well-being-wales-2016-17-en.pdf>



Astudiaeth	Mesurau Allweddol	Sampl ac oedran	Amllder
Arolwg Omnibus Plant Cyngor Celfyddydau Cymru ⁶	Mynediad i'r celfyddydau	c. 500 o blant a phobl ifanc 7-18 oed	Blynyddol ers 2011.
Ymddygiad Iechyd Plant oed Ysgol: arolwg cydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ar draws cenhedloedd ⁷	Hunan-adrodd ar iechyd Cyflyrau iechyd Ymddygiad iechyd Iechyd y geg Bodddhad mewn bywyd Agweddau at yr ysgol Profiad o fwlio Perthnasoedd	9,055 o blant a phobl ifanc 11-16 oed.	2014 oedd y diweddaraf. Bob pedair blynedd ers 2010.
Astudiaeth Carfan y Mileniwm ⁸	Profiadau o'r ysgol Teimlo'n ddiogel yn yr ysgol Ymddygiad	2,761 arhydol Asesiad diwethaf yn 14 oed.	Cychwynnod yr astudiaeth yn 2000 — holiadur hunan-lenwi cyntaf i'r plant yn 2012, yna 2015. Y nesaf wedi'i gynllunio ar gyfer 2018 (17 oed).

⁶ Cyngor Celfyddydau Cymru. 2017. *Children's Omnibus Survey*. Ar gael yn:

<http://www.arts.wales/research/annual-surveys/childrens-omnibus-survey>

⁷ Llywodraeth Cymru. 2015. *2013/14 Ymddygiad Iechyd Plant Oed Ysgol (HBSC) yng Nghymru: canfyddiadau allweddol*. Ar gael yn:

<https://gov.wales/docs/caecd/research/2015/151022-health-behaviour-school-children-2013-14-key-findings-en.pdf>

⁸ Y Ganolfan Astudiaethau Arhydol. 2018. *Astudiaeth Carfan y Mileniwm*. Ar gael yn:

<https://www.cls.ioe.ac.uk/page.aspx?sitesectionid=851>



Arolwg Chwaraeon Ysgol 2015 ⁹	Cyfranogiad mewn chwaraeon Agweddau at ymarfer corff	110,000 o blant a phobl ifanc 7-16 oed	Bob 2-3 blynedd ers 2013 (nesaf yn 2018).
Addysg WISERD Astudiaeth Aml-Garfan ¹⁰	Perthynas gydag athrawon Cynghorau ysgol Ymddygiad Profiadau o'r ysgol Bwlio Cysgu Hapusrwydd a hunan-ganfyddiad Camwahanïaethu yn yr ysgol ac yn y gymuned Mynediad i gefnogaeth academaidd ac adnoddau tu allan i'r ysgol	c. 1,000 Arhydol	Blynyddol ers 2012.

Mae dwy o'r astudiaethau hyn yn arhydol. Mae data arhydol yn arbennig o werthfawr oherwydd eu bod yn caniatáu i ni ganfod a oes newidiadau ym marn a phrofiadau unigolion dros amser. Prif ffynonellau data arhydol ynghylch plant yng Nghymru yw Astudiaeth Carfan y Mileniwm (MCMS) ac Astudiaeth Aml-Garfan Addysg WISERD. Astudiaeth o garfan ers eu geni yw MCMS, ac mae'n casglu amrywiaeth o ddata iechyd ac asesu gwybyddol, yn ogystal â chynnal arolygon a chyfweiliadau gyda'r cyfranogwyr a'u teuluoedd.¹¹ Mae astudiaeth aml-garfan Addysg WISERD yn canolbwyntio ar faterion addysgol, ac mae wedi dilyn pum carfan o blant o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, gan weinyddu arolygon hunan-lenwi bob blwyddyn.

Cwmpas yr adolygiad tystiolaeth hwn yw'r cyfnod o 2015 ymlaen, sy'n adlewyrchu cyfnod Comisiynydd Plant presennol Cymru yn ei swydd.

⁹ Chwaraeon Cymru. 2015. *Arolwg Chwaraeon Ysgol 2015: Cyflwr y genedl*. Ar gael yn: <http://sport.wales/research--policy/surveys-and-statistics/school-sport-survey/school-sport-survey-2015-results.aspx>

¹⁰ Addysg WISERD. 2018. *Astudiaeth Aml-garfan Addysg WISERD*. Ar gael yn: <https://wiserd.ac.uk/research/research-projects/wiserdeducation-multi-cohort-study-0>

¹¹ Astudiaeth Carfan y Mileniwm. 2015. *Age 14 Survey of MCS*. Ar gael yn: [http://www.cls.ioe.ac.uk/page.aspx?&sitesectionid=1109&sitesectiontitle=The+age+14+survey+of+MCS+\(2015\)](http://www.cls.ioe.ac.uk/page.aspx?&sitesectionid=1109&sitesectiontitle=The+age+14+survey+of+MCS+(2015))



Data ar lefel leol

Dylid cydnabod bod llawer o sefydliadau yng Nghymru, ar lefel leol, gan gynnwys Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol, ysgolion a sefydliadau gwirfoddol yn cymryd camau breision ar lefel leol i geisio barn plant a phobl ifanc ynghylch gwahanol agweddau ar eu bywydau. Mae arwyddion hefyd, lle mae hyn wedi digwydd mewn modd effeithiol, ei fod wedi cael ei ddefnyddio i helpu i lywio penderfyniadau lleol. Mae Lleisiau Bach - Little Voices¹² yn dal i hyfforddi plant fel ymchwilwyr cyfoedion ac yn cynnal prosiectau ymchwil lleol arloesol, sy'n aml yn arwain at newid. Buont hefyd yn cyflwyno adroddiad ymchwil i Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn i hysbysu'r craffu ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn 2016.

Mae'n bwysig bod data hunan-adrodd yn cael eu casglu gan blant, ond gall fod cyfyngiadau arnynt, yn arbennig pan fyddant yn dibynnu ar atgofion y cyfranogwyr ynghylch eu hymddygiad a'u profiadau yn y gorffennol. Serch hynny, mae rhai cryfderau i'r math yma o gasglu data, gan y gall plant fod yn fwy tebygol o rannu eu profiadau bywyd go iawn, yn arbennig yng nghyswllt ymddygiad peryglus (fel roedd arolwg HBSC yn gofyn, er enghraifft) mewn arolwg hunan-gwblhau dienw nag mewn cyfweiliad gydag ymchwilydd. At hynny, yn aml ni all data gweinyddol cenedlaethol gipio'u profiadau o faterion megis iechyd meddwl gwael, gan na ddangosir ond faint sydd wedi ceisio triniaeth.

¹² Lleisiau Bach - Little Voices. 2018. Ar gael yn: <https://www.lleisiaubach.org/home>



1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canlyniadau adolygiad o'r dystiolaeth ynghylch hawliau dynol plant yng Nghymru ac yn cwmpasu'r cyfnod o 2015 hyd heddiw. Mae'r strwythurau a'r prosesau cyfreithiol sydd yn eu lle i wireddu hawliau plant yng Nghymru yn ddigon hysbys: er enghraifft, Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, sy'n gofyn bod Gweinidogion yn rhoi sylw dyledus i CCUHP ym mhob penderfyniad a allai effeithio ar blant. Fodd bynnag, mae llai o ddealltwriaeth o effeithiolrwydd y mesurau hyn. Mae'r adroddiad hwn yn ceisio nid yn unig pennu'r darlun cyfredol o ran gwireddu hawliau plant yng Nghymru, ond hefyd ganfod pa ddata sy'n cael eu casglu yng Nghymru ar hyn o bryd er mwyn medru monitro hawliau plant. Mae monitro cynnydd gwlad tuag at weithredu confensiynau hawliau dynol yn effeithiol yn galw am gasglu amrywiaeth o ddata ansoddol a meintiol o ansawdd uchel.¹³ O ganlyniad, mae nodi bylchau yn y dystiolaeth yr un mor bwysig â chanfod pa ddata sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae hefyd yn bwysig canfod a yw'r data'n cael eu casglu gan y llywodraeth, trwy sefydliadau sy'n cael eu hariannu gan y llywodraeth, neu a ydyn nhw'n cael eu coladu ar sail ad hoc gan sefydliadau eraill. Mae rhwymedigaeth ar y llywodraeth i gyflawni hawliau plant, a rhaid iddi sicrhau bod y polisiau mae'n eu creu yn cael eu llywio gan ffynonellau gwybodaeth dibynadwy, dilys ynghylch barn a phrofiadau plant. Ymhellach, fel mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn pwysleisio, gall plant eu hunain nodi a yw eu hawliau'n cael eu gwireddu, ac felly mae'n bwysig bod data hunan-adrodd, a phrosiectau ymchwil sy'n cynnwys plant fel ymchwilwyr, hefyd yn cael eu cynnwys.¹⁴

Cyflwynodd y Deyrnas Unedig ei Hadroddiad Gwladol i Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn yn 2015. Bu Cyrff Anllywodraethol megis Grŵp Monitro CCUHP Cymru hefyd yn cyflwyno adroddiadau amgen i'r Pwyllgor y flwyddyn honno. O ganlyniad, bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys tystiolaeth a gyhoeddwyd o 2015 ymlaen. Oherwydd y bwlch rhwng cyfnod casglu'r data a'u cyhoeddi, mae rhai o'r dogfennau hyn yn cynnwys data a gyhoeddwyd cyn 2015, ond maent yn dal i gael eu hystyried yn berthnasol oherwydd na fyddant wedi bod ar gael yn ystod cylch adroddiadau diwethaf y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn. Nid yw'r adolygiad ond yn cynnwys data sy'n cydymffurfio â safonau moesegol a gwyddonol uchel, gan sicrhau ein bod yn gallu eu defnyddio i ddod i gasgliadau dilys, dibynadwy am hawliau plant yng Nghymru.

Gwnaeth y Sylwadau Terfynol ar Adroddiad Gwladol y Deyrnas Unedig nifer o argymhellion i'r Deyrnas Unedig yng nghyswllt casglu a monitro pellach ar ddata, megis yr angen am gasglu a chyhoeddi data yn systematig ar ecsbloetio a cham-drin plant yn rhywiol, a iechyd meddwl plant. Mae'r adroddiad yn ystyried i ba raddau mae Cymru wedi cyflawni ei dyletswydd yn y meysydd hyn.

¹³ Y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn. 2003. *Sesiwn 34, 19 Medi – 3 Hydref 2003*

Sylw Cyffredinol Rhif 5 (2003) Mesurau cyffredinol ynghylch gweithredu'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn (erth. 4, 42 a 44, para. 6) Ar gael yn: http://docstore.ohchr.org/SelfServices/FilesHandler.ashx?enc=6QkG1d_per_cent2FPPrICAqhKb7yhSIQqI8gX5Zxh0cQqSRzx6Zd2_per_cent2FQRsDnCTcaruSeZhPr2vUevjbn6t6GSI1fheVp_per_cent2Bj5HTLU2Ub_per_cent2FPZZtQWn0jExFVnWuhiBbagAj0dWBoFGbK0c

¹⁴ Ibid.



Strwythur yr adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y dystiolaeth ar gyfer hawliau plant yn ôl:

1. Yr Egwyddorion Cyffredinol
2. Anabledd, iechyd sylfaenol a lles
3. Addysg, hamdden a gweithgareddau diwylliannol
4. Trais yn erbyn plant
5. Amgylchedd y teulu a gofal amgen
6. Mesurau amddiffyniad arbennig

1. Egwyddorion Cyffredinol

Bydd yr adran hon yn ystyried y dystiolaeth sydd ar gael ynghylch gwireddu hawliau plant mewn perthynas â dau o'r Egwyddorion Cyffredinol:

- Erthygl 2: Peidio â chamwahaniaethu
- Erthygl 12: Cyfranogiad

Fodd bynnag, ni fydd y drafodaeth ar yr hawliau hyn yn cael ei chyfyngu i'r adran hon, gan fod yr egwyddorion cyffredinol yn hawliau croestoriadol, ac mae'n rhaid eu cymhwyso i bob hawl i sicrhau eu bod yn cael eu gwireddu'n llawn. Bydd yr hawliau hyn, a'r ddau Egwyddor Cyffredinol sy'n weddill, lles pennaf (Erthygl 3) a bywyd, goroesi a datblygu (Erthygl 6), yn cael eu defnyddio ar hyd yr adroddiad i asesu i ba raddau mae'r llywodraeth yn cyflawni hawliau'r Confensiwn mewn ffyrdd sydd:

- yn sicrhau eu bod ar gael i bob plentyn yn ddiwahân (Erthygl 2)
- wedi'u seilio ar les pennaf y plentyn (Erthygl 3)
- yn caniatáu cyfleoedd i blant fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau (Erthygl 12)
- yn cefnogi hawl plant i gael bywyd, goroesi a datblygu (Erthygl 6)

1.1 Peidio â chamwahaniaethu

Canfyddiadau allweddol

- Mae'r adroddiad yn ei gyfanrwydd yn canfod enghreifftiau niferus o ganlyniadau gwahaniaethol i blant mewn meysydd megis iechyd a llesiant a chyrhaeddiad addysgol, yn arbennig i'r rhai o gefndir sosio-economaidd is.



- Mae'r plant a'r gweithwyr proffesiynol yn sôn am lefelau uchel o iaith a bwlio hiliol, rhywiol, homoffobig a thrawsffobig mewn ysgolion.

Fel mae Grŵp Monitro CCUHP Cymru yn pwysleisio yn Adroddiad Amgen 2015 i Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn, 3 blynedd yn ddiweddarach mae diffyg data swyddogol o hyd yng Nghymru ynghylch peidio â chamwahaniaethu, ac mae diffyg data wedi'u datgrynhoi yn gyffredinol sy'n golygu ei fod yn anodd canfod camwahaniaethu yn erbyn grwpiau penodol o blant. Bydd yr adran hon yn trafod tueddiadau cyffredinol o ran canlyniadau gwahaniaethol. Yna bydd yn ystyried data ymchwil sy'n ymwneud â chamwahaniaethu yn erbyn plant o grwpiau â nodweddion a amddiffynnir a'u bwlio yng Nghymru.

1.1.1 Canlyniadau gwahaniaethol

Fel y trafodir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, yn yr adrannau perthnasol⁵, dengys y data ar gyrhaeddiad addysgol a iechyd a llesiant ganlyniadau gwahaniaethol ar gyfer rhai grwpiau o blant a phobl ifanc. Yn arbennig, mae gan blant sy'n byw mewn ardaloedd gwaeth o ran amddifadedd sosio-economaidd lefelau uwch o'r canlynol:

- Marwoldeb babanod
- Llygredd aer yn eu hardaloedd lleol
- Gwahardd o'r ysgol
- Pydredd dannedd
- Gordewdra

Mae ganddynt hefyd lefelau is o'r canlynol:

- Presenoldeb yn y celfyddydau
- Cyrhaeddiad addysgol
- Cyfranogiad mewn rhai gweithgareddau allgyrsiol
- Lefelau o gyfranogiad mewn chwaraeon
- Lefelau o fwyta llysiau



Mae gan blant sy'n derbyn gofal, a rhai o gefndir Sipsiwn neu Sipsiwn Roma hefyd lefelau is o gyrhaeddiad addysgol na'u cymheiriaid. Mae gan blant sy'n derbyn gofal hefyd sgoriau llesiant is na'u cyfoedion ar draws nifer o ddangosyddion gwahanol,¹⁶ gan gynnwys:

- Lefel isel o foddhad mewn bywyd
- Profi trais wrth fynd allan gyda chariadon
- Perthynas wael gydag athrawon a ffrindiau
- Cael eu bwlio
- Smygu bob wythnos

1.1.2 Bwlio a chamwahaniaethu yn erbyn grwpiau crefyddol ac ethnig

Ffynhonnell allweddol ar gyfer y maes hwn yw gwaith ymchwil Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth, a gynhaliodd grwpiau ffocws gyda 52 o ddisgyblion CA2 a chynnal arolwg o 535 o fyfyrwyr CA2-3 yn 2016. Ar ben hynny, cynhaliwyd arolwg o 125 o athrawon dan hyfforddiant a 435 o athrawon.¹⁷ Canfu'r ymchwil fod mwyafrif disgyblion CA2 uwch yr astudiaeth ansoddol, a gynhaliwyd mewn ysgolion yng Nghaerdydd a Chasnewydd, yn credu bod hiliaeth yn bodoli yn eu hysgol, a soniodd rhyw ddau o bob pump o'r disgyblion hyn am ddioddef hiliaeth eu hunain. Roedd y mathau amlycaf o hiliaeth yn digwydd yn erbyn disgyblion o gefndir Mwslimaidd, a rhai o Ddwyrain Ewrop neu'r Dwyrain Canol. Mae gwaith ymchwil gan Addysg WISERD a gynhaliwyd yn 2017 hefyd yn dangos bod iaith hiliol yn gyffredin yn ysgolion Cymru. Dangosodd y gwaith ymchwil hwn fod plant yn yr astudiaeth yn fwy tebygol o glywed iaith hiliol yn yr ysgol (55 y cant) nag yn eu hardal leol (43 y cant).

1.1.3 Bwlio a chamwahaniaethu ar sail rhywedd

Nid oes llawer o ffynonellau data ar fwlio a chamwahaniaethu ar sail rhywedd yng Nghymru. Un eithriad yw arolwg a gynhaliwyd yn 2016 gan Full Circle, menter gymdeithasol sy'n canolbwyntio ar lesiant plant a phobl ifanc yng Nghymru. Canfu eu hymchwil nhw nad oedd 58.6 y cant o'r 614 o ferched 11-21 oed yn yr arolwg yn credu bod merched a benywod ifanc yn cael yr un hawliau a chyfleoedd â bechgyn a dynion ifanc yng Nghymru. Ymhellach, nododd 51.7 y cant o'r merched nad oes digon o gefnogaeth i ferched a benywod ifanc yng Nghymru ymdopi â'r

¹⁶ Mae rhagor o wybodaeth yn Adran 4.

¹⁷ Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth. 2016. *Racism and anti-racism in the Welsh education system*. Ar gael yn: <https://static1.squarespace.com/static/574451fe37013bd0515647ac/t/5a537d66419202e324613f6f/1515421045424/Show+Racism+the+Red+Card+Report+September+2016+.pdf>



materion maen nhw'n eu hwynebu. O'r ymatebwyr, dywedodd 65 y cant o'r merched eu bod wedi profi aflonyddu rhywiol, ac roedd 70 y cant wedi profi agwedd rywiaethol.¹⁸

Mae ymchwil Addysg WISERD hefyd yn awgrymu bod iaith rywiaethol yn gyffredin mewn ysgolion a chymunedau yng Nghymru. Yn 2017, dywedodd 60 y cant o'r myfyrwyr yn arolwg blynyddol Addysg WISERD eu bod yn clywed iaith rywiaethol yn yr ysgol, a nododd 43 y cant eu bod yn clywed iaith felly yn eu hardal leol.¹⁹

1.1.3 Bwlio a chamwahaniaethu homoffobig a thrawsffobig

Mae ymchwil gan Stonewall yn awgrymu bod bwlio homoffobig a thrawsffobig yn dal yn gyffredin mewn ysgolion yng Nghymru. Roedd data gan 267 o bobl ifanc Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LHDT) 11-19 oed hefyd yn ategu'r canfyddiadau hyn, gan fod 54 y cant o'r ymatebwyr yn sôn am gael eu bwlio oherwydd eu bod yn LHDT²⁰, o gymharu â 45 y cant ym Mhrydain yn gyffredinol.²¹ Roedd hyn yn uwch fyth yng nghyswllt disgyblion trawsrywiol, y nododd 73 y cant ohonyn nhw eu bod wedi cael eu bwlio o ganlyniad i'w hunaniaeth rhywedd²², o gymharu â 64 y cant ym Mhrydain yn gyffredinol.²³ Roedd yr ymatebwyr yn ystyried bod ymateb ysgolion i'r bwlio hwn yn annigonol, gan mai dim ond chwarter o'r rhai a soniodd am gael eu bwlio oherwydd eu bod yn LHDT a nododd fod eu hathrawon yn ymyrryd wrth dystio i'r bwlio yma.²⁴ Ymhellach, nododd myfyrwyr nad oedd y cwricwlwm yn cwmpasu materion LHDT, a dim ond un o bob chwech nododd eu bod wedi cael eu dysgu yn yr ysgol am gael rhyw diogel mewn perthynas gyda rhywun o'r un rhyw.

1.1.4 Bwlio a chamwahaniaethu ar sail anabedd

Mae prinder data diweddar ynghylch cyfraddau'r plant a'r bobl ifanc anabl yng Nghymru sydd wedi dioddef bwlio. Fodd bynnag, roedd gwaith ymchwil diweddar gan Gomisiynydd Plant Cymru ynghylch canfyddiadau plant o fwlio

¹⁸ Full Circle Wales. 2016. *Fundamental Rights. From feminism to fashion, sex to stereotypes. The voices of girls in Wales*. Ar gael yn: <http://fullcircleeeducation.dropmark.com/150934/8572989>

¹⁹ WISERDEducation. 2017

²⁰ Stonewall Cymru, 2017. *School Report Cymru. The experiences of lesbian, gay, bi and trans young people in Wales' schools in 2017*. Ar gael yn:

https://www.stonewallcymru.org.uk/sites/default/files/stonewall_cymru_school_report_2017.pdf Mae'n bwysig nodi bod y sampl yng Nghymru yn gymharol fach ar gyfer yr arolwg ac nad yw'n gynrychioliadol o ran y boblogaeth myfyrwyr ysgol. Yng Nghymru, dim ond 267 o fyfyrwyr fu'n rhan o'r arolwg, allan o 3,700 ledled Prydain.

²¹ Stonewall. 2017. *School Report. The experiences of lesbian, gay, bi and trans young people in Britain's schools in 2017*. Ar gael yn: https://www.stonewall.org.uk/sites/default/files/the_school_report_2017.pdf

²² Stonewall. 2017. *School Report. The experiences of lesbian, gay, bi and trans young people in Britain's schools in 2017*. Ar gael yn: https://www.stonewall.org.uk/sites/default/files/the_school_report_2017.pdf

²³ Stonewall. 2017. *School Report. The experiences of lesbian, gay, bi and trans young people in Britain's schools in 2017*. Ar gael yn: https://www.stonewall.org.uk/sites/default/files/the_school_report_2017.pdf

²⁴ Stonewall Cymru. 2017. *School Report Cymru. The experiences of lesbian, gay, bi and trans young people in Wales' schools in 2017*. Ar gael yn:

https://www.stonewallcymru.org.uk/sites/default/files/stonewall_cymru_school_report_2017.pdf



yn cynnwys pobl ifanc anabl.²⁵ Canfu'r ymchwil fod plant yn credu y gall mathau o 'wahaniaeth', gan gynnwys anabledd, arwain at fwlio. Mae hyn yn awgrymu y gall plant anabl wynebu risg arbennig o uchel o gael eu bwlio, ond byddai angen rhagor o waith ymchwil yn y maes hwn.

1.2 Cyfranogiad a Pharch at Farn y Plentyn

Canfyddiadau allweddol

- Mae canfyddiadau'r arolwg yn awgrymu nad yw llawer o blant yn credu bod eu barn yn cael gwrandawriad nad yn gwneud gwahaniaeth i bolisiau yng Nghymru.
- Mae'r Cynulliad wedi cynnal ymgynghoriadau pwysig gyda phobl ifanc ynghylch gostwng oed pleidleisio a sefydlu Senedd leuentid, ac ymddengys bod eu barn wedi cael effaith ar bolisiau dilynol.
- Mewn dwy astudiaeth, mae plant wedi nodi eu bod yn pryderu am effaith Brexit ar eu dyfodol, ac maent o'r farn y dylai pobl ifanc fod wedi cael eu cynnwys yn y penderfyniad hwnnw.

Mae cyfranogiad yn hawl allweddol i blant a phobl ifanc, dylai plant gael eu cefnogi a'u grymuso i fod yn rhan o benderfyniadau ym mhob rhan o'u bywydau. Bydd yr adran hon yn ystyried y data ar gyfranogiad plant ar lefel genedlaethol a chymunedol. Bydd cyfranogiad ar lefel yr ysgol, gan gynnwys cynghorau ysgol a dewisiadau dysgu ac addysgu, yn cael eu trafod yn Adran 3: Addysg, Hamdden a Gweithgareddau Diwylliannol.

1.2.1 Lefel genedlaethol

Mae tair prif ffynhonnell o ddata ynghylch cyfranogiad plant ar lefel genedlaethol yng Nghymru:

- data hunan-adrodd ar bersbectif plant o ran digonolrwydd cyfleoedd cyfranogiad yng Nghymru
- tystiolaeth o ymgynghoriadau cenedlaethol ar gyfranogiad democrataidd plant a phobl ifanc a gynhaliwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru
- ymchwil academaidd ar farn plant ynghylch y penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd

Prif ffynhonnell y data hunan-adrodd ynghylch cyfranogiad yw arolwg Beth Nesa yn 2015, a gynhaliwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru. Gofynnwyd nifer o gwestiynau i bron 6,000 o blant a phobl ifanc 3-18+ (gan gynnwys Ymadawyr Gofal hyd at 25 oed) ynghylch i ba raddau mae oedolion yn gwrandao ar farn plant, yn ei pharchu ac yn gweithredu ar sail y farn honno.²⁶ Canfu'r arolwg fod:

²⁵ Comisiynydd Plant Cymru. 2017. *Stori Sam: Gwrandao ar brofiadau plant a phobl ifanc o fwlio yng Nghymru*. Ar gael yn: <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2017/11/Sams-Story.pdf>

²⁶ Comisiynydd Plant Cymru. 2016. *Beth Nesa? What Next? Y canfyddiadau*. Ar gael yn: <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2016/04/Overview-English-FINAL.compressed.pdf>



- 31 y cant o bobl ifanc 11-18+ yn cytuno neu'n cytuno'n bendant bod barn pobl ifanc yn gwneud gwahaniaeth i beth sy'n digwydd yng Nghymru
- 45 y cant yn cytuno neu'n cytuno'n bendant bod oedolion yn gyffredinol yn parchu hawliau plant
- 31 y cant yn cytuno neu'n cytuno'n bendant bod oedolion yn gwrandao ar farn pobl ifanc

Ymgynghoriadau'r Cynulliad Cenedlaethol

Cynhaliwyd dau ymgynghoriad allweddol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfranogiad democrataidd pobl ifanc. Mae'r rhain yn cynnwys yr ymgynghoriad ar bleidleisio'n 16 oed yn 2016, lle gofynnwyd i 10,000 o fyfyrwyr oedden nhw'n cymeradwyo gostwng yr oed pleidleisio presennol, yn dilyn argymhelliad gan Bwyllgor y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn y dylid ymgynghori â phlant ar oed pleidleisio.²⁷ Dengys y canlyniadau fod 53 y cant o'r rhai yn yr arolwg yn cytuno y dylai oed pleidleisio gael ei ostwng i 16, ac ers hynny mae'r Cynulliad wedi cyflwyno pleidlais yn 16 oed ar gyfer etholiadau cynghorau lleol.²⁸ Yn yr un modd, bu Arolwg Senedd Ieuenticid i Gymru yn ymgynghori â mwy na 5,000 o bobl ifanc ar sawl agwedd ar y sefydliad.²⁹ Mae llawer o'r awgrymiadau hyn wedi cael eu hymgorffori i'r cynlluniau ar gyfer y Senedd, megis oed yr aelodau (11-18) a pha mor rheolaidd y dylen nhw gael eu hethol (bob dwy flynedd). Bydd y senedd gyntaf yn cael ei hethol ym mis Tachwedd 2018.

Y penderfyniad i adael yr UE

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd yn lansio ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc i sicrhau eu bod yn 'cael rhoi barn' ar broses Brexit.³⁰ Fodd bynnag, mae hyd a lled dylanwad plant yn aneglur ar hyn o bryd.³¹

Mae dau brosiect gan WISERD wedi dangos bod gan blant bryderon sylweddol am y penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd. Roedd prosiect dan arweiniad ymchwilwyr WISERD ym Mhrifysgol Aberystwyth yn cynnwys cyfweiliadau gyda 35 o bobl ifanc ynghylch Brexit.³² Canfu nad oedd gan hanner y bobl ifanc hyn ddiddordeb yn y pwnc, ond

²⁷ Swyddfa Uchel Gomisiynydd Hawliau Dynol y CU. 2012. *Human Rights Indicators. A guide to measurement and implementation.* Ar gael yn: http://www.ohchr.org/Documents/Publications/Human_rights_indicators_en.pdf

²⁸ Cynulliad Cenedlaethol Cymru. 2015. *Should the voting age be lowered to 16? Summary of responses to the Presiding Officer's 'Vote@16?' consultation for 11-25 year olds in Wales.* Ar gael yn: <http://www.yourassembly.org/wp-content/uploads/2015/07/Vote%4016-REPORT-E-small.pdf>

²⁹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018. *Senedd Ieuenticid i Gymru – Diweddariad.* Ar gael yn: <http://www.yourassembly.org/youth-parliament-wales-update/>

³⁰ Llywodraeth Cymru. 2018. *"Our children are our future – they must have a say on Brexit"* – Huw Irranca-Davies. Ar gael ar-lein yn: <https://gov.wales/newsroom/people-and-communities/2018/Our-children-are-our-future/?lang=en>

³¹ Plant yng Nghymru. 2017. *Brexit a Hawliau Plant yng Nghymru.* Ar gael yn:


http://r20.rs6.net/tn.jsp?f=0010StIgdK8iA6X_Z2av0lbwV6wQ4IVubtnGeRxchtNV6-5YySV1hHF2Hj4MFeBFXilcOEjKC5P-Y4ds_oYdh_Xax3w26A6vGyALyUSzLSsu8kTD7_RiCgTaNgL-mh3OMgDhMzrRwQlxkzWUBRH7sA2kEft_kFYBmzGCmUuUzBQCuT8aSb_bQpg6s7pZraf1Ya4uq4uTQaglPZCut0QozO0bVA2FCYC PFY1KqTArH5GVOzdxwtyo9rKSQStpRzLNWBakFCAEEs7gicGPlsZK0tp9u29fUM9PTuN01GpPyfFrTO1dSJ5FPW4BCa68134&c=kSvDjPFzXWvGj1Nd0h-o0E2_YNqF9EDBznNHKSLp9LGBvu192Wl3iQ==&ch=D_iVBWWHstF1F8bwWGilO7x57-ukONleTpyO-n0aO10nf6E28jYw==

³² Powell, D. 2017. *"They should've let us vote"*. Ar gael yn: <http://blogs.cardiff.ac.uk/wiserd/2017/04/21/they-shouldve-let-us-vote/>



ymhliith y lleill, roedd ymdeimlad cryf o rwystredigaeth eu bod heb gael cyfle i bleidleisio. Barn oedd hon yn bennaf ymhlith y rhai a nododd y byddent wedi pleidleisio dros aros yn yr UE, er bod rhai o'r rheiny a fyddai wedi pleidleisio dros ymadael hefyd yn credu y dylen nhw gael cyfle i'w barn gael ei hystyried.

Dengys data o arolwg Addysg WISERD y byddai mwyafrif y bobl ifanc a holwyd ym mlynnyddoedd 10 a 12 wedi pleidleisio dros aros yn yr UE, petaen nhw wedi cael cyfle i bleidleisio.³³ Mae mwyafrif o'r bobl ifanc hyn yn credu y bydd gadael yr UE yn ddrwg i bobl ifanc yng Nghymru, neu maen nhw'n ansicr:



Mae'r ymatebion ansoddol i gwestiynau penagored yn awgrymu bod pobl ifanc a fyddai wedi pleidleisio dros aros yn teimlo rhwystredigaeth oherwydd diffyg mewnbwn i'r penderfyniad:

'Allai pobl ifanc ddim pleidleisio, ond cafodd eu dyfodol ei benderfynu drostyn nhw'

Mae dadansoddiad o ddata meiniol yr arolwg yn awgrymu bod y refferendwm o bosibl wedi newid barn pobl ifanc ynghylch gostwng oed pleidleisio, gan arwain at fwy o gefnogaeth i hynny. Gofynnwyd cwestiynau i'r cyfranogwyr ynghylch oed pleidleisio ar draws 2 gyfnod casglu data, fel bod modd gweld a oedd cefnogaeth pobl ifanc i ostwng oed pleidleisio yn codi dros amser. Yn 2015, po ifancaf oedd y myfyrwyr, mwyaf tebygol oedden nhw

³³Barrance, R a Hampton, J. 2017. *Young people's views on Brexit and the voting age*. Papur a gyflwynwyd yng Nghynhadledd WISERD: Pobl Ifanc a Brexit: 1 flwyddyn yn ddiweddarach, Mehefin 2017.



o gefnogi gostwng oed pleidleisio. Fodd bynnag, yn 2017, gwyrddwyd y tueddiad hwn, fel bod plant hŷn, a fyddai wedi gallu pleidleisio adeg y refferendwm petasai oed pleidleisio yn 16, yn fwy cefnogol i bleidlais yn 16 oed na'u cymheiriaid iau. Gallai hyn fod yn arwydd bod pobl ifanc yn anfodlon ar y cyfleoedd sydd ganddynt ar gyfer cyfranogiad gwleidyddol ar hyn o bryd, ac mae'n cryfhau'r achos dros eu cynnwys yn fwy mewn strwythurau democrataidd.

1.2.2 Cyfranogiad cymunedol

Bu arolwg Beth Nesa', a gomisiynwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru yn 2015 yn holi plant 7-11 oed ac 11-18+ am eu cyfranogiad mewn penderfyniadau yn eu hardal leol³⁴:

- dywedodd 15 y cant o'r rhai 7-11 oed ac 8 y cant o'r rhai 11-18+ oed eu bod yn aml yn cael rhywrai'n gofyn eu barn yn eu hardal leol
- nododd 31 y cant o'r rhai 7-11 oed a 21 y cant o'r rhai 11-18+ oed eu bod fel arfer yn cael clywed y canlyniad ar ôl cael eu holi
- mae 21 y cant o'r rhai 7-11 oed ac 13 y cant o'r rhai 11-18+ oed yn credu bod barn plant yn gwneud gwahaniaeth mawr yn eu hardal leol.

Dengys y canlyniadau fod plant iau yn fwy cadarnhaol ynghylch eu cyfleoedd i gyfranogi. Mae'r rheswm am hyn yn aneglur o'r data: un posibilrwydd yw bod gan blant hŷn ddisgwyliadau uwch o ran cyfranogiad, ac nad ydynt yn cael eu cyflawni. Er gwaethaf y gofynion sydd ar Awdurdodau Lleol a chyrrff cyhoeddus eraill i gynnig cyfleoedd cyfranogiad ystyrion a pherthnasol i blant a phobl ifanc, nid oes modd cyflwyno darlun cenedlaethol o gwmpas ac ansawdd ymwneud plant a phobl ifanc.

³⁴ Comisiynydd Plant Cymru. 2016. *Beth Nesa? What Next? Y canfyddiadau*. Ar gael yn: <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2016/04/Overview-English-FINAL.compressed.pdf>



2. Anabledd, Iechyd sylfaenol a lles

2.1 Iechyd Cyffredinol

Canfyddiadau allweddol

- Mae cyfraddau marwoldeb babanod a phlant wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae cyfraddau marwoldeb babanod ar eu uchaf yn yr ardaloedd lle ceir lefelau uchel o amddifadedd sosio-economaidd ac ymhlith babanod o gefndir ethnig lleiafrifol. Mae diffyg data wedi'u datgrynhoi ynghylch marwoldeb plant.
- Mae cyfran y plant 4 oed sydd wedi cael eu brechiadau diweddaraf yn brydlon wedi gostwng rhyw fymryn ers 2014.
- Mae'r llygredd aer ar ei uchaf mewn ardaloedd lle ceir amddifadedd sosio-economaidd.
- Mae cyfraddau tyllau yn y dannedd ymhlith pobl ifanc wedi lleihau yn ystod y 30 mlynedd diwethaf, er bod y cysylltiad rhwng amddifadedd sosio-economaidd a iechyd deintyddol gwael yn parhau.

2.1.1 Marwoldeb babanod a phlant

Mae data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn dangos bod cyfradd marwoldeb babanod ymhlith y rhai o dan 1 oed wedi codi o 3.7 marwolaeth fesul 1000 o enedigaethau byw i 3.8 yn 2016.³⁵ Yng Nghymru, fodd bynnag, gwelwyd gostyngiad o 16.7 y cant rhwng 2015 a 2016, gyda chyfradd gyffredinol o 3 marwolaeth fesul 1000 o enedigaethau byw. Roedd perthynas rhwng amddifadedd sosio-economaidd a nifer y marwolaethau babanod. Mae'r ardaloedd wedi'u grwpio o 1 i 10 yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, lle mae 1 yn cynrychioli'r ardal sydd â'r lefel uchaf o amddifadedd a 10 y lleiaf. Yn ôl y dosbarthiad hwn, yr ardal oedd â'r lefel uchaf o amddifadedd yng Nghymru oedd hefyd yr un â'r gymhareb uchaf o farwolaethau (4.7 fesul 1,000 o enedigaethau), mwy na dwywaith mor uchel â'r ardal sydd â'r lefel isaf o amddifadedd. Ond nid perthynas uniongyrchol yw hon, gan fod yr ardal oedd yn y trydydd safle o ran amddifadedd yn sgorio isaf o ran cymhareb y marwolaethau (1.4 fesul 1,000 o enedigaethau).³⁶

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) hefyd yn cynhyrchu data ar farwoldeb babanod yn ôl ethnigrwydd, ond dim ond ar sail sy'n cyfuno Cymru a Lloegr.³⁷ Babanod yn y categorïau 'gwyn arall' neu 'gwyn Prydeinig' sydd â'r

³⁵Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. 2018. *Child mortality in England and Wales: 2016*. Ar gael yn: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/bulletins/childhoodinfantandperinatalmortalityinenglandandwales/2016>

³⁶ Fel y nododd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), mae cyfraddau marwoldeb babanod yn llai cadarn yng Nghymru nag yn Lloegr oherwydd y nifer bach o farwolaethau babanod yn gyffredinol yng Nghymru.

³⁷Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. 2018. *Child mortality in England and Wales: 2016*. Ar gael yn:



cymarebau isaf o farwoldeb babanod fesul 1,000 o enedigaethau, sef 2.2 a 2.9 yn eu tro yn 2015. Mae cyfradd marwoldeb babanod a enir i famau Pacistani (5.9), Affricanaidd (5.3) ac o'r Caribî (4.5) yn llawer uwch, sy'n dangos bod babanod o gefndir ethnig lleiafrifol yn llai tebygol o oroesi eu blwyddyn gyntaf.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn rhyddhau data ynghylch dangosyddion iechyd plant sylfaenol yn flynyddol trwy'r *Offeryn Cadw Golwg ar Feichiogrwydd a Phlentynodod*, sy'n cynnwys data am farwoldeb plant 0-17 oed. Mae'n dangos bod marwoldeb plant hefyd wedi disgyn yn sylweddol ers 2005-07 o 0.4 fesul 1,000 i 0.3 fesul 1,000 rhwng 2013 a 2015.³⁸ Fodd bynnag, nid oes data ar y berthynas rhwng marwoldeb y plentyn (yn hytrach na'r baban) ac amddifadedd sosio-economaidd neu ethnigrwydd.

Adolygiadau thematig o farwolaethau plant

Mae adolygiadau thematig ar farwolaethau plant yn cael eu cyhoeddi'n flynyddol. Ers 2015, cafwyd adolygiadau o farwolaethau trwy dân (2017)³⁹, marwolaethau trwy foddï (2016)⁴⁰ a Marwolaethau Sydyn yn ystod Babandod (2015)⁴¹. Dangosodd yr adolygiad o ddiogelwch tân fod pum achos o dân a arweiniodd at 9 marwolaeth ymhlith plant o dan 18 oed rhwng 1 Ionawr 2010 a 31 Rhagfyr 2014 yng Nghymru.⁴² Cychwynwyd dau o'r rheiny'n fwriadol ac roedd tri yn ddamweiniol. Amlygodd yr adolygiad fod plant mewn rhai aelwydydd yn wynebu risg uwch o farw mewn tân. Cyfeiriwyd at dystiolaeth o adolygiad llenyddiaeth rhyngwladol, a ganfu mai plant o aelwydydd incwm isel a'r rhai yr oedd y gwasanaethau cymdeithasol yn ymwneud â nhw oedd yn wynebu'r risg uchaf. Mae dystiolaeth o achosion yng Nghymru yn awgrymu bod ymwneud â'r gwasanaethau cymdeithasol a defnydd o alcohol yn ffactorau risg.

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/bulletins/childhoodinfantandperinatalmortalityinenglandandwales/2016>

³⁸ Iechyd Cyhoeddus Cymru. 2017. *Pregnancy and childhood surveillance tool*. Ar gael yn:

<http://www.publichealthwalesobservatory.wales.nhs.uk/pregnancychildhood>

³⁹ Iechyd Cyhoeddus Cymru. 2017. *Adolygiad thematig o farwolaethau plant trwy dân*. Rhaglen adolygu marwolaethau plant. Ar gael yn:

[http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/ChildDeathReviewDocs.nsf/b4472ecab22fa0d580256f10003199e7/1d4704df8fe53bf3802581f6003fface/\\$FILE/Technical%20document%20-%20Thematic%20review%20of%20deaths%20of%20children%20though%20fire.pdf](http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/ChildDeathReviewDocs.nsf/b4472ecab22fa0d580256f10003199e7/1d4704df8fe53bf3802581f6003fface/$FILE/Technical%20document%20-%20Thematic%20review%20of%20deaths%20of%20children%20though%20fire.pdf)

⁴⁰ Iechyd Cyhoeddus Cymru. 2016. *Adolygiad thematig o farwolaethau plant a phobl ifanc trwy foddï*. Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant. Ar gael yn:

[http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/ChildDeathReviewDocs.nsf/3653c00e7bb6259d80256f27004900db/55d3aec28e5450e680257f620037f335/\\$FILE/CDR%20report_English.pdf](http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/ChildDeathReviewDocs.nsf/3653c00e7bb6259d80256f27004900db/55d3aec28e5450e680257f620037f335/$FILE/CDR%20report_English.pdf)

⁴¹ Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant ac Arolwg Amenedigol Cymru Gyfan. 2015. *Marwolaeth Sydyn Annisgwyl yn ystod Babandod – Adolygiad Thematig ar y Cyd 2010-2012*. Ar gael yn:

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/Sudden%20Unexpected%20Deaths%20in%20Infancy%20-%20English.pdf>

⁴² Iechyd Cyhoeddus Cymru. 2017. *Adolygiad thematig o farwolaethau plant trwy dân*. Rhaglen adolygu marwolaethau plant. Ar gael yn:

[http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/ChildDeathReviewDocs.nsf/b4472ecab22fa0d580256f10003199e7/1d4704df8fe53bf3802581f6003fface/\\$FILE/Technical%20document%20-%20Thematic%20review%20of%20deaths%20of%20children%20though%20fire.pdf](http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/ChildDeathReviewDocs.nsf/b4472ecab22fa0d580256f10003199e7/1d4704df8fe53bf3802581f6003fface/$FILE/Technical%20document%20-%20Thematic%20review%20of%20deaths%20of%20children%20though%20fire.pdf)



Canfu'r adolygiad o foddï fod marwolaethau o'r fath yn gymharol brin yng Nghymru, gyda llai na 3 phlentyn o dan 18 oed yn marw trwy foddï bob blwyddyn, ar gyfartaledd.⁴³ Mae'n awgrymu y gallai goruchwyliaeth fanylach gan oedolion fod wedi atal rhai o'r achosion hyn o foddï, ac yn nodi bod alcohol yn ffactor cyfranogol mewn rhai achosion o foddï.

Canfu'r adolygiad o Farwolaethau Sydyn Babanod yng Nghymru fod 45 o farwolaethau o'r fath rhwng 2010 a 2012.⁴⁴ Nododd nifer uwch o farwolaethau ymhlith plant yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru, fel y'u mesurwyd gan Fyngai Amddifadedd Lluosog Cymru. Ffactorau risg eraill a nodwyd oedd:

- Cysgu ar y soffa
- Smygu
- Alcohol ar adeg y farwolaeth neu hanes o bryder yn y gorffennol
- Unrhyw hanes o ddefnyddio cyffuriau gan y naill riant neu'r llall
- Salwch y plentyn yn ystod yr wythnos cyn y farwolaeth

2.1.2 Anafiadau plant

Dengys data o Offeryn Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer Cadw Golwg ar Feichiogrwydd a Phlentyndod fod cyfradd y driniaeth frys yn yr ysbyty ar gyfer anafiadau plant wedi gostwng o 18.1 i 17.2 fesul 1,000 rhwng 2006/7 a 2015/16.⁴⁵

2.1.3 Imiwneiddio

Mae offeryn Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer Cadw Golwg ar Feichiogrwydd a Phlentyndod hefyd yn cyhoeddi ystadegau ar imiwneiddio. O ran y newidiadau yng nghyfran y plant 4 oed sydd wedi derbyn eu brechiadau rheolaidd yn brydlon, dengys yr ystadegau, er bod cynnydd wedi digwydd rhwng 2010/11 a 2015/16 o 78.5 y cant i

⁴³Iechyd Cyhoeddus Cymru. 2016. *Adolygiad thematig o farwolaethau plant a phobl ifanc trwy foddï. Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant*. Ar gael yn: [http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/ChildDeathReviewDocs.nsf/3653c00e7bb6259d80256f27004900db/55d3aec28e5450e680257f620037f335/\\$FILE/CDR%20report_English.pdf](http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/ChildDeathReviewDocs.nsf/3653c00e7bb6259d80256f27004900db/55d3aec28e5450e680257f620037f335/$FILE/CDR%20report_English.pdf)

⁴⁴ Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant ac Arolwg Amenedigol Cymru Gyfan. *Marwolaeth Sydyn Annisgwyl yn ystod Babandod – Adolygiad Thematig ar y Cyd 2010-2012*. Ar gael yn: <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/Sudden%20Unexpected%20Deaths%20in%20Infancy%20-%20English.pdf>

⁴⁵Iechyd Cyhoeddus Cymru. 2017. *Offeryn cadw golwg ar feichiogrwydd a phlentyndod*. Ar gael yn: <http://www.publichealthwalesobservatory.wales.nhs.uk/pregnancychildhood>



85.3 y cant, mae'r ffigur diweddaraf hwn yn is na 2013/14 (88 y cant) a 2014/15 (86.2 y cant), sy'n dangos bod gostyngiad yn yr arferion imiwneiddio yn ystod y blynyddoedd diwethaf.⁴⁶

Dengys data a gymerwyd o COVER (Coverage of Vaccination Evaluation Rapidly) a gyhoeddir yn flynyddol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fod 82 y cant o'r plant oedd yn byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, rhwng 2017 a 2018, wedi derbyn eu brechiadau diweddaraf. ⁴⁷Mae hyn yn cynrychioli cynnydd bach o 0.7 y cant ers 2016-17. Roedd y gyfradd rywfaint yn uwch ymhlith y rhai oedd yn byw mewn ardaloedd heblaw rhai Dechrau'n Deg, lle roedd 86 y cant o'r plant wedi cael eu himiwneiddio.

2.1.4 Iechyd deintyddol

Mae data ansawdd da ar iechyd y geg ar gael o'r Arolwg Iechyd Deintyddol Plant, sy'n casglu data ar sail archwiliadau deintyddol gyda hap-sampl sylweddol o blant 5, 8, 12 a 15 oed yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Roedd iechyd da yn y geg, a fesurwyd gan ddefnyddio dangosydd cyfansawdd (gan gynnwys absenoldeb pydredd amlwg, dim calcwlws a dim achosion difrifol o golli arwyneb y dannedd) yn amlycach yn Lloegr (39 y cant), o gymharu â Chymru (33 y cant) a Gogledd Iwerddon (31 y cant).⁴⁸ Yng Nghymru, roedd cyfran y plant yr aseswyd bod ganddynt bydredd difrifol neu helaeth yn uchel o gymharu â Lloegr, gyda 22 y cant o'r plant 5 a 15 oed a samplwyd yn cael eu nodi fel rhai yn dioddef effaith hynny yng Nghymru, o gymharu ag 19 y cant o blant 5 oed a 36 y cant o blant 15 oed yng Ngogledd Iwerddon, a dim ond 13 y cant o blant 5 oed ac 14 y cant o blant 15 oed yn Lloegr.⁴⁹ Roedd cysylltiad cryf rhwng amddifadedd sosio-economaidd a phydredd difrifol neu helaeth ar draws y Deyrnas Unedig⁵⁰, gyda 30 y cant o'r plant 5 oed yng Nghymru yn y cwntil mwyaf difreintiedig yn profi pydredd, o gymharu â 9 y cant yn y cwntil lleiaf difreintiedig.⁵¹

Ar ben hynny, cynhaliwyd arolwg epidemioleg deintyddol o blant 12 oed gan Brifysgol Caerdydd a Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ystod blwyddyn ysgol 2016/17.⁵² Canfu fod gostyngiad amlwg yng nghyfran y plant oedd ag o

⁴⁶ Iechyd Cyhoeddus Cymru. 2017. *Offeryn cadw golwg ar feichiogrwydd a phlentyndod*. Ar gael yn: <http://www.publichealthwalesobservatory.wales.nhs.uk/pregnancychildhood>

⁴⁷ Ystadegau i Gymru, Gorffennaf 2018. *Dechrau'n Deg, ystadegau crynodol 2017-18*. Ar gael yn: <https://gov.wales/docs/statistics/2018/180718-flying-start-summary-statistics-2017-18-en.pdf>

⁴⁸ Canolfan Wybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol. 2015. *Arolwg Iechyd Deintyddol Plant 2013. Adroddiad 3: Good Oral Health in Children. Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon*. Ar gael yn: <https://files.digital.nhs.uk/publicationimport/pub17xxx/pub17137/cdhs2013-report3-good-oral-health.pdf>

⁴⁹ Canolfan Wybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol. 2015. *Arolwg Iechyd Deintyddol Plant 2013. Adroddiad 5: Contemporary Challenges in Children's Dental Health. Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon*. Ar gael yn: <https://files.digital.nhs.uk/publicationimport/pub17xxx/pub17137/cdhs2013-report5-contemporary-challenges.pdf>

⁵⁰ Canolfan Wybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol. 2015. *Arolwg Iechyd Deintyddol Plant 2013. Adroddiad 5: Contemporary Challenges in Children's Dental Health. Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon*. Ar gael yn: <https://files.digital.nhs.uk/publicationimport/pub17xxx/pub17137/cdhs2013-report5-contemporary-challenges.pdf>

⁵¹ Canolfan Wybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol. 2015. *Arolwg Iechyd Deintyddol Plant 2013. Adroddiad gwlad benodol: Cymru*. Ar gael yn: <https://files.digital.nhs.uk/publicationimport/pub17xxx/pub17137/cdhs2013-wales-report.pdf>

⁵² Morgan, M. a Monaghan, N. 2017. *Picture of oral health 2018. Dental epidemiological survey of 12 year olds 2016-17*. Ar gael yn: https://www.cardiff.ac.uk/_data/assets/pdf_file/0019/1201465/Full-Report-Oral-Health-2018.pdf



leiaf un dant wedi pydru, ac mae hyn yn rhan o dueddiad ehangach sydd wedi gostwng o 63 y cant yn 1988 i 30 y cant yn 2017.

2.1.5 Ansawdd era

Mae Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu adroddiad blynyddol ar ansawdd aer sy'n ein galluogi i ddeall amlygrwydd a dosbarthiad llygredd aer yng Nghymru.⁵³ Dengys data ar lygredd aer mai'r rhai sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru sy'n dod i gysylltiad â'r crynodiadau uchaf o lygredd aer, er bod yr adroddiad yn amlygu mai yn yr ardal leiaf difreintiedig y ceir yr ail grynodiad uchaf, ac felly nad yw'r berthynas yn un uniongyrchol.

2.2 Ymddygiad iechyd

Canfyddiadau allweddol

- Mae smygu, yfed alcohol a beichiogi yn ystod yr arddegau wedi lleihau'n sylweddol yn ystod y ddau ddegawd diwethaf.
- Y rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig oedd y rhai lleiaf tebygol o sôn am fwyta ffrwythau a llysiau.
- Bechgyn, a'r rhai o gefndir sosio-economaidd uwch, yw'r rhai mwyaf tebygol o fod yn gorfforol actif.
- Mae dros chwarter y plant 4-5 oed yng Nghymru dros bwysau neu'n ordew, ac at ei gilydd, y rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig sy'n fwyaf tebygol o fod dros bwysau neu'n ordew.
- Soniodd ychydig dros ddegfed ran o'r plant ym Mhrydain Fawr a ymatebodd i arolwg y Comisiwn Gamblu eu bod wedi gamblo yn ystod yr wythnos ddiwethaf.
- Mewn astudiaeth o batrymau cysgu plant, soniodd mwy nag un o bob pump o'r plant am ddeffro i edrych ar y cyfryngau yn ystod y nos bron bob nos.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu set o fesurau iechyd a llesiant i Gymru fel rhan o'i hymrwymiad o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae dau o'r mesurau hyn yn cyfeirio'n benodol at blant a phobl ifanc.⁵⁴ Maent yn casglu data yn flynyddol o'r arolwg Ymddygiad Iechyd ymhlith Plant Oed Ysgol (HBSC) ar ganran y plant sydd â llai na 2 enghraifft o ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Bwyta pum dogn o ffrwythau/llysiau bob dydd
- Byth/yn anaml yn yfed alcohol

⁵³ Llywodraeth Cymru. 2016. *Llygredd Aer yng Nghymru 2016*. Ar gael yn:

https://airquality.gov.wales/sites/default/files/documents/2017-11/AQ_wales_2016_v5.pdf

⁵⁴ Llywodraeth Cymru. 2017. *Dangosyddion Iechyd a Llesiant Cenedlaethol I Blant*. Ar gael yn: <https://gov.wales/statistics-and-research/health-well-being-measures-children/?lang=en>



- Bodloni'r canllawiau cenedlaethol ar gyfer gweithgarwch corfforol
- Peidio â smygu

Mae'r data diweddaraf yn cyfeirio at gyfnod 2013/14, pryd y canfuwyd bod 12 y cant o ddisgyblion ym mlynyddoedd ysgol 7 i 11 yn dweud bod ganddynt lai na dau ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw. Mae'r data ar gael yn ôl cefndir sosio-economaidd, rhywedd ac oedran. Mesur cyfansawdd yw hwn, ac felly nid oes data cymaradwy ar gael ar gyfer rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

2.2.1 Smygu

Mae cyfraddau smygu wedi gostwng dros amser ymhlith pobl ifanc yng Nghymru, gan fod 13 y cant o blant ym mlynyddoedd 7,9 ac 11 yn smygu o leiaf unwaith yr wythnos yn 1998, ond 3 y cant yn unig sy'n gwneud hynny nawr⁵⁵, yr un gyfran ag yn Lloegr.⁵⁶ Er nad oedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng cyfraddau smygu yn ôl cyfoeth y teulu, roedd tuedd i'r ymatebwyr yn y grŵp isaf o ran cyfoeth y teulu ddechrau smygu'n gynharach yng Nghymru, gyda 61 y cant o'r plant blwyddyn 11 oedd yn smygu o'r grŵp cyfoeth teuluol isaf wedi dechrau smygu cyn cyrraedd 13 oed, a dim ond 38 y cant o'r rhai yn y grŵp uchaf o ran cyfoeth y teulu oedd wedi gwneud hynny.⁵⁷ Ar ben hynny, nododd 13 y cant o'r disgyblion yn yr arolwg fod rhywun yn smygu y tro diwethaf roedden nhw mewn car, ac roedd 23 y cant o'r rhai yn y grŵp isaf o ran cyfoeth y teulu yn dweud bod hynny'n digwydd, o gymharu â 10 y cant ymhlith y rhai yn y grŵp uchaf o ran cyfoeth y teulu.

2.2.2 Yfed alcohol

Mewn cyferbyniad â smygu, roedd mwy o alcohol yn cael ei yfed bob wythnos mewn teuluoedd mwy cefnog, ac roedd 7 y cant o'r plant yn y ddau grŵp uchaf o ran cyfoeth y teulu yn yfed alcohol o leiaf unwaith yr wythnos, o gymharu â 3 y cant yn unig o'r rhai yn y grŵp isaf.⁵⁸ At ei gilydd, roedd cyfraddau yfed wythnosol yn gymaradwy yng Nghymru a Lloegr, gan fod 5 y cant o'r disgyblion 11-16 oed yn yr arolwg yn Lloegr wedi nodi eu bod yn yfed alcohol yn wythnosol, o gymharu â 6 y cant yng Nghymru.⁵⁹ Mae hyn yn ostyngiad sylweddol o 31 y cant o'r rhai 11-16 oed yng Nghymru yn 1986.

⁵⁵ Ibid.

⁵⁶ Brooks, F, Magnusson, J, Klemra, E, Spencer, N a Morgan, A. 2011. *HBSC England National Report: Health Behaviour in School-aged Children (HBSC): World Health Organization Collaborative Cross National Study*. Prifysgol Swydd Hertford. Ar gael yn: <http://www.hbscengland.com/wp-content/uploads/2015/10/National-Report-2015.pdf>

⁵⁷ Llywodraeth Cymru. 2015. *2013/14 Ymddygiad Iechyd Plant Oed Ysgol (HBSC) Cymru: canfyddiadau allweddol*. Ar gael yn: <https://gov.wales/docs/caecd/research/2015/151022-health-behaviour-school-children-2013-14-key-findings-en.pdf>

⁵⁸ Ibid.

⁵⁹ Brooks, F, Magnusson, J, Klemra, E, Spencer, N a Morgan, A. 2011. *HBSC England National Report: Health Behaviour in School-aged Children (HBSC): World Health Organization Collaborative Cross National Study*. Prifysgol Swydd Hertford. Ar gael yn: <http://www.hbscengland.com/wp-content/uploads/2015/10/National-Report-2015.pdf>



2.2.3 Bwyta ffrwythau a llysiau

Dengys data a gasglwyd gan bobl ifanc 11-16 oed yr ymgynghorwyd â nhw trwy arolwg Ymddygiad Iechyd Plant Oed Ysgol (HBSC) 2015 fod 31 y cant yn bwyta ffrwythau bob dydd, o gymharu â 38 y cant yn Lloegr.⁶⁰ Dim ond 33 y cant o'r bobl ifanc yn y sampl ddywedodd eu bod yn bwyta llysiau bob dydd, o gymharu â 43 y cant yn Lloegr. O ran bwyta ffrwythau a llysiau, y rhai o'r teuluoedd lleiaf cefnog oedd y lleiaf tebygol o ddweud eu bod yn bwyta llysiau bob dydd yng Nghymru.⁶¹

Yn fwy diweddar, mae data a gasglwyd gan rieni a gwblhaodd Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016/2017 yn nodi bod 86 y cant o'u plant 3-7 oed yn bwyta ffrwythau bob dydd, a bod 67 y cant yn bwyta llysiau bob dydd.⁶² Mae'r cyfraddau'n gostwng gydag oedran: dim ond 57 y cant o'r rhai 13-17 oed oedd yn bwyta ffrwythau bob dydd, a 56 y cant oedd yn bwyta llysiau bob dydd.⁶³ Ymddengys hefyd fod perthynas rhwng amddifadedd sosio-economaidd a bwyta ffrwythau a llysiau. Roedd hyn yn fwy eglur yn achos bwyta llysiau, lle roedd y rhai yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn lleiaf tebygol o fwyta llysiau o'r rhai yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig yn fwyaf tebygol o wneud hynny. Roedd perthynas debyg i'w gweld yn achos bwyta ffrwythau, er bod peth amrywio yn ôl y gwahanol ardaloedd o amddifadedd.

2.2.4 Camddefnyddio sylweddau

Dengys ystadegau a goladwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gamddefnyddio sylweddau yn ystod y cyfnod 2016/17 fod cyfraddau derbyn pobl ifanc o dan 25 oed i'r ysbty mewn perthynas ag alcohol wedi gostwng 11.6 y cant rhwng 2015/16 a 2016/17. Ar ben hynny, gwelwyd gostyngiad bychan (1.4 y cant) yn y derbyniadau i'r ysbty mewn perthynas â defnyddio cyffuriau anghyfreithlon yn y grŵp oed hwn yn ystod yr un cyfnod.

2.2.5 Gweithgarwch rhywiol a beichiogrwydd yn yr ardegau

Dengys data HBSC fod cyfran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n dweud eu bod wedi cael rhyw wedi gostwng dros amser, o 36 y cant yn 2006 i 26 y cant yn 2014⁶⁴, er bod y ffigur hwn yn dal yn uwch nag yn Lloegr⁶⁵, lle roedd 21 y cant o'r rhai 15 oed yn dweud eu bod wedi cael rhyw yn 2014. Fodd bynnag, mae merched yn dal yn fwy tebygol na

⁶⁰ Ibid.

⁶¹ Llywodraeth Cymru. 2015. *2013/14 Ymddygiad Iechyd Plant Oed Ysgol (HBSC) Cymru: canfyddiadau allweddol*. Ar gael yn: <https://gov.wales/docs/caecd/research/2015/151022-health-behaviour-school-children-2013-14-key-findings-en.pdf>

⁶² Ystadegau i Gymru, 2017 Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17: *Iechyd Plant – Ffordd o fyw*. Ar gael yn: <https://gov.wales/docs/statistics/2017/170920-national-survey-2016-17-child-health-lifestyle-en.pdf>

⁶³ Ystadegau i Gymru. 2017. *Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17: Iechyd Plant – Ffordd o fyw*. Ar gael yn: <https://gov.wales/docs/statistics/2017/170920-national-survey-2016-17-child-health-lifestyle-en.pdf>

⁶⁴ Ibid.

⁶⁵ Brooks, F, Magnusson, J, Klemera, E, Spencer, N a Morgan, A. 2011. *HBSC England National Report: Health Behaviour in School-aged Children (HBSC): World Health Organization Collaborative Cross National Study*. Prifysgol Swydd Hertford. Ar gael yn: <http://www.hbscengland.com/wp-content/uploads/2015/10/National-Report-2015.pdf>



bechgyn o fod wedi cael rhyw erbyn yr oed yma. O'r ymatebwyr ym mlwyddyn 11, roedd 4 y cant wedi cael rhyw am y tro cyntaf yn 13 oed neu'n iau. Mae hyn yn ostyngiad bychan o 6 y cant yn 2010. Mae cyfradd beichiogi yn yr ardegau o dan 18 wedi gostwng yn sylweddol, o 44 ym mhob 1000 yn 2005 i 25.5 yn 2014. Mae'r genedigaethau byw i ferched o dan 20 oed hefyd wedi gostwng, o 31.8 fesul 1000 yn 2006 i 16.9 yn 2015.⁶⁶

2.2.6 Chwaraeon a chyfranogi mewn ymarfer corff

Dengys data o HBSC fod merched yng Nghymru (15 y cant) yn sôn am lefelau is o weithgarwch corfforol am o leiaf 60 munud y dydd na merched yn Lloegr (20 y cant). Roedd gan fechgyn yng Nghymru lefelau cymaradwy o weithgaredd corfforol (26 y cant) a'u cymheiriaid yn Lloegr (25 y cant). Roedd bechgyn yn fwy tebygol o fod yn gorfforol actif am awr y dydd o leiaf ledled Prydain.⁶⁷ Mae'r canfyddiad hwn yn cael ei ategu gan Arolwg Chwaraeon Ysgol cenedlaethol Chwaraeon Cymru, sy'n dangos bod cyfranogiad wythnosol mewn chwaraeon yn is ymhlith merched na bechgyn, ond ei fod wedi cynyddu yn y ddau grŵp rhwng 2013 a 2015.⁶⁸ Bu'r arolwg yn edrych ar y rhyngweithio rhwng rhywedd ac ethnigrwydd, a chafwyd yn 2015 mai bechgyn Du/Du Prydeinig (57 y cant) a hil cymysg (56 y cant) oedd y rhai mwyaf tebygol o ddisgrifio'u hunain fel rhai oedd yn "dwlu ar chwaraeon"⁶⁹, tra mai merched oedd yn diffinio'u hunain fel Arabaidd/Arall oedd y lleiaf tebygol (28 y cant). Canfu arolwg Chwaraeon Cymru hefyd fod gwahaniaeth rhwng cyfraddau cyfranogiad mewn chwaraeon yn ôl lefel gymharol yr amddifadedd, gyda gwahaniaeth bras o 10 y cant rhwng y rhai yn y categorïau amddifadedd uchaf ac isaf. Yn 2015, disgrifiodd 54 y cant o blant yn y categori lleiaf difreintiedig eu hunain fel rhai oedd yn dwlu ar chwaraeon, o gymharu â 43 y cant yn y categori mwyaf difreintiedig. Roedd gwahaniaeth hefyd rhwng disgyblion oedd yn barnu bod ganddynt anabledd, y dywedodd 40 y cant ohonyn nhw eu bod yn 'dwlu ar chwaraeon' o gymharu â 49 y cant 'r rhai oedd heb anabledd.

Mewn cyferbyniad, dywedodd 29 y cant o'r holl blant yn yr arolwg nad oeddent yn cymryd rhan mewn unrhyw fath o weithgarwch mynych. Oddi mewn i'r is-garfan hon, roedd gwahaniaeth o 10 y cant rhwng plant oedd yn dweud bod ganddynt anabledd, a rhai oedd heb anabledd (27.5 y cant o gymharu â 37.5 y cant). Roedd hefyd wahaniaeth o 9.8 y cant rhwng y mwyaf a'r lleiaf difreintiedig.⁷⁰

Mae'r GIG yn argymhell 60 munud o weithgarwch corfforol y dydd i blant rhwng 5 a 18 oed. Fel rhan o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016/2017, roedd cyfran y plant yr oedd eu rhieni'n dweud eu bod yn actif am awr o leiaf bob

⁶⁶ Llywodraeth Cymru. 2015. *2013/14 Ymddygiad Iechyd Plant Oed Ysgol (HBSC) Cymru: canfyddiadau allweddol*. Ar gael yn: <https://gov.wales/docs/caecd/research/2015/151022-health-behaviour-school-children-2013-14-key-findings-en.pdf>

⁶⁷ Sefydliad Iechyd y Byd (WHO). Swyddfa Ranbarthol Ewrop. 2016. *Growing up unequal: gender and socioeconomic differences in young people's health and well-being*. HEALTH BEHAVIOUR IN SCHOOL-AGED CHILDREN (HBSC) STUDY: INTERNATIONAL REPORT FROM THE 2013/2014 SURVEY. Ar gael yn: http://www.euro.who.int/_data/assets/pdf_file/0003/303438/HBSC-No.7-Growing-up-unequal-Full-Report.pdf?ua=1

⁶⁸ Chwaraeon Cymru. 2015. *Arolwg Chwaraeon Ysgol 2015: Cyflwr y genedl*. Ar gael yn: <http://sport.wales/research--policy/surveys-and-statistics/school-sport-survey/school-sport-survey-2015-results.aspx>

⁶⁹ Ibid.

⁷⁰ Chwaraeon Cymru. 2015. *Arolwg Chwaraeon Ysgol 2015: tablau data cenedlaethol*. Ar gael yn: <http://www.sport.wales/research--policy/surveys-and-statistics/statistics.aspx>



dydd yn gostwng gydag oed. Soniwyd bod 62 y cant o'r plant 3-7 oed yn actif saith diwrnod yr wythnos, o gymharu â 38 y cant o'r rhai 13-17 oed.⁷¹

2.2.7 Pwysau a gordewdra

Mae Rhaglen Mesuriadau Plant Cymru yn darparu data ynghylch pwysau ar sail mesuriadau a wnaed gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol. Yn ôl hyn, roedd 27.1 y cant o blant yng Nghymru yn 2016/17 yn syrthio i'r dosbarth dros bwysau neu ordew yn 4-5 oed, o gymharu â 22.6 y cant yn unig yn Lloegr.⁷² Roedd 12.4 y cant o blant 4-5 oed yng Nghymru yn ordew, o gymharu â 9.6 y cant yn Lloegr, gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol. Mae amddifadedd sosio-economaidd yn rhagfynegydd gordewdra yng Nghymru a Lloegr.⁷³ Bu cynnydd bychan yn y gwahaniaeth o ran amlygrwydd gordewdra yng nghwintiliau mwyaf a lleiaf difreintiedig plant Cymru rhwng 2012/13, pan oedd gwahaniaeth o 5.1 y cant, a 2016/17, pan oedd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol o 6.2 y cant rhwng y mwyaf difreintiedig (14.9 y cant) a'r lleiaf difreintiedig (8.7 y cant).⁷⁴

2.2.8 Gamblo

Nid oes data Cymru'n unig ar gael ynghylch ymddygiad gamblo plant o dan 16 oed. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn Gamblo yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ymddygiad gamblo plant ym Mhrydain Fawr. Mae'n cyflwyno data o'r Omnibws Pobl Ifanc, arolwg sy'n cael ei gynnal yn flynyddol gan Ipsos MORI ar ran Comisiwn y Loteri Genedlaethol.⁷⁵ Cynhaliodd arolwg o 2,881 o blant 11-16 oed yn 2017. Dengys canlyniadau 2017 mai ychydig dros ddegfed ran o'r plant (12 y cant) yn sampl yr adroddiad oedd wedi gamblo eu harian eu hunain yn ystod yr wythnos flaenorol. Mae'n anodd cymharu â blynyddoedd blaenorol oherwydd bod yr Alban wedi cael ei gynnwys am y tro cyntaf yng nghwmpas arolwg y flwyddyn hon. Fodd bynnag, o siarad yn gyffredinol ymddengys bod peth gostyngiad dros amser, gan fod 23 y cant o blant yn dweud eu bod wedi gamblo yn ystod yr wythnos ddiwethaf yn 2011. Dengys adroddiad gamblo 2017 fod bechgyn ddwywaith mor debygol â merched o fod wedi gamblo yn ystod yr wythnos. Lle roedd 15 y cant o'r bechgyn wedi gamblo yn ystod yr wythnos dan sylw yn 2017, dim ond 7 y cant o'r merched soniodd eu bod wedi gwneud hynny.

Gofynnwyd i'r rhai oedd wedi gamblo faint o'u harian eu hunain roedden nhw wedi'i wario yn ystod yr wythnos ddiwethaf. O'r rhai a atebodd y cwestiwn hwnnw:

⁷¹ Ystadegau i Gymru. 2017. *2016/2017 Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17: Iechyd Plant – Ffordd o Fyw*. Ar gael yn: <https://gov.wales/docs/statistics/2017/170920-national-survey-2016-17-child-health-lifestyle-en.pdf>

⁷² Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. 2018. *Rhaglen Mesuriadau Plant Cymru 2016/17*. Ar gael yn: <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/12743%20PHW%20CMP%20Report%20%28Eng%29.pdf>

⁷³ Baker, C. 2018. *Obesity Statistics. Papur Briffio Tŷ'r Cyffredin. Rhif 3336*. Ar gael yn: <http://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/SN03336/SN03336.pdf>

⁷⁴ Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. 2018. *Rhaglen Mesuriadau Plant Cymru 2016/17*. Ar gael yn: <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/12743%20PHW%20CMP%20Report%20%28Eng%29.pdf>

⁷⁵ Y Comisiwn Gamblo. 2017. *Young people and gambling 2017. A research study among 11-16 year olds in Great Britain*. Ar gael yn: <http://live-gamble.com.cloud.contensis.com/PDF/survey-data/Young-People-and-Gambling-2017-Report.pdf>



- roedd 64 y cant wedi gwario llai na £5
- roedd 17 y cant wedi gwario £5 - 10
- roedd 7 y cant wedi gwario £10 - £20,
- roedd 5 y cant wedi gwario £20 - £40
- roedd 8 y cant wedi gwario dros £40.

O'r plant oedd wedi gamblo, nodwyd bod 0.9 y cant yn gamblo'n broblematic ar sail eu hymatebion i gwestiynau ynghylch eu hymddygiad gamblo, er enghraifft pa mor aml bydden nhw'n gamblo i osgoi problemau, yn dychwelyd i geisio ennill arian a gollwyd yn ôl, yn dweud celwydd wrth ffrindiau neu eu teulu am gamblo, yn treulio amser yn meddwl am gamblo. Dim ond 0.2 y cant o'r merched a nodwyd fel gamblwyr problematic, o gymharu ag 1.6 y cant o'r bechgyn. Ar ben hynny, roedd 1.7 y cant o'r bechgyn yn syrthio i ddsbarth gamblwyr mewn perygl, o gymharu â 0.7 y cant o'r merched.

2.2.9 Cwsg

Yn ystod 2012/13 bu Astudiaeth Aml-garfan Addysg WISERD yn holi disgyblion ym mlynnyddoedd 8 a 10 am eu patrymau a'u harferion cysgu.⁷⁶ Canfu'r astudiaeth fod y rhan fwyaf o bobl ifanc yn cael cwsg 'rhesymol', gyda'r rhan fwyaf yn sôn am dreulio rhwng 8 a 9 awr yn y gwely. Mae'r ymchwil yn awgrymu bod trefn yn bwysig, a bod y rhai oedd ag amser gwely a deffro rheolaidd yn tueddu i dreulio mwy o amser yn y gwely a sôn am lefelau is o flinder yn yr ysgol y diwrnod canlynol.

Mae'r ymchwil yn awgrymu bod defnydd plant o gyfryngau cymdeithasol yn cael effaith ar eu cwsg:

- Roedd dros draean o'r bobl ifanc yn yr astudiaeth yn deffro yn y nos i wirio'r cyfryngau cymdeithasol o leiaf unwaith yr wythnos
- Dywedodd 21.6 y cant o'r rhai 12-13 oed a 22.5 y cant o'r rhai 14-15 oed eu bod bron bob amser yn deffro yn ystod y nos i wirio'r cyfryngau cymdeithasol.
- Roedd merched yn fwy tebygol o wneud hyn na bechgyn. Ymhlith y plant 12-13 oed yn yr arolwg, dywedodd 26.4 y cant o'r merched ac 16.5 y cant o'r bechgyn eu bod 'bob amser' yn deffro yn ystod y nos i edrych ar y cyfryngau cymdeithasol.

Nid oedd yn syndod bod y rhai oedd yn deffro i wirio'r cyfryngau cymdeithasol yn ystod y nos yn llawer mwy tebygol o sôn eu bod yn flinedig.

⁷⁶ Power, S., Taylor, C. a Horton, K. (2017) Sleepless in school? The social dimensions of young people's bedtime rest and routines, *Journal of Youth Studies*, 20:8, 945-958, DOI: [10.1080/13676261.2016.1273522](https://doi.org/10.1080/13676261.2016.1273522)



At ei gilydd, dywedodd traean o'r cyfranogwyr eu bod bob amser yn flinedig yn mynd i'r ysgol. Roedd cysylltiad rhwng lefelau blinder a llesiant — roedd y rhai soniodd eu bod bob amser yn flinedig yn fwy tebygol o sôn am fod yn anfodlon ar wahanol agweddau ar eu bywydau, fel eu gwaith ysgol, sut roedden nhw'n edrych a bywyd yn gyffredinol.

2.3 Iechyd Meddwl

Canfyddiadau allweddol

- Canfu data arolwg 2011-12 fod 11.6 y cant o blant 10-15 oed yn sôn am symptomau salwch meddwl.
- Yn 2016/17 cafodd 11,558 o fyfyrwyr ysgol uwchradd eu cwnsela drwy'r ysgolion.
- Mae unigrwydd yn fater allweddol i bobl ifanc 16-24 oed.
- Mae'r marwolaethau drwy hunanladdiad ymhlith plant a phobl ifanc wedi dechrau cynyddu ers 2010, yn dilyn gostyngiad blaenorol. Y gyfradd bresennol yw 61.7 fesul miliwn o bobl ifanc 15-19 oed.
- Anaml y mae data ar iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi.

2.3.1 Amlygrwydd salwch meddwl

Yn ei Sylwadau Terfynol yn 2016, galwodd Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn ar lywodraethau'r Deyrnas Unedig i fynd ati'n systematig i gasglu data wedi'u datgrynhoi ar amlygrwydd cyflyrau iechyd meddwl ymhlith plant.⁷⁷ Lanswyd Ymchwiliad gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad yn 2017, gyda'r nod o ymchwilio i'r ddarpariaeth CAMHS ac ystyried pa gefnogaeth sydd ar gael i bobl ifanc o ran eu llesiant emosiynol. Yn nodedig, amlygodd tystiolaeth Coleg Brenhinol y Seiciatryddion i'r Pwyllgor fod diffyg data ynghylch amlygrwydd materion iechyd meddwl ac emsoiynol ymhlith plant a phobl ifanc.⁷⁸ yn 2014 fod y ddarpariaeth CAMHS yn annigonol i ymateb i'r galw gan bobl ifanc yng Nghymru.⁷⁹ Nododd hefyd fod nifer y plant oedd yn disgwyl am driniaeth ar ôl atgyfeiriad i CAMHS wedi cynyddu 100 y cant yn ystod y pedair blynedd diwethaf, o 1,204 o atgyfeiriadau ym mis

⁷⁷Y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn. 2016. *Sylwadau terfynol ar bumed adroddiad cyfnodol Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon*. Ar gael yn:

https://tbinternet.ohchr.org/_layouts/treatybodyexternal/Download.aspx?symbolno=CRC%252fC%252fGBR%252fCO%252f5&Lang=en

⁷⁸ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018. Mind over matter. A report on the step change needed in emotional and mental health support for children and young people in Wales. Ar gael yn: <http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld11522/cr-ld11522-e.pdf>

⁷⁹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru. 2017. *Llesiant emosiynol a iechyd meddwl plant a phobl ifanc*. Ar gael yn:

<http://senedd.assembly.wales/documents/s69006/CYPE5-33-17%20-%20Paper%201a%20-%20Summary%20of%20survey%20results%20-%20young%20people%20in%20secondary%20schools%20and%20college.pdf>



Ebrill 2010 i 2,410 ym mis Mai 2014.⁸⁰ Yn wir, cyhoeddwyd yr arolwg pwysig diwethaf ynghylch iechyd meddwl plant a phobl ifanc ym Mhrydain Fawr yn 2004.⁸¹

Nid yw'r HBSC yn holi plant am eu profiadau o iechyd meddwl gwael, ond mae yn holi'n fwy cyffredinol ydyn nhw'n ystyried bod ganddyn nhw lefel uchel o foddhad mewn bywyd⁸²:

- Ymhlith y plant 11 oed mae 87 y cant o'r merched a 90 y cant o'r bechgyn yn dweud bod ganddyn nhw lefel uchel o foddhad mewn bywyd, o gymharu ag 88 y cant o'r merched a 90 y cant o'r bechgyn yn Lloegr.
- Ymhlith y plant 13 oed, roedd 75 y cant o'r merched ac 86 y cant o'r bechgyn yn dweud hyn yng Nghymru, ac 81 y cant o'r merched a 90 y cant o'r bechgyn yn Lloegr.
- Ymhlith y plant 15 oed, roedd 72 y cant o'r merched ac 84 y cant o'r bechgyn yn dweud bod ganddyn nhw lefel uchel o foddhad mewn bywyd, o gymharu â 71 y cant o'r merched ac 84 y cant o'r bechgyn yn Lloegr.

Mae'r amcangyfrifon diweddaraf ynghylch amlygrwydd salwch meddwl ymhlith plant a phobl ifanc yn deillio o ryddhau arolwg Deall Cymdeithas yn 2015, y casglwyd data ar ei gyfer rhwng 2011 a 2012.⁸³ Defnyddiodd gwestiynau o'r holiadur Cryfderau ac Anawsterau, sy'n cael ei ddefnyddio'n gyffredin i asesu amlygrwydd salwch meddwl mewn poblogaethau.⁸⁴ Trwy'r mesur hwn, casglwyd data ynghylch symptomau emosiynol plant, problemau ymddygiad, gorfywiogrwydd neu ddiffyg canolbwytio, problemau yn eu perthynas â chyfoedion ac ymddygiad rhag-gymdeithasol. Dangosodd data o'r arolwg hwn fod gan 11.6 y cant o'r plant 10-15 oed yng Nghymru symptomau uchel neu uchel iawn o salwch meddwl, sy'n debyg i'r sgôr o 11.5 y cant yn yr Alban. Roedd y ddwy wlad fymryn yn is na sgôr Lloegr, oedd yn 12.7 y cant. Plant yng Ngogledd Iwerddon oedd â'r sgôr isaf yn y Deyrnas Unedig, sef 7.5 y cant o'r cyfranogwyr.⁸⁵

Dengys gwybodaeth bellach o'r arolwg hwn fod gan 80.1 y cant o blant Cymru a fu'n rhan o'r arolwg lefelau boddhad uchel neu uchel iawn o ran eu bywydau'n gyffredinol:

⁸⁰ Ibid.

⁸¹ Green, H., McGinnity, A, Meltzer, H., Ford, T., Goodman, R. 2005. *Mental health of children and young people in Great Britain, 2004*. Ar gael yn: <https://files.digital.nhs.uk/publicationimport/pub06xxx/pub06116/ment-heal-chil-youn-peop-gb-2004-rep1.pdf>

⁸² Sefydliad Iechyd y Byd. Swyddfa Ranbarthol Ewrop. 2016. *Growing up unequal: gender and socioeconomic differences in young people's health and well-being*. HEALTH BEHAVIOUR IN SCHOOL-AGED CHILDREN (HBSC) STUDY: INTERNATIONAL REPORT FROM THE 2013/2014 SURVEY. Ar gael yn: http://www.euro.who.int/_data/assets/pdf_file/0003/303438/HBSC-No.7-Growing-up-unequal-Full-Report.pdf?ua=1

⁸³ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. 2015. *Measuring National Well-being: Insights into children's mental health and well-being*. Ar gael yn: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/wellbeing/articles/measuringnationalwellbeing/2015-10-20#happiness-with-school>

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/wellbeing/articles/measuringnationalwellbeing/2015-10-20>

⁸⁴ Ibid.

⁸⁵ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. 2016. *Selected children's well-being measures by country*. Ar gael yn:

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/wellbeing/adhocs/005283selectedchildrenswellbeingmeasuresbycountry>



- roedd gan 74.3 y cant lefelau uchel neu uchel iawn o hapusrwydd
- roedd 75.5 y cant yn gymharol fodlon ar sut roedden nhw'n edrych
- roedd 9.3 y cant o blant yn cael eu bwlio yn yr ysgol

Roedd bwlio hefyd yn broblem fawr i'r bobl ifanc yn arolwg Beth Nesa Comisiynydd Plant Cymru yn 2015⁸⁶, lle nododd dros hanner (53 y cant) o'r plant ysgol gynradd eu bod weithiau'n profi bwlio, gyda 12 y cant o blant yn dweud bod hynny'n digwydd bron bob dydd.

2.3.2 Darpariaeth CAMHS

O ran mynediad i Wasanaethau Iechyd Meddwl (CAMHS) arbenigol i Blant a Phobl Ifanc, rhwng Mawrth 2017 a Mawrth 2018 y targed ar gyfer cleifion oedd heb aros yn hwy na 28 diwrnod (4 wythnos) o ddyddiad derbyn yr atgyfeiriad gan yr ysbyty oedd cyn cael apwyntiad cyntaf claf allanol oedd 80 y cant.⁸⁷ Fodd bynnag, ni chyrrhaeddwyd y targed o 80 y cant eleni, sef blwyddyn gyntaf gweithredu'r targed. Dengys y canlyniadau fod amrywiaeth eitha sylweddol yn y perfformiad yn erbyn y targedau hyn yn ystod y flwyddyn. Ym mis Awst 2017 dim ond 39.4 y cant o'r cleifion gafodd eu gweld o fewn pedair wythnos, tra bod 68.5 y cant o gleifion wedi cael eu gweld o fewn y cyfnod o bedair wythnos ym mis Mawrth 2018.

2.3.3 Hunanladdiad plant a phobl ifanc

Yn 2016, bu farw 14 o bobl ifanc 15-19 oed yng Nghymru trwy hunanladdiad, a chofnodwyd bwriad amhendiant fel achos marwolaeth dau berson ifanc arall.⁸⁸ Mae marwolaethau plant oherwydd hunan-niweidio bwriadol yng Nghymru a Lloegr wedi dechrau codi yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn dilyn tuedd ar i lawr. Y gyfradd flynyddol uchaf ar gyfartaledd dros gyfnod o 5 mlynedd yng Nghymru oedd 85.5 fesul miliwn o bobl ifanc 15-19 oed rhwng 1997 a 2001, yn gostwng i 43.7 fesul miliwn rhwng 2006 a 2010. Fodd bynnag, gwelwyd cynnydd o 41.2 y cant rhwng 2012 a 2016, pan gododd y gyfradd i 61.7 fesul miliwn. Mae hunanladdiad ymhlith plant 10-14 oed yn beth prin iawn yn y Deyrnas Unedig, a chyfartaledd pum mlynedd y marwolaethau trwy hunanladdiad yng Nghymru yw'r isaf o holl wledydd y Deyrnas Unedig, sef 1.2 o blant fesul miliwn.

⁸⁶ Comisiynydd Plant Cymru. 2017. *Stori Sam: Gwrando ar brofiadau plant a phobl ifanc o fwlio yng Nghymru*. Ar gael yn: <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2017/11/Sams-Story.pdf>

⁸⁷ Ystadegau i Gymru. 2018. *NHS Wales Referral to Treatment Times: 2017-18*. Ar gael yn: <https://gov.wales/docs/statistics/2018/180726-nhs-referral-treatment-times-2017-18-en.pdf>

⁸⁸ National Society for the Prevention of Cruelty to Children. 2018. *How safe are our children? 2018*. Ar gael yn: <https://www.nspcc.org.uk/globalassets/documents/research-reports/how-safe-children-2018-report.pdf>



2.3.4 Cefnogi iechyd meddwl mewn ysgolion

Yn 2017, comisiynodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg arolwg ar y gefnogaeth mae plant yn ei chael o ran eu llesiant emosiynol a'u hiechyd meddwl yn yr ysgol, a chasglu ymatebion gan 1,611 o fyfyrwyr ysgol uwchradd.⁸⁹

Gwnaed y canfyddiadau canlynol:

- Dim ond 54.1 y cant o'r plant yn y sampl oedd yn gwybod sut i gael gwybodaeth am lesiant emosiynol a iechyd meddwl yn eu hysgol neu eu coleg
- Ar raddfa o 1 i 5 lle mae 1 yn wael a 5 yn dda iawn, yr ymateb cyfartalog i gwestiwn ynghylch pa mor dda yw eu hysgol neu eu coleg o ran eu helpu i ymdopi â phethau fel pwysau arholiadau, bwlio a phwysau cyfoedion oedd 3.3

Dengys y data fod nifer cymharol uchel yn manteisio ar wasanaethau cwnsela.⁹⁰ Mae gofyn bob pob awdurdod lleol yn adrodd am y defnydd o wasanaethau cwnsela mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru, gan ddarparu data ynghylch y nifer oedd yn eu defnyddio o ran ethnigrwydd, rhywedd, maes a'r materion a godwyd. Dengys y ffigurau fod 7,251 o ferched wedi cael eu cwnsela yng Nghymru yn 2016/17, a bod nifer y bechgyn yn is, 4,307. Fel cyfran, cafodd 3.7 y cant o'r bobl ifanc 10-18 oed yng Nghymru eu cwnsela yn ystod blwyddyn academaidd 2016/17. Y prif reswm dros geisio gwasanaethau cwnsela oedd problemau teuluol, gyda 35.6 y cant o'r rhai oedd yn cael sesiynau cwnsela yn sôn am hynny, gyda phryder (23 y cant) a dicter (15.9 y cant) yn dilyn. Ymatebodd 49.8 y cant o'r rhai a nododd eu bod wedi cael eu cwnsela yn arolwg y Senedd fod y gwasanaethau hynny o fudd iddynt.

2.4 Tlodi Plant a Digartrefedd

Canfyddiadau allweddol

- Mae 28 y cant o blant Cymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol. Er bod tlodi wedi gostwng yn ddiweddar, rhagwelir y bydd yn codi rhyw 8 y cant erbyn 2022.
- Mae mwy o siawns y bydd plant anabl 0-15 oed yn y Deyrnas Unedig yn byw mewn tlodi na phlant sydd heb anabled.
- Mae cyfran yr aelwydydd digartref sy'n cynnwys plant wedi gostwng rhwng 2005/6 a 2014/15. Fodd bynnag, mae cryn nifer ohonynt yng Nghymru o hyd - yn 2017/18 roedd 882 o aelwydydd o'r fath.

⁸⁹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru. 2017. *Emotional well-being and mental health of children and young people*. Ar gael yn: <http://senedd.assembly.wales/documents/s69006/CYPE5-33-17%20-%20Paper%201a%20-%20Summary%20of%20survey%20results%20-%20young%20people%20in%20secondary%20schools%20and%20college.pdf>

⁹⁰ Ibid.



2.4.1 Tlodi

Yn ei adroddiad cyfnodol diwethaf, bu Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn yn beirniadu'r Deyrnas Unedig am ei chyfraddau uchel o dlodi plant a'r polisiau cyni, ac yn awgrymu bod y rhain yn cael effaith anghymesur ar blant, er enghraifft trwy doriadau i gredydau treth a chap ar fudd-daliadau. Mae sawl dull o fesur tlodi a thlodi plant yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig.

Ar hyn o bryd, plant yw'r grŵp oedran mwyaf tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol yng Nghymru.⁹¹ Mae'r data Ystadegau Tlodi (a elwid gynt yn ystadegau Aelwydydd ag Incwm is na'r Cyfartaledd) sy'n cael eu coladu gan National Statistics yn dangos bod 28 y cant o blant Cymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol (ar ôl costau tai) rhwng 2014/15 a 2016/17.⁹² Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o ffigur o 30 y cant llynedd a 29 y cant y flwyddyn flaenorol. Mewn cyferbyniad, mae ffigurau Lloegr wedi codi o 29 y cant y llynedd i 30 y cant eleni. Mae gan Ogledd Iwerddon a'r Alban gyfran is o blant sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol: 24 y cant yn yr Alban a 26 y cant yng Ngogledd Iwerddon.⁹³ Ar hyn o bryd, mae plant mewn teuluoedd unig riant yn fwy tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol na'r rhai sy'n byw ar aelwydydd gyda chwpl.⁹⁴ Fodd bynnag, mae data ar gyfer 2014-15 i 2016-17 yn dangos nad oes perthynas syml rhwng nifer y plant ar aelwyd a pherygl dioddef tlodi incwm cymharol. Yn ystod y degawd diwethaf mae risg dioddef tlodi incwm cymharol ar gyfer aelwydydd sydd â thri neu fwy o blant wedi gostwng, ac mae'r ystadegau diweddaraf yn dangos bod teuluoedd ag un plentyn yn wynebu risg ryw fymryn yn uwch o dioddef y math yma o dlodi na rhai sydd â dau blentyn, neu dri neu fwy o blant.⁹⁵

Gwnaed peth cynnydd yn erbyn dangosyddion tlodi plant eraill a ddefnyddir yng Nghymru — mae cyfran y babanod byw sydd â phwysau geni isel yn ardaloedd y pumed ran fwyaf difreintiedig wedi gostwng rhywfaint o 7.7 y cant yn 2002-04 i 6.5 y cant yn 2012-14.⁹⁶ Fodd bynnag, yn 2017 cododd hyn rywfaint i 6.9 y cant.⁹⁷ Mae cyfran y plant 5 oed sydd â dant cyntaf ar goll, wedi pydru neu wedi'i lenwi hefyd wedi gostwng, o 57.6 y cant i 45.4 y cant rhwng 2007/8 a 2014/15.⁹⁸ Dangosydd arall allweddol oedd canran y plant oedd yn rhan o raglen Dechrau'n Deg a

⁹¹ StatsWales. 2018. Poverty Statistics Headline Figures. Ar gael yn: <https://www.slideshare.net/StatisticsWales/poverty-statistics-headline-figures>

⁹² Ibid.

⁹³ Ystadegau i Gymru. 2018. *Poverty Statistics Headline Figures*. Ar gael yn: <https://www.slideshare.net/StatisticsWales/poverty-statistics-headline-figures>

⁹⁴ StatsWales. 2018. Relative income poverty. Family characteristics. Ar gael yn:

<https://www.slideshare.net/StatisticsWales/relative-income-poverty-family-characteristics-103098003>

⁹⁵ StatsWales. 2018. *Children in relative income poverty by number of children in the household*. Ar gael yn:

<https://statswales.gov.wales/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Poverty/childreninrelativeincomepoverty-by-numberofchildreninthehousehold>

⁹⁶ Llywodraeth Cymru. 2016. *Strategaeth Tlodi Plant: Asesu Cynnydd 2016. Adroddiad crynodol*. Ar gael yn:

<https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/cyp/161212-child-poverty-strategy-progress-report-2016-en.pdf>

⁹⁷ Cronfa ddata Genedlaethol Gymunedol Iechyd Plant (NCCHD). 2018. *Genedigaethau yng Nghymru, 2017: Data o'r NCCHD*. Ar gael yn: <https://gov.wales/statistics-and-research/births-national-community-child-health-database/?lang=en>

⁹⁸ Llywodraeth Cymru. 2016. *Strategaeth Tlodi Plant: Asesu Cynnydd 2016. Adroddiad crynodol*. Ar gael yn:

<https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/cyp/161212-child-poverty-strategy-progress-report-2016-en.pdf>



gyrhaeddodd eu cerrig milltir datblygiadol yn 3 oed neu ragori arnynt erbyn 2016. Cyflawnodd 55 y cant hynny yn 2012/13, ond dim ond 52 y cant wnaeth yn 2015/16, sy'n ostyngiad bychan.⁹⁹

Mae rhagfynegiadau ar gyfer tlodi plant hyd at 2021 wedi cael eu cynhyrchu gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'r *Institute of Fiscal Studies* (IFS). Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi comisiynu gwaith ymchwil sy'n ystyried effaith gronol diwygio lles a threthi yn ystod y cyfnod rhwng ethol llywodraeth y glymblaid yn 2010 a diwedd blwyddyn dreth 2021-22.¹⁰⁰ Yn ôl y dadansoddiad hwn, erbyn 2021/22, bydd tlodi plant wedi cynyddu 10.4 y cant ar draws Prydain Fawr. Mae hyn yn llawer uwch na'r cynnydd o 1.4 y cant a ragfynegwyd ar gyfer oedolion. Disgwylir y cynnydd mwyaf yng nghyfran y plant sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol yn Lloegr (10.7) a'r lleiaf yng Nghymru (7.7 y cant). Mae'r IFS hefyd yn rhagweld cynnydd mewn tlodi plant cymharol ar draws y Deyrnas Unedig. Mae wedi modelu tlodi plant yn ôl rhanbarthau'r Deyrnas Unedig.¹⁰¹ Ar sail ei ddadansoddiad, rhagwelir mai rhanbarthau Gogleddol y Deyrnas Unedig, Canolbarth Lloegr, Gogledd Iwerddon a Chymru fydd yn gweld y cynnydd mwyaf, o ryw 8 y cant, yn ystod y cyfnod rhwng 2013 a 2015 a 2019-2021.¹⁰²

Mae peth data ar gael hefyd gan Ymddiriedolaeth Trussell ynghylch y defnydd o fanciau bwyd gan deuluoedd â phlant, sy'n rhoi syniad o effaith tlodi ar blant. Yn 2017/2018, dywed yr Ymddiriedolaeth eu bod wedi cyflwyno 35,403 o gyflenwadau bwyd 3 diwrnod mewn argyfwng i blant yng Nghymru, o gymharu â 34,803 yn y cyfnod blaenorol.¹⁰³ Gan fod y rhain yn cynnwys y bobl a fu'n defnyddio banciau bwyd Ymddiriedolaeth Trussell yn unig, mae'r nifer hwn yn debygol o fod yn is na chyfanswm y plant sy'n derbyn bwyd o holl fanciau bwyd Cymru.

2.4.2 Digartrefedd

Mae digartrefedd ymhlith pobl ifanc yng Nghymru yn dal yn fater allweddol. Dengys data o Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n cyhoeddi adroddiadau blynyddol ar nifer o ddangosyddion iechyd plant, fod cyfran yr aelwydydd digartref sy'n cynnwys plant dibynnol wedi gostwng rhwng 2005/6 a 2014/15, o 48.3 y cant i 41 y cant.¹⁰⁴ Fodd bynnag, wedi 2014/15 nid oes modd cymharu data digartrefedd yn uniongyrchol â blynyddoedd blaenorol oherwydd newidiadau i'r dull o gasglu data ar ôl cyflwyno Deddf Tai (Cymru) 2014.¹⁰⁵ Mae'r Ddeddf bellach yn gofyn bod awdurdodau lleol yn cymryd camau i atal digartrefedd, yn ogystal â lliniaru ei effeithiau. Mae ystadegau diweddaraf Llywodraeth Cymru ar gyfer yr aelwydydd a gynorthwywyd yn 2017/18 yn dangos nifer y teuluoedd:

⁹⁹ Ibid.

¹⁰⁰ Institute for Fiscal Studies. 2017. *Living standards, poverty and inequality in the UK: 2017-18 to 2021-22*. Ar gael yn: <https://www.ifs.org.uk/uploads/publications/comms/R136.pdf>

¹⁰¹ Ibid.

¹⁰² Mae'r IFS yn defnyddio cyfraddau tlodi ar gyfartaledd ar draws 3 blynedd wrth ddadansoddi fesul rhanbarth, er mwyn sicrhau sampl digon o faint.

¹⁰³ Trussell Trust. 2018. *End of year stats*. Ar gael yn: <https://www.trusselltrust.org/news-and-blog/latest-stats/end-year-stats/>

¹⁰⁴ Iechyd Cyhoeddus Cymru. 2017. *Offeryn cadw golwg ar feichiogrwydd a phlentyndod* Ar gael yn: <http://www.publichealthwalesobservatory.wales.nhs.uk/pregnancychildhood>

¹⁰⁵ Mae'n bwysig nodi bod data digartrefedd yn cael eu casglu trwy ffurflenni cronol sy'n cael eu dychwelyd i Lywodraeth Cymru, ac felly mae'n bosibl bod rhai unigolion yn cael eu cyfrif ddwywaith ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n gweithio i ddiwygio gweithdrefnau er mwyn sicrhau bod data wedi'u datgrynhoi ar gael yn y dyfodol.



- Oedd dan fygythiad o fod yn ddigartref (y rhai y rhoddwyd cymorth iddynt i atal digartrefedd): 4,164 ¹⁰⁶
- Oedd yn ddigartref (y rhai y cafwyd eu bod yn ddigartref adeg gwneud cais, neu lle bu gwaith ataliaeth yn aflwyddiannus): 2,622¹⁰⁷
- Yr oedd dyletswydd i sicrhau llety ar eu cyfer (ar ôl iddynt wneud cais am gymorth a dod neu barhau'n ddigartref ar ôl gwaith lliniaru): 981 ¹⁰⁸

Y grŵp olaf hwn sy'n cynrychioli cyfnod olaf y fframwaith deddfwriaethol cyfredol. Yn y cyfnod hwn, mae dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau lleol i sicrhau llety ar eu cyfer, yn achos yr aelwydydd hynny sy'n perthyn i grŵp angen blaenoriaeth yn unig, yn debyg iawn i'r hen system. O gyfanswm nifer yr aelwydydd lle roedd dyletswydd i sicrhau llety ar eu cyfer yn 2017/18 (2,229), cofnodwyd y grwpiau angen blaenoriaeth canlynol: ¹⁰⁹

- 882 o aelwydydd gyda phlant dibynnol
- 126 o fenywod beichiog mewn aelwydydd heb blant dibynnol eraill
- 81 o ymadawyr gofal neu bobl sy'n wynebu risg penodol o ddiodef ecsbloetio rhywiol neu ariannol, rhwng 18 ac 21 oed
- 66 o bobl ifanc 16-17 oed

Ychydig iawn o ffynonellau data sydd ar gael ynghylch barn plant digartref a'u profiadau o ddigartrefedd, na thystiolaeth o'u cyfranogiad neu o ymgynghori â nhw ynghylch digartrefedd. O'r sector anllywodraethol mae Prifysgol Caerdydd a Llamau, yr elusen ddigartrefedd i fenywod a phobl ifanc, wedi cynnal astudiaeth ansoddol ar raddfa fawr o brofiadau pobl ifanc ddigartref sy'n byw mewn llety dros dro a ddarparwyd gan Llamau, drwy gynnal cyfweiliadau manwl dwy awr o hyd gyda 121 o gyfranogwyr a chyfweiliadau dilynol dros gyfnod o ddwy flynedd

¹⁰⁶ StatsWales. 2018. *Households found to be threatened with homelessness during the year. Main reason for being threatened with homelessness by type of household (Section 66) 2017/18*. Ar gael yn: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Housing/Homelessness/Statutory-Homelessness-Prevention-and-Relief/main-reason-for-being-threatened-with-homelessness-by-type-of-household-section-66>

¹⁰⁷ StatsWales. 2018. *Households found to be eligible, homeless subject to duty to help to secure during the year. Main reason for loss of last settled home by type of household (Section 73) 2017/2018*. Ar gael yn: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Housing/Homelessness/Statutory-Homelessness-Prevention-and-Relief/households-found-to-be-eligible-homeless-subject-to-duty-to-help-to-secure-during-the-year-main-reason-for-loss-of-last-settled-home-by-type-of-household>

¹⁰⁸ StatsWales. 2018. *Households found to be eligible for assistance, unintentionally homeless and in priority need during the year: Categories of priority need by type of household (section 75) 201/2018*. Ar gael yn: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Housing/Homelessness/Statutory-Homelessness-Prevention-and-Relief/households-found-to-be-eligible-for-assistance-unintentionally-homeless-and-in-priority-need-during-the-year-categories-of-priority-need-by-type-of-household-section-75>

¹⁰⁹ StatsWales. 2018. *Homelessness in Wales, 2017-18, Revised*. Ar gael yn: <https://gov.wales/docs/statistics/2018/180801-homelessness-2017-18-revised-en.pdf>



gyda nifer o'r cyfranogwyr gwreiddiol.¹¹⁰ O blith y cyfranogwyr, dywedodd 50 y cant eu bod wedi dioddef rhyw fath o gamdriniaeth yn ystod eu hoes. Dangosodd y data ynghylch y cyfnod yn yr ysgol fod 32 y cant wedi cael eu troi allan o'r ysgol o leiaf unwaith, a bod dros hanner (55 y cant) wedi cael eu gwahardd o'r ysgol dros dro ar o leiaf un achlysur. Oed gadael yr ysgol ar gyfartaledd yn y grŵp hwn oedd 14 oed. Roedd camddefnyddio sylweddau a smygu hefyd yn amlwg ymhlith y bobl ifanc hyn, gan fod 80 y cant ohonynt yn smygu a 70 y cant yn dweud eu bod yn defnyddio cyffuriau oedd ddim ar bresgripsiwn.

2.5 Plant anabl

Canfyddiadau allweddol

- Mae diffyg data cenedlaethol wedi'u datgrynhai ynghylch plant ag anableddau. Yr eithriad i hynny yw ystadegau ynghylch addysg a chyrhaeddiad (gweler Adran 3).
- Dengys yr ymchwil nad yw barn plant anabl yn cael ei chasglu'n systematig.
- Rhagfynegir y bydd cyfradd flodi aelwydydd yn y Deyrnas Unedig sy'n cynnwys o leiaf un plentyn anabl yn codi i 18.5 y cant erbyn 2021.

Mae'r data am fywydau plant anabl yng Nghymru, neu yn y Deyrnas Unedig gyfan, yn gyfyngedig, er gwaethaf y ffaith bod hawliau plant anabl yn cael eu diogelu o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl, a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae data ar draws y Deyrnas Unedig wedi dangos bod y mesurau cyni a roddwyd ar waith ers 2010 yn cael effaith anghymesur ar blant anabl yn y Deyrnas Unedig¹¹¹, yn bennaf oherwydd newidiadau i'r budd-daliadau y gellir eu hawlio. Mae gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi modelu effaith polisiau treth a budd-dal a gyflwynwyd ers ethol y Llywodraeth glymblaid yn 2010, y mae disgwyl iddynt gael eu gweithredu erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2020-21. Mae'n rhagfynegi y bydd flodi mewn teuluoedd lle mae o leiaf un plentyn yn anabl yn codi 18.5 y cant yn ystod y cyfnod hwn.¹¹² Nid oes ystadegau Cymru'n unig ar gael ar hyn o bryd, sy'n golygu bod asesu effaith newidiadau treth a budd-dal ar blant anabl yng Nghymru yn anodd.

Mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod plant anabl yn wynebu nifer o heriau o ran cael mynediad i addysg.

¹¹⁰ Llamau a Phrifysgol Caerdydd. 2015. *Study of the experiences of young homeless people*. Ar gael yn: <https://www.llamau.org.uk/Handlers/Download.ashx?IDMF=3a84ee00-b19e-4007-b0a4-a2629ea344de>

¹¹¹ Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. 2018. *The cumulative impact of tax and benefit reforms*. Ar gael yn: <https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/cumulative-impact-assessment-report.pdf>

¹¹² Ibid.



Mae Comisiynydd Plant Cymru wedi cynhyrchu adroddiad sy'n amlygu problemau niferus yng nghyswllt hygyrchedd ysgolion i blant anabl, a chanfu adroddiad dilynol fod pryder yn parhau nad yw awdurdodau lleol yn ymgynghori'n systematig â phlant ynghylch eu cynlluniau i wneud ysgolion yn fwy hygyrch.¹¹³

Bu adroddiad pellach gan y Comisiynydd hefyd yn edrych ar bontio i oedolaeth ar gyfer pobl ifanc ag anableddau dysgu.¹¹⁴ Roedd wedi'i seilio ar farn a phrofiadau 99 o bobl ifanc 14-26 oed, 187 o rieni a gofalwyr, a 43 o weithwyr proffesiynol. Nododd y bobl ifanc anabl y siaradwyd â nhw mai ychydig iawn o gyfleoedd sydd iddyn nhw o ran cyfranogi mewn penderfyniadau a chynllunio, ac felly bod gwasanaethau'n aml heb gael eu teilwra i'w hanghenion a'u blaenoriaethau. Mae hyn yn adlewyrchu barn Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn, a fynegodd bryder yn ei adroddiad cyfnodol diwethaf nad yw plant anabl yn y Deyrnas Unedig 'yn gweld pwys dyledus yn cael ei roi ar eu barn wrth wneud penderfyniadau personol yn eu bywyd'. Hefyd nid oes llawer o gyfleoedd cyflogaeth addas â chymorth i bobl ifanc, ac mae hynny'n cyfyngu eu mynediad i'r gweithle. Awgrymodd cyfranogwyr yr astudiaeth hefyd fod llai o gefnogaeth ar gyfer y rhai oedd yn symud i wasanaethau ôl-18.

Soniodd y plant a'r bobl ifanc anabl a gyfrannodd at brosiect Erthygl 31 y Comisiynydd Plant am nifer o heriau roedden nhw'n eu hwynebu o ran cael mynediad i chwarae, chwaraeon a hamdden. Mae rhagor o wybodaeth yn Adran 5.

¹¹³ Comisiynydd Plant Cymru. 2018. *Bywydau Llawn: Mynediad Cyfartal. Adroddiad dilynol ar hygyrchedd ysgolion yng Nghymru i gadeiriau olwyn*. Ar gael yn: <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2018/03/Full-Lives-Equal-Access.pdf>

¹¹⁴ Comisiynydd Plant Cymru. 2018. *Paid dal yn ôl: Pontio i oedolaeth ar gyfer pobl ifanc ag anableddau dysgu*. Ar gael yn: <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2018/07/Dont-Hold-Back.pdf>



3. Addysg, Hamdden a Gweithgareddau Diwylliannol

3.1 Addysg

Canfyddiadau allweddol

- Mae bylchau cyrhaeddiad allweddol ar draws y Cyfnodau Allweddol yn achos plant sy'n derbyn gofal a chymorth, plant mewn ardaloedd o amddifadedd sosio-economaidd, a phlant o gefndir Sipsiwn neu Sipsiwn Roma.
- Mae arolygon wedi canfod bod lefelau cyrhaeddiad merched yn uwch na rhai bechgyn, ond eu bod yn llai hapus yn yr ysgol.
- Mae disgyblion sy'n gymwys i dderbyn Prydau Ysgol am Ddim (FSM) bum gwaith mor debygol o gael eu gwahardd o'r ysgol.
- Mae plant sy'n derbyn gofal yn wynebu rhwystrau niferus i ddysgu a chyfranogi ym mywyd yr ysgol.
- Mae disgyblion yn wynebu lefelau sylweddol o straen yng Nghyfnod Allweddol 4.
- Mae disgyblion am gael eu cynnwys yn fwy mewn penderfyniadau ynghylch eu dewisiadau cwrs yng Nghyfnod Allweddol 4.

At ei gilydd mae lefel dda o ddata ar gael ynghylch cyflawni'r hawl i gael addysg yng Nghymru, gyda chyfuniad o ystadegau cenedlaethol a data arolygon ar fywydau plant. Fel y byddwn yn pwysleisio, mae angen rhagor o wybodaeth am brofiadau rhai grwpiau o blant, fel plant anabl.

3.1.1. Cyflawniad academiaidd yn ôl nodweddion disgyblion

Yn Sylwadau Terfynol 2016, bu Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn yn beirniadu'r Deyrnas Unedig am anghydraddoldeb ym maes cyrhaeddiad addysgol.¹¹⁵ Mae data ystadegol a gyhoeddir yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru¹¹⁶ yn dangos bod nifer o wahaniaethau allweddol yn parhau ar gyfer rhai grwpiau.

¹¹⁵ Y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn, 2016. Sylwadau terfynol ar bumed adroddiad cyfnodol Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon. Ar gael yn: https://tbinternet.ohchr.org/_layouts/treatybodyexternal/Download.aspx?symbolno=CRC%252fC%252fGBR%252fCO%252f5&Lang=en

¹¹⁶ Llywodraeth Cymru. 2018. *Cyflawniad academiaidd yn ôl nodweddion disgyblion*. Ar gael yn: <https://gov.wales/statistics-and-research/academic-achievement-pupil-characteristics/?lang=en>



Cefndir sosio-economaidd

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data ar y berthynas rhwng cyflawniad academaidd a chymhwyster i dderbyn prydau ysgol am ddim (FSM), sy'n cael ei ddefnyddio'n gyffredinol fel dangosydd anfantais sosio-economaidd.¹¹⁷ Dengys y data fod perthynas gref rhwng y dangosyddion hyn ym mhob Cyfnod Allweddol, a bod y bwlch perfformiad rhwng y rhai cymwys ac anghymwys yn cynyddu ym mhob Cyfnod Allweddol. Gosodwyd targed cenedlaethol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen gan y Llywodraeth yn 2015, gyda'r nod o sicrhau bod 80 y cant o'r plant sy'n gymwys i dderbyn Prydau Ysgol am Ddim yn 7 oed yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig erbyn 2017.¹¹⁸ Y lefel a gyrhaeddwyd yn 2017 oedd 75.9 y cant, sy'n cynrychioli gostyngiad o 0.6 y cant yn y bwlch rhwng 2015 a 2017 a bwlch cyffredinol o 14.3 y cant rhwng y rhai sy'n gymwys i dderbyn Prydau Ysgol am Ddim a'r rhai oedd ddim yn gymwys (90.1 y cant). Mae'r bwlch wedi lleihau 10.2 y cant ers 2012 yng Nghyfnod Allweddol 3. Fodd bynnag, yng Nghyfnod Allweddol 4, mae'r bwlch wedi parhau'n gymharol sefydlog ers 2010, gyda mesurau cynhwysol Lefel 2, sy'n cynnwys Cymraeg, Saesneg a Mathemateg, yn amrywio rhyw ychydig yn unig, rhwng 34 a 32 y cant, sy'n dangos na wnaed llawer o gynnydd mewn perthynas â pherfformiad plant o gefndir llai breintiedig.¹¹⁹

Er na ellir cymharu data cyrhaeddiad Cyfnodau Allweddol yn uniongyrchol ar draws y Deyrnas Unedig oherwydd gwahaniaethau yn systemau asesu Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, mae'r Rhaglen Asesu Myfyrwyr Rhyngwladol (PISA), yn darparu data cymaradwy ar sail profi sampl gynrychioliadol o blant 15 oed yng Nghymru ym meysydd Gwyddoniaeth, Mathemateg, darllen a datrys problemau ar y cyd.¹²⁰ Roedd y canlyniadau'n gosod Cymru mewn safle sylweddol is na gwledydd eraill y Deyrnas Unedig mewn Gwyddoniaeth, Mathemateg a Darllen.¹²¹ Fodd bynnag, mae cyfyngiadau pwysig ar ddata PISA, yn arbennig o ran samplo.¹²² Ymhellach, er bod perfformiad Cymru'n gyffredinol is na gwledydd eraill y Deyrnas Unedig, mae'r berthynas rhwng amddifadedd sosio-economaidd a sgoriau profion gwyddoniaeth yn is yng Nghymru nag yng ngweddill y Deyrnas Unedig, ac yn cymharu'n ffafriol â gwledydd diwydiannol eraill. Fel enghraifft — mae'r bwlch cyfartalog rhwng perfformiad y myfyrwyr mwyaf a lleiaf difreintiedig yn 88 yn achos gwledydd diwydiannol, ond yn 50 yn unig yng Nghymru. Fodd bynnag, gallai hynny fod wedi digwydd oherwydd bod disgyblion o'r cefndiroedd mwyaf breintiedig wedi cael sgoriau cyffredinol is na disgyblion mewn gwledydd diwydiannol eraill, sy'n codi cwestiynau ynghylch a oes lefel briodol o her i bob disgybl yn system addysg Cymru.¹²³

¹¹⁷ Llywodraeth Cymru. 2017. *Cyflawniad a hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim*. Ar gael yn: <https://gov.wales/statistics-and-research/academic-achievement-free-school-meals/?lang=en>

¹¹⁸ Ibid.

¹¹⁹ Fodd bynnag, dylid nodi bod y dangosyddion a ddefnyddir wedi newid ers 2016, ac felly nid oes modd cymharu'r ystadegau o'r pwynt hwnnw ymlaen yn uniongyrchol â blynyddoedd blaenorol.

¹²⁰ Jerrim, J. a Shure, N. 2016. *Achievement of 15-Year-Olds in Wales: PISA 2015 National Report*. Ar gael yn: <http://dera.ioe.ac.uk/27969/1/161206-pisa-2015-en.pdf>

¹²¹ Ibid.

¹²² Rees, G. a Taylor, C. 2013. Is there a 'crisis' in Welsh education?

Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion. Ar gael yn: <https://www.cymmrodorion.org/wp-content/uploads/2017/07/Is-There-a-%E2%80%98Crisis%E2%80%99-in-Welsh-Education.pdf>

¹²³ Jerrim, J. a Shure, N. 2016. *Achievement of 15-Year-Olds in Wales: PISA 2015 National Report*. Ar gael yn: <http://dera.ioe.ac.uk/27969/1/161206-pisa-2015-en.pdf>



Mae data o astudiaeth Aml-Garfan Addysg WISERD wedi dangos bod perthynas rhwng bod yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim a chael mynediad i adnoddau i helpu gyda gwaith ysgol yn y cartref ymhlith cyfranogwyr eu sampl. Dywedodd 10 y cant o'r plant oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim nad oedd ganddyn nhw gysylltiad â'r rhyngwyd gartref, o gymharu â 6 y cant o'r plant oedd ddim yn gymwys. Ymhellach, roedd gan 66 y cant o'r rhai oedd yn gymwys gyfrifiadur neu liniadur gartref, y gallen nhw ei ddefnyddio ar gyfer gwaith cartref, o gymharu ag 89 y cant o'r plant oedd ddim yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Ethnigrwydd

Mae gwahaniaethau hefyd yn ôl ethnigrwydd, a phlant o gefndir Tsieineaidd neu Dsieineaidd Prydeinig (80.8 y cant) oedd fwyaf tebygol o gyflawni trothwy cynhwysol Lefel 2¹²⁴ ar lefel TGAU, gryn dipyn yn uwch na chyfartaledd yr holl ddisgyblion, sef 59 y cant, yn ôl data wedi'u crynhoi o 2015-2017.¹²⁵ Roedd y rhai o gefndir Gwyn (58.7 y cant) a chefnidir Du neu Ddu Prydeinig (57.8 y cant) yn perfformio ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol yn ystod y cyfnod hwn. Yn y categori ethnigrwydd Gwyn, dim ond 21.5 y cant o'r myfyrwyr o gefndir Sipsiwn neu Sipsiwn Roma oedd yn cyrraedd y trothwy, er ei bod hi'n bwysig nodi bod hyn wedi'i seilio ar boblogaeth o 79 disgybl yn unig, ac felly mae tuedd i amrywio o flwyddyn i flwyddyn.

Rhywedd

Dengys yr ystadegau fod merched yn tueddu i berfformio'n well na bechgyn ym mhob Cyfnod Allweddol.¹²⁶ Yn 2017, roedd gwahaniaeth o 8.1 y cant rhwng cyfran y merched a'r bechgyn a gyflawnodd fesur cynhwysol Lefel 2.¹²⁷ Mae digon o dystiolaeth o'r bwlch cyflawniad rhwng merched a bechgyn ar draws y byd, ac mae'n cael ei egluro'n aml yn sgîl agweddau mwy cadarnhaol merched yn gyffredinol at addysg a dysgu.¹²⁸

Plant sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig/Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae cyfran y disgyblion ar y gofrestr AAA sy'n cyflawni'r canlyniadau disgwylidig ar Ddangosydd y Cyfnod Sylfaen wedi codi rhwng 2013 a 2017, o 50 y cant yn 2013 i 57.8 y cant yn 2017.¹²⁹ Mae hon yn gyfradd sy'n cynyddu rywfaint yn gyflymach nag ymhlith poblogaeth ysgol gyffredinol y Cyfnod Sylfaen, y cyflawnodd 83.1 y cant ohonyn nhw'r Dangosydd yn 2013, o gymharu ag 87.4 yn 2017.

¹²⁴ Yn cynnwys TGAU gradd A*- C mewn Cymraeg neu Saesneg Iaith Gyntaf a Mathemateg

¹²⁵ Llywodraeth Cymru. 2018. *Cyflawniad academaidd yn ôl nodweddion disgyblion*. Ar gael yn: <https://gov.wales/statistics-and-research/academic-achievement-pupil-characteristics/?lang=en>

¹²⁶ Ibid.

¹²⁷ Ibid.

¹²⁸ Smith, K. 2016. *Girls may perform better at school than boys - but their experience is much less happy*. Ar gael yn: <https://wiserd.ac.uk/news/girls-may-perform-better-school-boys-their-experience-much-less-happy-0>

¹²⁹ Llywodraeth Cymru. 2018. *Cyflawniad academaidd yn ôl nodweddion disgyblion*. Ar gael yn: <https://gov.wales/statistics-and-research/academic-achievement-pupil-characteristics/?lang=en>



Yn 2017, cyrhaeddodd 20.6 y cant o'r plant ar y gofrestr AAA ym mlwyddyn 11 drothwy cynhwysol Lefel 2, o gymharu â 56 y cant o'r holl ddisgyblion blwyddyn 11.¹³⁰ Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o 5.5 y cant rhwng 2016 a 2017, er bod gostyngiad mwy o 6 y cant mewn cyrhaeddiad ar draws y grŵp blwyddyn cyfan yn ystod y cyfnod hwn. Ymhellach, fel y nodwyd eisoes, nid oes modd cymharu'r canlyniadau o 2017 ymlaen yn uniongyrchol â blynyddoedd blaenorol.

Plant y mae Saesneg yn iaith Ychwanegol iddynt

O'r plant y mae Saesneg yn iaith Ychwanegol iddyn nhw yn y Cyfnod Sylfaen, cyflawnodd 61.8 y cant o'r rhai yr oedd Saesneg yn newydd iddynt, a 94.1 y cant o'r rhai oedd yn rhugl, y lefel ddisgwyliedig ar Ddangosydd y Cyfnod Sylfaen.¹³¹ Ehangodd y bwch rhwng y rhai yr oedd yr iaith yn newydd iddynt a'r rhai oedd yn rhugl ar draws y Cyfnodau Allweddol, gydag 11.5 y cant yn unig o'r rhai yr oedd Saesneg yn newydd iddynt ym mlwyddyn 11 yn 2017 yn cyflawni trothwy cynhwysol Lefel 2, o gymharu ag 84.3 y cant oedd yn rhugl.

Plant mewn ysgolion Cyfrwng Cymraeg, Dwyieithog a Chyfrwng Saesneg

Gan fod ysgolion yng Nghymru yn gallu defnyddio cymwysterau byrddau arholi yn Lloegr neu CBAC, nid oes modd cymharu'n uniongyrchol rhwng cyrhaeddiad ysgolion Cymraeg, dwyieithog a Saesneg yng Nghymru. Roedd canlyniadau PISA cyfartalog y disgyblion a samplwyd ar gyfer profion mewn mathemateg, darllen a gwyddoniaeth yn debyg mewn ysgolion Cymraeg a Saesneg.¹³² Sgoriodd y disgyblion mewn ysgolion Saesneg ryw faint yn uwch ym meysydd gwyddoniaeth a darllen na'r rhai mewn ysgolion Cymraeg, er nad oedd y gwahaniaethau'n ystadegol arwyddocaol. Ymhellach, dangosodd y canlyniadau fod disgyblion oedd yn astudio Cymraeg fel iaith gyntaf, ond a safodd y profion darllen a gwyddoniaeth yn Saesneg, wedi gwneud yn sylweddol well na'r rhai sy'n astudio Cymraeg fel iaith gyntaf ac a safodd y prawf yn Gymraeg, felly nid yw'r berthynas rhwng iaith hyfforddiant a chyrhaeddiad yn un syml.

¹³⁰ Ibid.

¹³¹ Ibid.

¹³² Jerrim, J. a Shure, N. 2016. *Achievement of 15-Year-Olds in Wales: PISA 2015 National Report*. Ar gael yn: <http://dera.ioe.ac.uk/27969/1/161206-pisa-2015-en.pdf>



Sgoriau PISA cyfartalog disgyblion yn ôl a ydynt yn astudio yn Gymraeg neu Saesneg yn yr ysgol a iaith cwblhau prawf gwyddoniaeth PISA 2015¹³³

	Prawf yn Saesneg	Prawf yn Gymraeg
Astudio yn Saesneg	485	Amh*
Astudio yn Gymraeg	495	466

*roedd maint y sampl yn annigonol i'w gynnwys.

Plant sy'n derbyn gofal a chymorth

Mae bwlch cyrhaeddiad sylweddol rhwng plant sy'n derbyn gofal a chymorth gan eu hawdurdod lleol a holl ddisgyblion Cymru. Mae'r bwlch hwn yn ehangu wrth i blant symud trwy'r Cyfnodau Allweddol. Yn 2017, roedd y bwlch rhwng y rhai oedd yn cyflawni'r canlyniadau disgwylidig yn y Cyfnod Sylfaen yn 32 y cant. Roedd hynny'n codi i 38 y cant yng Nghyfnod Allweddol 3 ac i 43 y cant yng Nghyfnod Allweddol 4.¹³⁴ Rhwng 2013 a 2016, roedd y plant oedd yn cael gofal a chymorth nad oeddent yn derbyn gofal yn perfformio'n is yn gyson na'r rhai oedd yn derbyn gofal, a hynny ar draws y Cyfnodau Allweddol. Er bod y gwahaniaeth rhwng y grwpiau hyn i weld wedi culhau yn 2017 i fwlch o 1 y cant yn unig yng Nghyfnod Allweddol 4, newidiwyd y dangosydd y flwyddyn honno, felly nid oes modd cymharu'n uniongyrchol â blynyddoedd cynharach.

3.1.2 Gwaharddiadau o'r Ysgol

Mae Llywodraeth Cymru yn rhyddhau data blynyddol ar gyfraddau gwaharddiadau parhaol o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yng Nghymru. Mae'r data diweddaraf, sy'n cyfeirio at 2015/16, yn dangos bod cyfradd y gwaharddiadau parhaol o ysgolion yng Nghymru wedi parhau'n gyson, sef 0.2 o waharddiadau fesul 1,000 o ddisgyblion ers 2011/12.¹³⁵ Mae hyn yn is na Lloegr, sydd â chyfradd o 0.8 o waharddiadau fesul 1,000 o ddisgyblion yn 2015/16.¹³⁶ Fodd bynnag, mae nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol pum niwrnod neu lai wedi codi rhywfaint yng Nghymru, o 29.9 fesul 1,000 o ddisgyblion yn 2014/15, i 30.9 yn 2015/16. Mae nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol yng Nghymru dros bum niwrnod wedi gostwng, o 1.7 fesul 1,000 o ddisgyblion i 1.3. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu ystadegau ynghylch nifer y gwaharddiadau yn ôl nodweddion disgyblion, gan gynnwys eu hawl i dderbyn Prydau Ysgol am Ddim, anghenion addysgol arbennig/anghenion dysgu ychwanegol, a chefnidir

¹³³ Tabl wedi'i atgynhyrchu o waith Jerrim, J. a Shure, N. 2016. *Achievement of 15-Year-Olds in Wales: PISA 2015 National Report*. Ar gael yn: <http://dera.ioe.ac.uk/27969/1/161206-pisa-2015-en.pdf>

¹³⁴ Llywodraeth Cymru. 2018. *Cyfrifiad o'r Plant yng Nghymru sy'n cael Gofal a Chymorth, 2017* (Ystadegau Arbrofol). Ar gael yn: <https://stats.wales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-in-Need>
<https://gov.wales/docs/statistics/2018/180319-wales-children-receiving-care-support-census-2017-en.pdf>

¹³⁵ Llywodraeth Cymru. 2017. *Gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol o ysgolion yng Nghymru, 2015/16*. Ar gael yn: <https://gov.wales/docs/statistics/2017/170928-permanent-fixed-term-exclusions-from-schools-2015-16-en.pdf>

¹³⁶ Yr Adran Addysg (DfE). Education. 2017. *Permanent and Fixed Period Exclusions in England: 2015 to 2016*. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/645075/SFR35_2017_text.pdf



ethnig.¹³⁷ Dengys y data fod cyfradd y gwaharddiadau parhaol fesul 1,000 o ddisgyblion bum gwaith yn uwch yn achos disgyblion sydd â hawl i Brydau Ysgol am Ddim (0.5) na'r rhai sydd heb yr hawl honno (0.1). Mae'r rhai sydd â hawl i Brydau Ysgol am Ddim hefyd yn fwy tebygol o gael eu gwahardd am gyfnod penodol (81.9 fesul 1,000 am bum diwrnod neu lai a 3.9 am fwy na phum diwrnod) o gymharu â rhai heb yr hawl honno (19.9 fesul 1,000 am bum diwrnod neu lai a 0.8 am fwy na phum diwrnod). Mae'r cyfraddau gwahardd hefyd yn sylweddol uwch ymhlith disgyblion sydd â datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig, o gymharu â'r rhai sydd heb hynny.

O'r rhai â datganiad, cafodd 0.6 fesul 1,000 eu gwahardd yn barhaol yn 2015/16, o gymharu â 0.1 heb ddatganiad. Roedd cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol o bum diwrnod neu lai fesul 1,000 o ddisgyblion â datganiad yn arbennig o uchel, 112.9 o ddisgyblion, o gymharu ag 11 heb ddatganiad.

Dengys y data yn ôl ethnigrwydd mai disgyblion o gefndir ethnig gwyn oedd â'r cyfraddau uchaf o bob math o waharddiad.

Mae ymchwil newydd gan Addysg WISERD hefyd wedi dangos, er bod cyfran y myfyrwyr sy'n cael eu gwahardd yn ffurfiol o'r ysgol yn gymharol isel o gymharu â Lloegr, fod mathau anffurfiol, sy'n aml yn guddiedig, o wahardd disgyblion i'w canfod mewn ysgolion, a gall y rheiny gael effeithiau negyddol ar ddisgyblion.¹³⁸ Nid yw'n hysbys a oes arferion cymaradwy'n bodoli yn Lloegr, ond mae'n annhebygol o fod yn fater Cymru yn unig. Mae canfyddiadau ymchwil ansoddol ar sail cyfweiliadau â phenaeithiaid a gynhaliwyd gan Addysg WISERD yn awgrymu bod y gwaharddiadau mewnol hyn yn gallu amrywio o ran hyd, o ychydig funudau, i gael addysg yn barhaol mewn cyfleusterau oddi ar y safle, er eu bod yn aros ar gofrestr yr ysgol.

3.1.3 Profiadau dysgwyr o'r ysgol

Dengys data HBSC fod myfyrwyr blwyddyn 7 yn fwy tebygol o deimlo'n gadarnhaol yn yr ysgol, gyda 45 y cant o ddisgyblion yn y grŵp blwyddyn hwn yn ymateb eu bod yn hoffi'r ysgol 'llawer' o gymharu ag 16 yn unig o fyfyrwyr blynyddoedd 10 ac 11.¹³⁹ Gellir esbonio hyn yn rhannol o bosib yn ôl eu hatebion i gwestiynau am bwysau gwaith ysgol — lle roedd cyfanswm o 39 y cant yn ymateb eu bod yn teimlo o dan bwysau, o 22 y cant ym mlwyddyn 7 i 59 y cant ym mlwyddyn 11. Roedd perthynas ystadegol arwyddocaol hefyd rhwng straen a rhywedd, gyda 34 y cant o'r bechgyn a 44 y cant o'r merched yn dweud eu bod yn teimlo o dan bwysau.

Yn 2018, cynigiodd Comisiynydd Plant Cymru gyfle i ysgolion unigol fod yn rhan o Arolwg Y Ffordd Gywir i Addysg¹⁴⁰ er mwyn cynorthwyo ysgolion i archwilio i ba raddau mae disgyblion yn profi dull gweithredu seiliedig ar hawliau

¹³⁷ Llywodraeth Cymru. 2017. *Gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol o ysgolion yng Nghymru, 2015/16*. Tablau: 2015/16 Ar gael yn: <https://gov.wales/docs/statistics-and-research/permanent-fixed-term-exclusions-from-schools/?lang=en>

¹³⁸ Power, S a Taylor, C. 2018. Not in the classroom, but still on the register: Hidden forms of school exclusion. *International Journal of Inclusive Education*. Ar gael yn: <https://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/13603116.2018.1492644>

¹³⁹ Llywodraeth Cymru. 2015. *2013/14 Ymddygiad Iechyd Plant Oed Ysgol (HBSC) Cymru: canfyddiadau allweddol*. Ar gael yn: <https://gov.wales/docs/caecd/research/2015/151022-health-behaviour-school-children-2013-14-key-findings-en.pdf>

¹⁴⁰ Comisiynydd Plant Cymru. 2018. *Cyhoeddiadau*. Ar gael yn: <https://www.childcomwales.org.uk/publications/>



plant yn eu hysgol. Bu 108 o leoliadau'n cymryd rhan, a chwblhawyd yr arolwg gan dros 6000 o blant a phobl ifanc. O'r rhain, roedd ychydig o dan 5500 yn blant oed cynradd, ac ychydig dros 500 yn blant oed uwchradd.

O'u crynhoi, dywedodd 68% fod pob plentyn a pherson ifanc yn teimlo eu bod yn cael croeso yn eu hysgol. Serch hynny, amlygwyd gwahaniaeth rhwng disgyblion cynradd ac uwchradd, gyda 73% o'r ymatebwyr oed cynradd, o gymharu â 46% o'r rhai uwchradd, yn dweud bod pob plentyn a pherson ifanc yn teimlo eu bod yn cael croeso yn eu hysgol nhw.

Profiadau yn ôl rhywedd

Mae arolwg Addysg WISERD wedi bod yn casglu data ar farn a phrofiadau plant o'r ysgol yn ystod y chwe blynedd diwethaf. Mae'r arolwg yn gofyn cwestiynau'n rheolaidd i'r disgyblion ynghylch pa mor hapus ydyn nhw yn yr ysgol a'u hagweddau at eu hathrawon a'u dysgu. Mae gwahaniaethau rhywedd clir wedi dod i'r amlwg o ddadansoddi'r data: dengys y canlyniadau fod merched yn y sampl yn tueddu i fod yn fwy cadarnhaol am yr ysgol ei hun, o ran credu bod gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel a bod lefel eu perfformiad yn bwysig iddyn nhw. Fodd bynnag, ymddengys bod profiadau merched o'r ysgol yn llawer llai hapus na rhai'r bechgyn,¹⁴¹ gyda bron 25 y cant yn dweud eu bod yn teimlo'n bryderus yn yr ysgol, o gymharu ag 16.5 y cant yn unig o'r bechgyn. Mae hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu mewn ymchwil ddoethurol a wnaed gyda 901 o fyfyrwyr TGAU blwyddyn olaf ledled Cymru yn 2015.¹⁴² Canfu'r gwaith ymchwil hwn fod 16.3 y cant o'r merched yn nodi eu bod yn treulio llawer o amser yn poeni am eu TGAU, o gymharu â 6.7 y cant yn unig o'r bechgyn. Ymhellach, er mai dim ond 4.7 y cant o'r bechgyn oedd yn nodi eu bod yn cael llwyth gwaith y cymhwyster yn ormod ar brydiau, roedd hynny'n wir am 10 y cant o'r merched. Felly, er bod y data'n dangos bod merched yn tueddu i berfformio'n well na bechgyn yn yr ysgol ac yn meddu ar agwedd fwy cadarnhaol at ddysgu, mae'n bwysig nad yw profiadau merched o'r ysgol yn cael eu diystyru wrth weithio i gau'r bwlch perfformiad.¹⁴³

Profiadau Plant Sipsiwn a Theithwyr

Cafwyd hyd i ddau brosiect ymchwil ansoddol ar raddfa fach ynghylch addysg plant Sipsiwn a Theithwyr. Yn 2015, bu rheolwr Gwasanaeth Addysg Teithwyr yng Ngogledd Cymru yn gwneud gwaith ymchwil gyda phlant Sipsiwn a Theithwyr ynghylch eu profiadau o addysg. Roedd hynny'n cynnwys cyfweiliadau un i un gydag 8 o ferched ac 1 bachgen 11-16 oed oedd yn Sipsiwn/Teithwyr, yn ogystal â 7 mam a 3 athro.¹⁴⁴ Prif ganfyddiadau y gwaith ymchwil hwn oedd bod y plant a'r mamau'n teimlo bod gwrthdaro rhwng nodau addysg brif ffrwd a'r hyn oedd yn ddisgwyliedig gan blant Teithwyr a Sipsiwn yn eu cymunedau. Soniodd rhai am gael Teithwyr neu Sipsiwn eraill yn

¹⁴¹ Smith, K. 2016. *Girls may perform better at school than boys - but their experience is much less happy*. Ar gael yn: <https://wiserd.ac.uk/news/girls-may-perform-better-school-boys-their-experience-much-less-happy-0>

¹⁴² Barrance, R. 2016. The views and experiences of students on the assessment and reform of GCSEs. Traethawd doethuriaeth heb ei gyhoeddi.

¹⁴³ Smith, K. 2016. *Girls may perform better at school than boys - but their experience is much less happy*. Ar gael yn: <https://wiserd.ac.uk/news/girls-may-perform-better-school-boys-their-experience-much-less-happy-0>

¹⁴⁴ Hamilton, P. 2018. Engaging Gypsy and Traveller pupils in secondary education in Wales: tensions and dilemmas of addressing difference. *International Studies in Sociology of Education*, 27:1, 4-22, DOI: 10.1080/09620214.2017.1377100



gwneud hwyl am eu pennau oherwydd eu bod nhw'n ymwneud ag addysg, tra bod eraill yn lleisio barn nad yw addysg brif ffrwd yn briodol iddyn nhw, ac nad yw ysgolion yn ymateb i'w hanghenion. Bu prosiect pellach gan Teithio Mlaen, prosiect gan Achub y Plant, oedd yn cynnwys plant a phobl ifanc o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru, yn cynnal gwaith ymchwil ar eu barn a'u profiadau o'r ysgol rhwng 2014 a 2015.¹⁴⁵ Roedd yn cynnwys ymchwil drwy arolwg gyda 59 o bobl ifanc, ac roedd 12 arall yn y grŵp ffocws. Roedd y canfyddiadau'n gymysg, gyda rhai'n nodi eu bod yn cael cefnogaeth a dealltwriaeth da gan ddisgyblion eraill a'r athrawon, ac eraill yn awgrymu y dylai athrawon (ac athrawon cyflenwi yn arbennig) gael hyfforddiant pellach ar sut mae gweithio gyda phlant Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Profiadau plant sy'n derbyn gofal

Yn 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad a gynhyrchwyd gan Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE) ym Mhrifysgol Caerdydd ynghylch profiadau, barn, cyrhaeddiad a dyheadau addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.¹⁴⁶ Fel rhan o hyn, cynhaliwyd ymchwil ansoddol fanwl gyda phlant a phobl ifanc oedd yn derbyn gofal (PPIDG). Canfu'r gwaith ymchwil fod PPIDG yn wynebu rhwystrau niferus wrth ddysgu a chyfranogi ym mywyd yr ysgol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Newid lleoliad ac ysgol, sy'n torri ar draws eu trefn ddyddiol ac yn golygu ei bod yn anodd iddyn nhw greu a chynnal perthnasoedd cefnogol gyda gweithwyr proffesiynol, gofalwyr a'u cyfoedion.
- Gorfod mynd i gyfarfodydd niferus yn ystod oriau ysgol, a oedd yn eu barn nhw yn tynnu sylw at y ffaith eu bod nhw'n wahanol, ac yn gallu golygu eu bod yn methu cadw i fyny gyda'u gwaith yn y dosbarth.
- Diffyg cefnogaeth addysgol gan ofalwyr maeth, weithiau oherwydd cyfyngiadau ar eu gwybodaeth a'u sgiliau.
- Diffyg adnoddau addysgol, fel llyfrau a chyfarpar TG.

Roedd y cyfranogwyr yn pwysleisio bod angen dull gweithredu personol ar gyfer pob plentyn. Ymhellach, roedden nhw'n beirniadu dulliau gweithredu oedd yn dangos eu bod yn wahanol. Gwnaeth y cyfranogwyr awgrymiadau niferus, fel darparu rhaglenni cyffredinol fel Head Start a chynlluniau mentora, gan na fyddai'r rheiny'n tynnu sylw at blant oedd yn derbyn gofal, ac yn darparu cefnogaeth i bob plentyn oedd angen hynny.

¹⁴⁵ Teithio Mlaen. 2015. *Good Practice in Education Peer Research Project: Young People's Report*. Ar gael yn: <http://www.travellingahead.org.uk/wp-content/uploads/2016/05/Travelling-Ahead-Young-Peoples-Education-Research-report-Eng.pdf>

¹⁴⁶ Llywodraeth Cymru a CASCADE. 2015. *Understanding the educational experiences and opinions, attainment, achievement and aspirations of looked after children in Wales*. Ar gael yn: <https://gov.wales/docs/caecd/research/2015/151111-understanding-educational-experiences-opinions-looked-after-children-en.pdf>



Profiadau plant anabl

Ychydig iawn o ffynonellau data sydd ar gael ar brofiadau addysgol plant anabl. Amlygodd adroddiad diweddar gan Gomisiynydd Plant Cymru nad oedd awdurdodau lleol yn gwneud digon i sicrhau bod pob ysgol yn hygyrch i blant anabl, ac nad oedden nhw'n ymgynghori â phlant anabl a'u teuluoedd i'w galluogi i fod yn rhan o'r broses gynllunio ar gyfer pontio i addysg uwchradd, gyda'r canlyniad bod rhai plant yn cael eu gorfodi i fynd i ysgol wahanol i'w ffrindiau.¹⁴⁷ Canfu gwaith ymchwil pellach a gomisiynwyd gan y Comisiynydd Plant er mwyn gwerthuso'r cynllun Llysgenhadon Gwych fod plant mewn Ysgolion Arbennig weithiau'n cael anhawster rhyngweithio â disgyblion o ysgolion eraill oherwydd canfyddiad plant eraill ohonynt, a bod hynny'n cyfyngu ar eu hawydd i fynd i ddigwyddiadau allgyrsiol y tu allan i'w hysgolion.¹⁴⁸ Mae gwybodaeth gysylltiedig hefyd ar gael yn y rhan o'r adroddiad hwn sy'n ymdrin â bwlio.

3.1.4 Cyfranogiad mewn penderfyniadau addysgol

Un ffynhonnell o dystiolaeth yw gwaith ymchwil a wnaed gan Gomisiynydd Plant Cymru. Yn 2015, gofynnodd y Comisiynydd i ychydig llai na 6,000 o bobl ifanc pa mor aml byddai rhywrai'n gofyn eu barn ynghylch beth sy'n digwydd yn yr ysgol neu'r feithrinfa (yn achos y plant ifancaf).¹⁴⁹ Dengys y canlyniadau fod 78 y cant o blant 3-7 oed yn credu bod oedolion yn gwranddo amyn nhw yn eu cyd-destunau. Gofynnwyd i'r grwpiau oed hŷn, rhai 7-11 oed ac 11-18 oed, pa mor aml byddai rhywrai'n gofyn eu barn nhw yn yr ysgol, oedden nhw'n clywed canlyniad hynny, ac oedden nhw'n teimlo bod eu barn yn gwneud gwahaniaeth. Dengys y canlyniadau fod y grŵp oed iau yn tueddu i fod yn fwy cadarnhaol ar y cyfan:

- Dywedodd 30 y cant o'r plant 7-11 oed a 25 y cant o'r rhai 11-18+ fod rhywun yn aml yn gofyn eu barn yn yr ysgol.
- Mae 39 y cant o'r plant 7-11 oed a 28 y cant o'r rhai 11-18+ fel arfer yn clywed y canlyniad ar ôl ceisio eu barn.
- Teimlai 28 y cant o'r plant 7-11 oed a 21 y cant o'r rhai 11-18+ fod barn plant yn gwneud gwahaniaeth mawr yn yr ysgol.

Roedd disgyblion hŷn a gwblhaodd yr Arolwg Ymddygiad Iechyd Plant Oed Ysgol hefyd yn llai cadarnhaol ynghylch cyfleoedd cyfranogiad yn eu hysgolion.¹⁵⁰ Canfuwyd bod 50 y cant o blant yn cytuno bod syniadau'r disgyblion yn

¹⁴⁷ Comisiynydd Plant Cymru. 2018. *Bywydau Llawn: Mynediad Cyfartal. Adroddiad dilynol ar hygyrchedd ysgolion yng Nghymru i gadeiriau olwyn*. Ar gael yn: <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2018/03/Full-Lives-Equal-Access.pdf>

¹⁴⁸ Comisiynydd Plant Cymru. 2017. *Gwerthusiad Llysgenhadon Gwych*. Ar gael yn: <https://www.childcomwales.org.uk/our-schemes/primary/ambassadors-evaluation/>

¹⁴⁹ Comisiynydd Plant Cymru. 2016. *Beth Nesa? What Next? Y canfyddiadau*. Ar gael yn: <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2016/04/Overview-English-FINAL.compressed.pdf>

¹⁵⁰ Llywodraeth Cymru. 2015. *2013/14 Ymddygiad Iechyd Plant Oed Ysgol (HBSC) yng Nghymru: canfyddiadau allweddol*. Ar gael yn: <https://gov.wales/docs/caecd/research/2015/151022-health-behaviour-school-children-2013-14-key-findings-en.pdf>



cael eu trin o ddifri yn eu hysgol, ond mae hyn yn gostwng gydag oed, gyda 70 y cant o fyfyrwyr blwyddyn 7 yn cytuno â'r gosodiad hwn, o gymharu â 40 y cant yn unig o fyfyrwyr blynyddoedd 10 ac 11. Er nad oes esboniad eglur am y tueddiad hwn, efallai bod gan ddisgyblion hŷn ddisgwyliadau uwch o ran cyfranogiad na'u cymheiriaid iau, ac nad ydynt yn teimlo bod y rheiny'n cael eu cyflawni. Gall hyn hefyd fod yn ganlyniad i'r cwricwlwm dwys sy'n cael ei yrru gan gymwysterau yng Nghyfnod Allweddol 4, nad yw'n rhoi llawer o gyfle i bobl ifanc wneud penderfyniadau, yn arbennig ynghylch y dysgu a'r addysgu.

Dyweddodd 68% o'r holl ddisgyblion a ymatebodd i Arolwg y Comisiynydd Plant, Y Ffordd Gywir i Addysg, 2018¹⁵¹ eu bod yn cael cyfle i fod yn rhan o benderfyniadau yn eu hysgol. Serch hynny, roedd gwahaniaeth rhwng y disgyblion oed cynradd ac uwchradd, gan fod 72% o'r ymatebwyr cynradd, o gymharu â 42% o'r ymatebwyr uwchradd, yn dweud eu bod yn gallu bod yn rhan o benderfyniadau.

Cynghorau Ysgol

Cymru yw'r unig ran o'r Deyrnas Unedig lle mae dyletswydd statudol ar ysgolion i fod â chyngor ysgol.¹⁵² Er gwaethaf hynny, ychydig iawn o waith ymchwil a wnaed ar gynghorau ysgol yng Nghymru. Yr unig ffynhonnell ddata y cafwyd hyd iddi ar gynghorau ysgol yw Astudiaeth Aml-Garfan Addysg WISERD, a fu'n holi 809 o ddisgyblion uwchradd am eu profiad o gynghorau ysgol yn 2018. O'r rhai a ymatebodd:

- roedd 28 y cant wedi bod yn aelod o'u cyngor ysgol
- roedd 20 y cant wedi codi mater gyda chyngor
- roedd 22 y cant yn ymwybodol o unrhyw fater oedd wedi cael ei godi gan eu cyngor

Pan ofynnwyd iddyn nhw nodi'r materion a godwyd gan eu cyngor, y dewis mwyaf poblogaidd oedd y wisg ysgol, gyda chyfleusterau a bwyd yn dilyn. Fodd bynnag, yn gyffredinol, ymddangosai fod lefel uchel o ddifaterwch ynghylch y cyngor. Dewisodd 39 y cant o'r disgyblion 3 ar raddfa o 1-5, lle mae 1 yn dangos nad yw'r cyngor yn gwneud unrhyw wahaniaeth i beth sy'n digwydd yn yr ysgol, a 5 yn dangos ei fod yn gwneud gwahaniaeth mawr.

Dewis o ran y dysgu, yr addysgu a'r asesu

Er bod Comisiynydd Plant Cymru yn pwysleisio y dylai plant gael dewis ynghylch dysgu¹⁵³, cyfyngedig yw'r ffynonellau data sy'n cynnwys tystiolaeth ynghylch a yw hynny'n digwydd yng Nghymru.

¹⁵¹ Comisiynydd Plant Cymru. 2018. *Cyhoeddiadau*. Ar gael yn: <https://www.complantcymru.org.uk/cyhoeddiadau>

¹⁵² Cynulliad Cenedlaethol Cymru. 2005. *Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005*. Ar gael yn: <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2005/3200/contents/made>

¹⁵³ Comisiynydd Plant Cymru. 2017. *Y Ffordd Gywir: dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant i addysg yng Nghymru*. Ar gael yn: <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2017/05/The-Right-Way-Education.pdf>



Roedd Arolwg y Comisiynydd Plant, Y Ffordd Gywir i Addysg 2018¹⁵⁴ yn holi sut mae plant yn ymwneud â dylunio, monitro a gwerthuso'r dysgu a'r addysgu. Mae'r canlyniadau'n amlygu gwahaniaethau profiad rhwng plant cynradd ac uwchradd.

- Roedd cyfanswm o 72% o'r plant a'r bobl ifanc yn dweud eu bod yn cael cyfle i rannu eu barn am eu gwersi. Dewisodd 77% o'r plant cynradd yr opsiwn yma, o gymharu â 48% o'r rhai uwchradd.
- Dywedodd cyfanswm o 78% fod gan eu hathrawon ddi-ddordeb mewn sut maen nhw'n teimlo yn yr ysgol. Dewisodd 83% o'r plant cynradd yr opsiwn yma o gymharu â 48% o'r rhai uwchradd.
- Dywedodd cyfanswm o 54% eu bod weithiau'n cael dewis ynghylch beth maen nhw'n ei ddysgu. Dewisodd 58% o'r plant cynradd yr opsiwn yma o gymharu â 43% o'r rhai uwchradd.
- Dywedodd cyfanswm o 71% eu bod yn gallu rhannu eu barn am ddysgu. Dewisodd 76% o'r plant cynradd yr opsiwn yma o gymharu â 43% o'r rhai uwchradd.

Mae peth tystiolaeth gan blant hŷn sy'n awgrymu bod myfyrwyr Cyfnod Allweddol 4 yn teimlo rhwystredigaeth oherwydd diffyg cyfleoedd i ymgysylltu ynghylch dewisiadau a chysiau TGAU. Oddi mewn i gwmpas arolwg Addysg WISERD, holwyd y disgyblion faint o lais hoffon nhw ei gael mewn penderfyniadau ar amrywiol faterion yn yr ysgol, ar raddfa o 1-5, gydag un yn dangos nad ydynt am gael lleisio barn, a phump yn dangos eu bod am gael rhoi barn yn amlwg. Dengys y canlyniadau mai'r mater yr hoffon nhw gael lleisio barn fwyaf arno yw'r dewis o bynciau, gyda 62 y cant o'r cyfranogwyr yn dewis 4 neu 5 yma.

Mae dewis pynciau hefyd wedi cael ei godi fel mater pwysig i fyfyrwyr TGAU mewn gwaith ymchwil blaenorol a gynhaliwyd yn 2015.¹⁵⁵ Roedd y prosiect dulliau cymysg hwn yn cynnwys 10 grŵp ffocws ac arolygon gyda mwy na 1,600 o fyfyrwyr. Mae canfyddiadau llinyn ansoddol y gwaith ymchwil hwn yn awgrymu, er bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno mesurau i wella'r ystod o bynciau sydd ar gael i fyfyrwyr yn CA4¹⁵⁶, fod myfyrwyr yn dal i bryderu am eu dewisiadau ac effaith cyfyngiadau ar eu llwybr bywyd i'r dyfodol. Roedd hyn yn arbennig o wir oherwydd bod pynciau'n cael eu trefnu'n 'golofnau dewisiadau', fel mai cyfuniadau penodol o bynciau yn unig allai gael eu dewis. Awgrymodd y disgyblion a fu'n rhan o'r gwaith ymchwil y gallai ysgolion ymgynghori â'r disgyblion am y pynciau roedden nhw am eu hastudio cyn paratoi'r colofnau, er mwyn gwneud yn siŵr eu bod nhw'n gallu darparu ar gyfer dewisiadau'r rhan fwyaf o'r disgyblion. Dywedodd y myfyrwyr hefyd eu bod am gael mwy o ddewis o ran yr haenau y bydden nhw'n rhan ohonynt, oedd yn codi pryderon ynghylch y cyfleoedd cyfyngedig i ddisgyblion yn yr haen sylfaenol, oedd yn methu cyrraedd yn uwch na gradd C mewn pynciau TGAU. Teimlent hefyd y dylid ymgynghori

¹⁵⁴ Comisiynydd Plant Cymru, 2018. *Cyhoeddiadau*. Ar gael yn: <https://www.complantcymru.org.uk/cyhoeddiadau>

¹⁵⁵ Barrance, R. ac Elwood, J. (2018) Young people's views on choice and fairness through their experiences of curriculum as examination specifications at GCSE, *Oxford Review of Education*, 44:1, 19-36, DOI: 10.1080/03054985.2018.1409964

¹⁵⁶ O dan y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) (2009) rhaid i bob disgybl gael dewis o 25 o gyrisiau o leiaf, gan gynnwys 3 galwedigaethol, ar lefel CA4.



â nhw ynghylch y math o gwrs roedden nhw'n ei ddilyn, e.e. modiwlaid neu linol¹⁵⁷, gan eu fod yn teimlo bod gwahanol gyrsiau'n galluogi myfyrwyr gwahanol i gyflawni eu potensial.

Ar lefel genedlaethol, roedd y myfyrwyr yn dadlau bod diwygio asesu yn digwydd yn rhy gyflym yn y Deyrnas Unedig, ac y dylid ymgynghori â'r myfyrwyr i sicrhau bod penderfyniadau ynghylch cymwysterau'n cael eu gwnes er eu lles pennaf.¹⁵⁸ Roedd pryderon bod cymwysterau'n cael eu newid am resymau gwleidyddol, a chanfyddiad ymhlith rhai cyfranogwyr bod myfyrwyr oedd yn astudio ar gyfer cymwysterau newydd yn destun arbrofi, a bod hynny'n arwain at ganlyniadau i'w cyfleoedd bywyd i'r dyfodol os oedd y newidiadau'n effeithio ar eu cyrhaeddiad.¹⁵⁹

3.1.5 Gwybodaeth a dealltwriaeth o'u hawliau

All plant ddim mynnu cael eu hawliau os nad ydyn nhw'n gwybod bod hawliau ganddyn nhw, felly mae'n bwysig bod plant yn ymwybodol o'r hawliau sydd ganddyn nhw. Yn 2016, bu arolwg gan Lywodraeth Cymru yn holi plant ynghylch eu gwybodaeth am hawliau plant, a chanfod bod 41 y cant o'r bobl ifanc yn y sampl ddim yn gwybod am hawliau plant, a bod 77 y cant arall heb glywed am CCUHP.¹⁶⁰

Yn 2018, holodd Arolwg Comisiynydd Plant Cymru, Y Ffordd Gywir i Addysg¹⁶¹ a oedd disgyblion wedi clywed am hawliau plant: roedd 77% a atebodd yr arolwg cynradd a 67% a atebodd yr arolwg uwchradd wedi clywed am hawliau plant.

Gofynnodd yr un arolwg i blant a phobl ifanc pwy oedd yn gyfrifol am sicrhau eu bod nhw'n cael eu hawliau: dewisodd 60% ddweud mai oedolion sy'n gyfrifol, dewisodd 35% mai nhw fel unigolion sy'n gyfrifol, a dewisodd 5% o'r ymatebwyr mai plant eraill oedd yn gyfrifol. Roedd yr ymatebwyr uwchradd yn llai tebygol o feddwl mai oedolion sy'n gyfrifol am gynnal hawliau plant, gan mai 51% o'r bobl ifanc oed uwchradd ddewisodd ddweud mai oedolion oedd yn gyfrifol, o gymharu â 61% o'r plant oed cynradd.

3.1.6 Pobl ifanc 16-18 oed sydd heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant

Mae cyfran y bobl ifanc 16-18 oed sydd heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) wedi gostwng yn raddol ers 2011, lle dangosodd ystadegau diwedd y flwyddyn ei fod yn 12.2 y cant, o gymharu â 9.5 y cant ddiwedd

¹⁵⁷ Mae cyrsiau modiwlaid yn galluogi'r myfyrwyr i wasgaru'r arholiadau a'r asesiadau rheoledig ar draws y cwrs dwy flynedd, ond yn y cyrsiau llinol rhaid i'r holl asesu ddigwydd trwy arholiadau ar ddiwedd y ddwy flynedd.

¹⁵⁸ Barrance, R. ac Elwood, J. (2018) National assessment policy reform 14–16 and its consequences for young people: student views and experiences of GCSE reform in Northern Ireland and Wales, *Assessment in Education: Principles, Policy & Practice*, 25:3, 252-271, DOI: 10.1080/0969594X.2017.1410465

¹⁵⁹ Dylid nodi bod rheoleiddwyr arholiadau yn y Deyrnas Unedig yn defnyddio strategaeth o'r enw 'canlyniadau cymaradwy' i leiafu gostyngiadau sydyn ar ôl cyflwyno cymwysterau newydd.

¹⁶⁰ Comisiynydd Plant Cymru. 2017. *Y Ffordd Gywir: Dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant i addysg yng Nghymru*. Ar gael yn: <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2017/05/The-Right-Way-Education.pdf>

¹⁶¹ Comisiynydd Plant Cymru. 2018. *Cyhoeddiadau*. Ar gael yn: <https://www.complantcymru.org.uk/cyhoeddiadau>



2017.¹⁶² Nid oes data cymaradwy ar gael ar gyfer Lloegr oherwydd i ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno yn 2013/14 oedd yn codi oed gorfodol cyfranogiad mewn addysg neu hyfforddiant i 18 yn Lloegr.

3.2. Hamdden, celfyddydau a chwarae


- Dengys ymatebion y disgyblion i arolwg Addysg WISERD fod y bechgyn yn y sampl yn fwy tebygol o fod yn gorfforol actif, tra bod y merched yn chwarae mwy o ran yn y celfyddydau a gweithgareddau diwylliannol.
- Roedd y plant yn yr astudiaeth oedd yn gymwys i dderbyn Prydau Ysgol am Ddim yn llai tebygol o chwarae offerynnau a chymryd rhan mewn ymarfer corff oedd ddim yn gystadleuol y tu allan i'r ysgol.
- Nododd Cyngor Celfyddydau Cymru fod perthynas rhwng mynychu'r celfyddydau a Phrydau Ysgol am Ddim yn eu sampl nhw.
- Roedd gwaith ymchwil gyda phlant anabl yn awgrymu bod hygyrchedd yn rhwystr i weithgareddau chwarae a hamdden.

3.2.1 Gweithgareddau allgyrsiol

Yn arolwg Addysg WISERD 2017, holwyd y plant pa weithgareddau allgyrsiol roedden nhw wedi cymryd rhan ynddynt yn yr ysgol a'r tu allan iddi. Cyflwynir y canlyniadau yn y siart isod:

¹⁶²Ystadegau i Gymru. 2018. *Young people not in education, employment or training (NEET) Year to 31 March 2018*. Ar gael yn: <https://gov.wales/docs/statistics/2018/180726-young-people-not-education-employment-training-year-to-31-march-2018-en.pdf>





Dengys y data fod rhai gweithgareddau'n fwy poblogaidd mewn ysgolion, er enghraifft corau, tra bod chwaraeon ac ymarfer corff oedd ddim yn gystadleuol, fel mynd i'r gampfa neu yoga, yn fwy poblogaidd y tu allan i'r ysgol. Mae rhai gwahaniaethau rhwng ymatebion y plant yn ôl rhywedd ac a ydynt yn gymwys i dderbyn Prydau Ysgol am Ddim.

Roedd bechgyn yn **fwy** tebygol o:

- Gymryd rhan mewn chwaraeon yn yr ysgol a'r tu allan.

Roedd merched yn **fwy** tebygol o:

- Gymryd rhan mewn dawns neu ddrama, yn arbennig y tu allan i'r ysgol.
- Chwarae offeryn cerdd neu fod mewn côr, y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol.
- Godi arian at elusen, y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol.
- Gymryd rhan mewn ymarfer corff oedd ddim yn gystadleuol, fel yoga neu fynd i'r gampfa.


Roedd plant oedd yn gymwys i dderbyn Prydau Ysgol am Ddim yn **llai** tebygol o:

- Gymryd rhan mewn chwaraeon, yn arbennig yn yr ysgol.



- Chwarae offeryn cerdd, yn arbennig y tu allan i'r ysgol.
- Gymryd rhan mewn ymarfer corff oedd ddim yn gystadleuol, e.e. yoga neu gampfa, yn arbennig y tu allan i'r ysgol.

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr hefyd a oedd gweithgareddau pellach yr hoffon nhw fod yn rhan ohonynt, a pham. Mae'r ymatebion i'w gweld yn Ffigur 2 isod:



Amser oedd y rhwystr pwysicaf i gyfranogiad plant, a allai fod o ganlyniad i gymryd rhan mewn digon o weithgareddau eraill yn barod, neu yng Nghyfnod Allweddol 4 yn arbennig, gwaith ysgol.

3.2.2 Mynediad i'r celfyddydau

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi cynnal cyfweiliadau gyda 1,000 o blant a phobl ifanc 7-18 yn flynyddol ers 2011.¹⁶³ Dengys y canlyniadau fod cyfran yr ymatebwyr a soniodd am fynychu digwyddiadau yn 2017 yn troi o gwmpas y naw math canlynol o gelfyddydau, ac wedi codi 3.6 y cant i 86.5 y cant:

- dramâu
- sioeau cerdd

¹⁶³ Cyngor Celfyddydau Cymru. 2017. *Arolwg Omnibws Plant*. Ar gael yn: <http://www.arts.wales/research/annual-surveys/childrens-omnibus-survey>



- opera
- cerddoriaeth glasurol
- cerddoriaeth fyw arall
- perfformiadau dawn
- orielau neu arddangosfeydd celf a chrefft
- darlenniadau, adrodd storïau a digwyddiadau llenyddol eraill
- carnifalau a chelfyddydau stryd

Mae plant iau yn mynd i fwy o ddigwyddiadau na'r rhai hŷn, a hefyd mae merched yn fwy tebygol o fynychu. Mae perthynas yn parhau rhwng cefndir sosio-economaidd a mynychu'r celfyddydau, gyda rhai o gefndir llai difreintiedig yn fwy tebygol o fynychu, er bod y bwllch bron wedi haneru ers 2016, o 9.4 y cant i 5.2. Ymhellach, mae'r bwllch rhwng y rhai sy'n cyfranogi yn y celfyddydau wedi lleihau ers 2016, ac mae bellach yn 2 y cant yn unig. At ei gilydd, mae cyfranogiad yn y celfyddydau yn uchel, gyda mwyafrif y disgyblion (87.4 y cant) yn dweud eu bod wedi cyfranogi y flwyddyn honno.

Cynhyrnod Comisiynydd Plant Cymru adroddiad yn 2018 yn dilyn ymlaen o'r ymatebion oedd yn berthnasol i Erthygl 31 o arolwg Beth Nesa, a gynhaliwyd yn 2015 gydag ychydig o dan 6,000 o blant a phobl ifanc.¹⁶⁴ Canfu'r adroddiad fod plant a phobl ifanc yn ymgysylltu ag amrywiaeth o weithgareddau chwarae, chwaraeon, celfyddydau a diwylliannol. Roedd 96 y cant o'r plant yn yr arolwg wedi ymweld ag amgueddfa, castell neu safle hanesyddol arall, profiadau oedd yn aml yn cael eu darparu trwy'r ysgol.¹⁶⁵

3.2.3 Chwarae

Mae Cymru wedi bod ar y blaen yn hybu hawl plant i chwarae, a hi yw'r rhanbarth cyntaf yn y Deyrnas Unedig i osod dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol i gyflawni dyletswyddau ynghylch darparu cyfleusterau chwarae. Mae Comisiynydd Plant Cymru wedi cyhoeddi dau adroddiad gyda data ar farn a phrofiadau plant ynghylch chwarae. Mae'r cyntaf wedi'i seilio ar ganlyniadau ymgynghoriad Beth Nesa,¹⁶⁶ a ganfu mai mannau i chwarae oedd un o'r prif flaenoriaethau i blant rhwng 3 a 7 oed. Bu adroddiad dilynol ar sail barn a phrofiadau 450 o bobl ifanc ynghylch eu mynediad i chwarae, y celfyddydau, treftadaeth a chyfleusterau hamdden yn archwilio hyn ymhellach yn 2018 trwy gyfres o weithdai gyda gwahanol grwpiau.¹⁶⁷ Canfu'r gwaith ymchwil fod plant yn dweud, er eu bod yn gwerthfawrogi rhai mannau i chwarae yn yr awyr agored, eu bod yn teimlo mai lleoedd cyfyngedig

¹⁶⁴ Comisiynydd Plant Cymru. 2016. *Beth Nesa? What Next? Y canfyddiadau*. Ar gael yn: <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2016/04/Overview-English-FINAL.compressed.pdf>

¹⁶⁵ Comisiynydd Plant Cymru. 2018. *Adroddiad sbotolau: Erthygl 31*. Ar gael yn: <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2018/04/Play-FINAL.pdf>

¹⁶⁶ Comisiynydd Plant Cymru. 2016. *Beth Nesa? What Next? Y canfyddiadau*. Ar gael yn: <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2016/04/Overview-English-FINAL.compressed.pdf>

¹⁶⁷ Comisiynydd Plant Cymru. 2018. *Adroddiad sbotolau: Erthygl 31*. Ar gael yn: <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2018/04/Play-FINAL.pdf>



oedd ganddynt i chwarae a threulio eu hamser hamdden oedd yn ddiogel ac yn addas at eu hanghenion. Yn arbennig, nododd plant anabl mai prin oedd y manau hygyrch y tu allan i'r ysgol lle gallen nhw chwarae a threulio amser hamdden.

3.2.4 Amser sgrîn

Mae Astudiaeth Carfan y Mileniwm (MCMS) yn ffynhonnell arall o ddata ynghylch sut mae plant yn defnyddio'u hamser hamdden. Astudiaeth garfan yw MCMS sydd wedi bod yn olrhain hynt plant ar draws y Deyrnas Unedig ers iddyn nhw gael eu geni yn y flwyddyn 2000. Pan oedden nhw'n 14 oed, casglwyd data am ddefnydd plant o amser. Mae hyn yn cynnwys data ar faint o amser sy'n cael ei dreulio yn defnyddio cyfrifiaduron neu'n gwyllo'r teledu. Dengys y data fod aelodau'r garfan yn treulio cryn dipyn o'u hamser hamdden yn defnyddio sgriniau. Soniodd dros 44 y cant o aelodau'r garfan am wyllo'r teledu neu fideos ar y cyfrifiadur am fwy na thair awr yn ystod diwrnodau'r wythnos. Soniodd ychydig o dan 1 o bob 10 am wneud hynny am fwy na saith awr. Soniodd mwyafrif y cyfranogwyr hefyd eu bod yn defnyddio'r rhyngwrwd gartref am fwy na 3 awr y dydd, gydag ychydig dros 1 o bob 5 yn ei ddefnyddio am fwy na 7 awr. Fel y nodwyd yn gynharach yn adran 2.2.9, ymddengys bod y defnydd o gyfryngau cymdeithasol yn cael effaith ar batrymau cysgu plant, gan fod dros 1 o bob 5 ohonynt yn nodi eu bod yn bron bob amser yn deffro yn ystod y nos i wirio'r cyfryngau cymdeithasol, a'r disgyblion hynny wedyn yn nodi lefelau blinder uwch y diwrnod canlynol.¹⁶⁸

¹⁶⁸ Power, S., Taylor, C. a Horton, K. (2017) Sleepless in school? The social dimensions of young people's bedtime rest and routines, *Journal of Youth Studies*, 20:8, 945-958, DOI: [10.1080/13676261.2016.1273522](https://doi.org/10.1080/13676261.2016.1273522)



4. Amgylchedd y teulu a gofal amgen

Canfyddiadau allweddol

- Ym mis Mawrth 2017 roedd angen gofal a chymorth ar 15,930 o blant.
- Roedd 2,135 o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ac roedd tua 5,780 yn derbyn gofal ym mis Mawrth 2017.
- Roedd 10 y cant o'r plant oedd yn derbyn gofal wedi cael tri lleoliad neu fwy yn 2016/17.
- Cymru yw'r unig wlad yn y Deyrnas Unedig sydd ddim yn darparu data ynghylch cyfran y plant sydd ar gofrestrau neu gynlluniau amddiffyn plant am fwy na 2 flynedd. Mae nifer o ganlyniadau iechyd a llesiant negyddol yn gysylltiedig â phlant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys lefel isel o foddhad mewn bywyd a pherthynas wael gydag athrawon a ffrindiau.

Plant sydd angen Gofal a Chymorth

Rhwng 2010 a 2016, cyhoeddodd Stats Wales ganlyniadau eu cyfrifiad Plant mewn Angen, oedd yn cynnwys manylion niferoedd y plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sydd ar y gofrestr amddiffyn plant yn ôl nifer o wahanol newidynnau, gan gynnwys cyrhaeddiad addysgol, presenoldeb yn yr ysgol a iechyd. Ers 2017, maen nhw wedi cyhoeddi'r Cyfrifiad o Blant sy'n derbyn Gofal a Chymorth yn lle hynny (CRCS).¹⁶⁹ Mae'r rhai yn y dosbarth sydd angen gofal a chymorth yn cynnwys plant â salwch neu anabledd, plant ar y gofrestr amddiffyn plant a phlant sy'n derbyn gofal gan eu hawdurdod lleol.

Ym mis Mawrth 2017, roedd angen gofal a chymorth ar 15,930 o blant.¹⁷⁰ O'r rhain:

- Roedd 2,135 ar y Gofrestr Amddiffyn Plant (13.4 y cant).
- Roedd 5,780 yn derbyn gofal (36.3 y cant).¹⁷¹
- Roedd dros hanner (53 y cant) yn derbyn gofal oherwydd cam-drin neu esgeuluso, neu berygl hynny.
- Cofnodwyd bod gan 7 y cant broblemau iechyd meddwl.
- Roedd gan 4 y cant broblemau camddefnyddio sylweddau.

¹⁶⁹ Llywodraeth Cymru. 2018. *Cyfrifiad o'r Plant yng Nghymru sy'n derbyn Gofal a Chymorth, 2017 (Ystadegau Arbrofol)*. Ar gael yn: <https://gov.wales/docs/statistics/2018/180319-wales-children-receiving-care-support-census-2017-en.pdf>

¹⁷⁰ Ibid.

¹⁷¹ Mae amcan y cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal yn cynnig rhif fymryn yn uwch, sef 5,954. Gweler: Llywodraeth Cymru. 2017. *Ystadegau Arbrofol: Plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol, 2016-17*. Ar gael yn:

<https://gov.wales/docs/statistics/2017/171214-children-looked-after-local-authorities-2016-17-en.pdf>



Mae'r CRCS hefyd yn darparu data ynghylch a yw plant sy'n cael gofal a chymorth wedi cael y profion cyffredinol a iechyd deintyddol diweddaraf, yn ogystal â chael eu himiwneiddio. O'r rhain:

- roedd 80 y cant o'r plant 5 oed a than hynny wedi cael eu profion iechyd diweddaraf
- roedd 77 y cant o'r plant 5 oed a throsodd wedi cael eu profion deintyddol diweddaraf
- roedd 84 y cant o blant wedi cael eu brechiadau imiwneiddio diweddaraf.

Mae Ystadegau i Gymru hefyd yn cyhoeddi ystadegau mwy manwl ynghylch plant sy'n derbyn gofal.¹⁷² Dengys data 2016/17 fod cynnydd o 5 y cant yng nghyfran y plant oedd yn derbyn gofal yn ystod y flwyddyn yn diweddar ar 31 Mawrth 2017.¹⁷³ O'r rhai oedd wedi dechrau derbyn gofal yn 2016-17, cam-drin neu esgeuluso oedd yn gyfrifol am hynny yn achos 62 y cant ohonynt. Mae hyn wedi cynyddu ers 2003, pan oedd y gyfran oedd yn dechrau derbyn gofal am un o'r rhesymau hynny yn 48 y cant.

Gwelwyd gostyngiad o 8 y cant yng nghyfran y plant a fabwysiadwyd o ofal.¹⁷⁴ Roedd 10 y cant o'r plant wedi cael 3 lleoliad neu fwy yn ystod 2016-17. Roedd 6.3 y cant o'r plant a ychwanegwyd at y Gofrestr Amddiffyn Plant ar gyfer y flwyddyn hon yn cael eu rhoi yn ôl ar y gofrestr, fel y nodwyd gan yr NSPCC.¹⁷⁵ Yn wahanol i weddill y Deyrnas Unedig, nid oes data ynghylch pa gyfran o blant sydd ar gynlluniau neu gofrestrau amddiffyn plant am fwy na dwy flynedd.

Mae tua 1.5 gwaith cynifer o blant mewn gofal yng Nghymru ag sydd yn Lloegr.¹⁷⁶ Yng Nghymru, fel yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig, mae'r plant hyn yn llawer mwy tebygol o ddod o gymunedau difreintiedig. Mae plant 16 gwaith yn fwy tebygol o fod mewn gofal os ydyn nhw'n dod o'r 10 y cant mwyaf difreintiedig o'r ardaloedd LSOA yng Nghymru nag os ydynt yn dod o'r 10 y cant lleiaf difreintiedig.¹⁷⁷ Mae graddfa gymdeithasol yn holl wledydd y Deyrnas Unedig, ac mae cyfradd y plant sydd mewn gofal yn cynyddu'n gyson gyda phob lefel gynyddol o amddifadedd. Yng Nghymru y gwelir yr ongl fwyaf serth i'r raddfa gymdeithasol hon o blith holl wledydd y Deyrnas

¹⁷² Llywodraeth Cymru. 2017. *Ystadegau Arbrofol: Plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol, 2016-17*. Ar gael yn: <https://gov.wales/docs/statistics/2017/171214-children-looked-after-local-authorities-2016-17-en.pdf>

¹⁷³ Ibid.

¹⁷⁴ Ibid.

¹⁷⁵ Mae data ynghylch hyn ar gael ar gyfer pob un o'r pedair gwlad, ond ni ellir cymharu data Cymru ar gyfer 2016/17 oherwydd y ffyrdd gwahanol o'i adrodd. I gael rhagor o wybodaeth, gweler: National Society for the Prevention of Cruelty to Children. 2018. *How safe are our children? 2018*. Ar gael yn: <https://www.nspcc.org.uk/globalassets/documents/research-reports/how-safe-children-2018-report.pdf>

¹⁷⁶ Elliott, M. 2017. *Looked-after children in Wales: An analysis of the backgrounds of children entering public care*. Traethawd PhD, Prifysgol Caerdydd. Ar gael yn: https://orca.cf.ac.uk/110473/2/Thesis_FINAL_Martin%20Elliott_MASTER.pdf

¹⁷⁷ Elliott, M. a Scourfield, J. 2017. *Identifying and understanding inequalities in child welfare intervention rates*. Adroddiad Prosiect. Prifysgol Coventry, Prosiect Anghydraddoldebau Lles Plant. Ar gael yn: <http://www.coventry.ac.uk/research/research-directories/current-projects/2014/child-welfare-inequality-uk/cwip-project-outputs/>



Unedig.¹⁷⁸ Mewn geiriau eraill, mae'r gwahaniaeth o ran tebygolrwydd bod yn blentyn 'sy'n derbyn gofal' rhwng y cymunedau mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig yn fwy yng Nghymru nag yng ngweddill y Deyrnas Unedig.

Maethu Preifat

Mae trefniant maethu preifat yn cael ei greu pan fydd plentyn o dan 16 (o dan 18 os yw'n anabl) yn derbyn gofal gan oedolyn nad yw'n berthynas, o dan drefniant preifat rhwng rhiant a gofalwr sy'n parhau am 28 diwrnod neu fwy. Fodd bynnag, mae cyfrifoldeb ar Awdurdodau Lleol i asesu addasrwydd y lleoliad ac ymweld â'r plentyn ar adegau penodedig. Adroddwyd am 44 o drefniadau maethu preifat newydd yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017, o gymharu â 41 yn y cyfnod blaenorol.¹⁷⁹ Mae'n debygol bod y ffigurau hyn yn rhy isel i fod yn gynrychioliadol, oherwydd na chafwyd adrodd digonol gan rieni, gofalwyr a pharfïon eraill perthnasol.¹⁸⁰

Pobl ifanc 16 oed a throsodd sy'n gadael gofal

Gadawodd 677 o bobl ifanc 16 oed a throsodd ofal rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017, ac o'r rheiny:¹⁸¹

- roedd 509 (75 y cant) o'r rhai oedd yn gadael gofal yn 18 oed a throsodd
- symudodd 29 y cant o'r bobl ifanc oedd yn gadael gofal i drefniadau byw'n annibynnol, ac nid oeddent yn derbyn gofal bellach
- dychwelodd 21 y cant adref i fyw gyda rhieni, perthnasau neu rywun arall â chyfrifoldeb rhiant
- cafodd 4 y cant eu dedfrydu i'r ddalfa
- cofnodwyd bod ychydig dan 10 y cant mewn llety anaddas

Profiadau plant a phobl ifanc oedd â phrofiad o ofal

Cynhaliwyd peilot o arolwg 'Dy Fywyd Di, Dy Ofal Di'¹⁸² gyda phlant a phobl ifanc mewn 6 Awdurdod Lleol yng Nghymru yn ystod 2017 a 2018. Mae adroddiad trosolwg ynghylch y peilot ar fin cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru, ac mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi adrodd am brofiadau a dyheadau addysgol plant, fel y trafodwyd yn adran 3.1.3. Yn flaenorol, fodd bynnag, ni fu fawr ddim ymchwil ansoddol ar brofiadau plant mewn gofal.

Hefyd mae nifer o brosiectau cenedlaethol ar raddfa fach wedi cael eu cwblhau gan Gomisiynydd Plant Cymru, gan geisio barn a phrofiadau plant oedd angen gofal a chymorth (gan gynnwys plant oedd yn derbyn gofal) ac ymadawyr gofal.

¹⁷⁸ Bywaters, P., Scourfield, J., Jones, C., Elliott, E., Hooper, J., McCartan, C., Shapira, M., Bunting, L., Daniel, B. (i ddod, 2018) Child welfare inequalities in the four nations of the UK, *Journal of Social Work*.

¹⁷⁹ Ystadegau Cymru, 2017. *Ystadegau Arbrolfod: Maethu preifat yng Nghymru, 2016-17*. Ar gael yn: <https://gov.wales/docs/statistics/2017/171128-private-fostering-2016-17-en.pdf>

¹⁸⁰ Ibid.

¹⁸¹ Llywodraeth Cymru. 2017. *Ystadegau Arbrolfod: Plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol, 2016-17*. Ar gael yn: <https://gov.wales/docs/statistics/2017/171214-children-looked-after-local-authorities-2016-17-en.pdf>

¹⁸² Mae'r arolwg yn rhan o raglen Bright Spots. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: <http://www.bristol.ac.uk/sps/research/projects/current/brightspots/>



Yn 2015, cyhoeddodd y Comisiynydd Plant *Y Gofal Cywir: Hawliau Plant mewn Gofal Preswyl*, adroddiad ar brofiadau pobl ifanc mewn gofal, a lywiwyd gan 20 cyfweiliad lled-strwythuredig a grŵp ffocws oedd yn cynnwys 14 o bobl ifanc.¹⁸³ Mynegodd llawer o bobl ifanc farn gadarnhaol am fyw mewn gofal preswyl, pan holwyd sut brofiad oedd hynny a sut roedd yn cymharu â manau eraill lle buon nhw'n byw. Buon nhw'n trafod eu diffyg dewis o ran mynd i fyw mewn gofal preswyl, ond roedden nhw'n nodi bod pobl ifanc, ar y cyfan, yn cael eu cynnwys gryn dipyn mewn penderfyniadau ynghylch eu hamgylchedd o ddydd i ddydd.

Mynegodd pobl ifanc yn yr adroddiad hwn fodlonrwydd ynghylch amodau byw a chyfluoedd ar gyfer gweithgareddau. Roedd eu profiadau o addysg yn gymysg, gyda rhai pobl ifanc yn ymgysylltu'n dda ag addysg am y tro cyntaf ers blynyddoedd. O ran diogelwch, dywedodd y bobl ifanc eu bod nhw'n teimlo'n ddiogel, er bod gan rai bryderon am eraill yn y cartref yn ogystal ag ymarfer cyson o ran pa ddigwyddiadau fyddai'n sbarduno ymateb gan yr heddlu. Ochr yn ochr â hynny, roedd perthnasoedd yn cael eu hystyried yn allweddol, yn arbennig eu perthynas gyda'r staff gofal yn eu cartrefi.

Cafodd adroddiad *Fy Mywyd i yw e* hefyd ei gyhoeddi yn 2015 gan y Comisiynydd Plant, yn dilyn ymlaen o adroddiad 2011 *Ar Goll ar ôl Gofal*.¹⁸⁴ Roedd yr adroddiad hwn yn amlygu pryderon pobl ifanc wrth baratoi i adael gofal ac yn cyflwyno argymhellion o ran sut gallai cynghorau lleol wella'r broses bontio i blant. Gofynnodd ymchwil 2015 i 43 o bobl ifanc oedd mewn gofal maeth, gofal preswyl, neu oedd wedi gadael gofal, am eu profiadau, a'r materion roedden nhw'n eu hwynebu yn eu bywydau.¹⁸⁵ Mynegodd llawer o'r bobl ifanc rwystredigaeth oherwydd eu bod yn teimlo nad oedd gweithwyr proffesiynol yn gwrandao arnyn nhw, a'u bod nhw ddim chwaith yn cael digon o gyfle i fod yn ran o benderfyniadau am eu dyfodol. Nododd pobl ifanc ddiffyg rhywle addas i fyw hefyd fel rhwystr, wrth iddyn nhw gynllunio'r pontio i adael gofal.

Yn 2016 cynhaliodd y Comisiynydd brosiect pellach gydag ymadawyr gofal, y tro hwn yn siarad â mwy na 100 o bobl ifanc o bob rhan o Gymru — *Breuddwydion Cudd*. Roedd rhai o'r profiadau a'r materion a godwyd yn adroddiad 2015 yn dal yn berthnasol, gan gynnwys tai a theimlo eu bod nhw ddim yn cael gwrandawriad.¹⁸⁶ Soniodd y bobl ifanc am fod angen help ar ôl cyrraedd 21 oed, materion iechyd meddwl, a bod angen cymorth ariannol.¹⁸⁷

Ffynhonnell arall o wybodaeth ynghylch profiadau plant sy'n derbyn gofal yw Arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr 2015/16, oedd yn cynnwys sampl cynrychioliadol o 28,838 o fyfyrwyr ledled Cymru. Mae'n dangos bod plant sy'n

¹⁸³ Comisiynydd Plant Cymru. 2015. *Y Gofal Cywir: Hawliau Plant mewn Gofal Preswyl yng Nghymru*. Ar gael yn: <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2016/06/The-right-care.pdf>

¹⁸⁴ Comisiynydd Plant Cymru. 2011. *Ar goll ar ôl Gofal*. Ar gael yn: https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2016/04/lost-after-care-2013_eng.pdf

¹⁸⁵ Comisiynydd Plant Cymru. 2015. *Fy Mywyd i yw e*. Ar gael yn: <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2016/04/Its-my-life-web.pdf>

¹⁸⁶ Comisiynydd Plant Cymru. 2016. *Breuddwydion Cudd*. Ar gael yn: <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2017/02/Hidden-Ambitions.pdf>

¹⁸⁷ Ibid.



derbyn gofal yn wynebu nifer o heriau i'w hiechyd a'u llesiant. Mae canfyddiadau'r arolwg hwn yn dangos bod plant 11-16 oed sy'n derbyn gofal yn fwy tebygol o sŏn am y canlynol¹⁸⁸:

- Lefel isel o foddhad mewn bywyd
- Profi trais wrth fynd allan gyda rhywun ar ddêd
- Perthynas wael gydag athrawon
- Methu dibynnu ar ffrindiau
- Cael eu bwlio
- Smygu'n wythnosol
- Defnyddio cannabis yn ddiweddar
- Bod wedi defnyddio Mephedrone erioed

¹⁸⁸ Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion. 2017. *Wellbeing in young people in foster care in Wales*. Ar gael yn: http://www.shrn.org.uk/wp-content/uploads/2017/03/Long_LAC_English.pdf



5. Trais, cam-drin ac esgeuluso

Canfyddiadau allweddol

- Bu cynnydd mawr yn yr achosion o gam-drin ac esgeuluso a gofnodwyd yn ystod y degawd diwethaf, ond credir bod hynny'n cael ei achosi gan well gweithdrefnau adrodd ac ymwybyddiaeth gyhoeddus.
- Mae cyfradd gyfartalog llofruddiaethau plant yn ystod y cyfnod oedd yn dod i ben yn 2016/17 wedi codi rhywfaint i 4.8 fesul miliwn o blant.
- Cofnodwyd 2,845 o droseddau rhywiol yn erbyn plant o dan 16 oed yn 2016/17. Mae hon yn gyfradd o 51.1 o droseddau rhywiol fesul 10,000 o blant o dan 16 oed, sef y gyfradd uchaf ar draws pedair gwlad y Deyrnas Unedig yn y flwyddyn hon.¹⁸⁹
- Cofnodwyd 426 o droseddau creulondeb ac esgeuluso yng Nghymru yn 2016/2017, cyfradd o 7.6 trosedd fesul 10,000 o blant o dan 16 oed.
- Dywedodd 18.6 y cant o ymatebwyr 11-17 oed arolwg Cymru eu bod wedi dioddef camdriniaeth ddifrifol o ryw fath.

Gan nad yw cyfiawnder troseddol yn faes sydd wedi'i ddatganoli, mae'r data Cymru'n unig ynghylch nifer y plant sy'n ddiodefwyr troseddau yn gyfyngedig. Fodd bynnag, mae Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr yn rhoi amcangyfrif o'r plant a fu'n ddiodefwyr troseddau ar draws y ddwy wlad. Ar sail yr amcangyfrifon hyn, cyflawnwyd tua 660,000 o droseddau yn erbyn plant yn 2017, sy'n golygu bod tua 11 o bob 100 o blant 10-15 oed wedi dioddef trosedd yn eu herbyn yn ystod y cyfnod hwn.¹⁹⁰ Roedd ychydig dan hanner y troseddau hyn yn dreisgar (46 y cant), y mwyafrif ohonynt yn syrthio i'r dosbarth trais lefel isel, ac roedd y gweddill yn achosion o ddwyn eiddo personol (39 y cant), difrod troseddol i eiddo personol (8 y cant) a lladrad (7 y cant).

Mae'r NSPCC wedi datblygu cyfres o ddangosyddion er mwyn mesur hyd a lled cam-drin ac esgeuluso plant yn y Deyrnas Unedig (ceir rhestr lawn yn Atodiad 1).¹⁹¹ Mae'r mesurau hyn wedi'u seilio ar ystadegau cenedlaethol swyddogol, data arolygon a data a recordiwyd gan ChildLine a'r NSPCC. Yn 2018, cyhoeddodd adroddiad cynhwysfawr ar sail y dangosyddion hyn, yn cymharu perfformiad pob rhanbarth yn y Deyrnas Unedig o ran y dangosyddion hynny yn 2016/2017.

¹⁸⁹ National Society for the Prevention of Cruelty to Children. 2018. *How safe are our children? 2018*. Ar gael yn: <https://www.nspcc.org.uk/globalassets/documents/research-reports/how-safe-children-2018-report.pdf>

¹⁹⁰ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). 2018. *Crime Survey of England and Wales*. Ar gael yn: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/crimeinenglandandwales/yearendingdecember2017>

¹⁹¹ National Society for the Prevention of Cruelty to Children. 2018. *How safe are our children? 2018*. Ar gael yn: <https://www.nspcc.org.uk/globalassets/documents/research-reports/how-safe-children-2018-report.pdf>



Dengys yr adroddiad mai cyfradd gyfartalog llofruddiaethau plant yng Nghymru, dros gyfnod o bum mlynedd, yw 4.8 fesul miliwn o blant. Cofnodwyd 3 o lofruddiaethau plant yng Nghymru yn y flwyddyn ddiweddaraf dan sylw, 2016/17. Cyfradd flynyddol llofruddiaethau plant ar gyfartaledd yn ystod y cyfnod o 2012/13 i 2016/17 oedd:

- 5.9 fesul miliwn o blant o dan 18 yn Lloegr
- 4.8 fesul miliwn o blant yng Nghymru
- 1.8 fesul miliwn o blant yng Ngogledd Iwerddon
- 4.1 fesul miliwn o blant yn yr Alban

Cynhaliwyd arolwg mawr diwethaf yr NSPCC yn uniongyrchol gyda phlant o dan 16 oed yn 2009, ac fe'i cyhoeddwyd yn 2011.¹⁹² Roedd yn cynnwys cyfweiliadau gyda mwy na 4,000 o bobl ifanc ynghylch profiadau o gam-drin ac esgeuluso, ac yn awgrymu bod 18.6 y cant o blant 11-17 oed yn y Deyrnas Unedig wedi dioddef rhyw fath o gamdriniaeth ddifrifol. Mae tystiolaeth bellach ar gael yn Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr, a ofynnodd i oedolion 16-59 oed yn 2016 a oedd oedolyn wedi eu cam-drin yn seicolegol, yn gorfforol neu'n rhywiol, neu wedi ymosod arny'n nhw cyn eu bod nhw'n 16 oed, neu a oedden nhw wedi bod yn dyst i gam-drin domestig.¹⁹³ Mae'r data a ddarparwyd ar gyfer pobl ifanc 16-24 oed yn awgrymu bod 13.8 y cant wedi dioddef rhyw fath o gam-drin, gan gynnwys 3.8 y cant a ddywedodd eu bod wedi dioddef cam-drin corfforol, a 3 y cant a soniodd am ddioddef ymosodiad rhywiol.¹⁹⁴

Cofnodwyd 2,845 o droseddau rhywiol yn erbyn plant o dan 16 oed yn 2016/17.¹⁹⁵ Mae hon yn gyfradd o 51.1 o droseddau rhywiol fesul 10,000 o blant o dan 16 oed, sef y gyfradd uchaf ar draws pedair gwlad y Deyrnas Unedig yn y flwyddyn hon.

Yn ystod 2016/17 cafwyd:

- 446 achos o dreisio plentyn o dan 13 oed
- 340 achos o dreisio plentyn o dan 16 oed
- 648 achos o ymosodiadau rhywiol ar blentyn o dan 13 oed

¹⁹² National Society for the Prevention of Cruelty to Children. 2018. *How safe are our children? 2018*. Ar gael yn: <https://www.nspcc.org.uk/globalassets/documents/research-reports/how-safe-children-2018-report.pdf>

¹⁹³ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). 2016. *Abuse during childhood: findings from the crime survey for England and Wales, year ending March 2016*. Ar gael yn:

<https://www.ons.gov.uk/releases/abuseduringchildhoodfindingsfromtheyearendingmarch2016crimesurveyforenglandandwales>

¹⁹⁴ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). 2016. *Abuse during childhood – Appendix tables*. Ar gael yn:

<https://www.ons.gov.uk/file?uri=/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/abuseduringchildhoodappendixtables/yearendingmarch2016/appendixtablesabuseduringchildhoodyearendingmarch2016.xls>

¹⁹⁵ National Society for the Prevention of Cruelty to Children. 2018. *How safe are our children? 2018*. Ar gael yn: <https://www.nspcc.org.uk/globalassets/documents/research-reports/how-safe-children-2018-report.pdf>



- 566 achos o weithgarwch rhywiol oedd yn cynnwys plentyn o dan 13 oed
- 791 achos o weithgarwch rhywiol oedd yn cynnwys plentyn o dan 16 oed
- 54 achos o baratoi rhywiol
- 5 achos o gamddefnyddio sefyllfa o ymddiriedaeth mewn modd rhywiol (gyda rhai o dan 18 oed)
- 24 achos o gam-drin plant trwy ecsbloetio rhywiol (rhai o dan 18 oed)

Mae mwyafrif y rhain yn uwch nag ym mlwyddyn academaidd 2015/16.

Ers 2015/16:

- Gwelwyd cynnydd o 50.9 y cant yn yr achosion o weithgarwch rhywiol gyda phlentyn o dan 13 oed.
- Mae nifer yr achosion rhywiol sy'n ymwneud â chamddefnyddio sefyllfa o ymddiriedaeth wedi lleihau.
- Gwelwyd cynnydd o 22.7 y cant yn nifer y troseddau paratoi rhywiol a gofnodwyd.¹⁹⁶

Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes, mae'n anodd canfod faint o'r cynnydd hwn sydd oherwydd mwy o barodrwydd i roi gwybod am gam-drin, a datgelu troseddau hanesyddol gan oedolion, yn hytrach na chynnydd gwirioneddol yn y troseddau rhywiol yn erbyn plant.

Cofnodwyd 426 o droseddau creulondeb ac esgeuluso yn erbyn plant o dan 16 yng Nghymru yn 2016/2017, ar gyfradd o 7.6 trosedd fesul 10,000 o blant o dan 16 oed. Cododd cyfanswm nifer y troseddau yng Nghymru 54.8 y cant rhwng 2013/14 a 2014/15, ond ni fu fawr ddim newid wedyn. Yr Alban yw'r unig un o wledydd y Deyrnas Unedig i brofi tueddiad ar i lawr rhwng 2009/10 a 2016/17.¹⁹⁷ Ar hyn o bryd Lloegr sydd â'r gyfradd uchaf o 12.9 trosedd fesul 10,000 o blant. Mae hefyd yn bwysig cydnabod, er bod ystadegau euogfarnau troseddol yn bwysig, nad dyna'r unig ddull o fesur y trais, y cam-drin a'r esgeuluso y gall plant yng Nghymru fod yn ei brofi. Os yw plentyn mewn perygl, neu wedi dioddef niwed neu unrhyw fath o gam-drin, nid yw hynny o reidrwydd yn arwain at euogfarn, ond o bosib at ymyriad, yn arbennig gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mewn perthynas â mater y dangosyddion hyn, mae diffyg data cenedlaethol cyson yng Nghymru ynghylch ecsbloetio plant yn rhywiol.¹⁹⁸ Mae system genedlaethol o adrodd yn cael ei datblygu gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Mae ffigurau ar gael ynghylch nifer y cyrff dynodedig penodol yng Nghymru sydd wedi defnyddio'r System

¹⁹⁶ Ibid.

¹⁹⁷ NSPCC. 2018. *How safe are our children? 2018*. Ar gael yn: <https://www.nspcc.org.uk/globalassets/documents/research-reports/how-safe-children-2018-report.pdf>

¹⁹⁸ Comisiynydd Plant Cymru. 2017. *Blwyddyn o newid 2016/2017: Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiynydd Plant Cymru*. Ar gael yn: <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2017/10/A-Year-of-Change-CCFW-Annual-Report.pdf>



Atgyfeirio Genedlaethol oherwydd pryderon bod plentyn y maen nhw mewn cysylltiad ag ef/â hi wedi cael ei fasnachu o bosib. Dengys adroddiadau data 2017 fod 84 o'r atgyfeiriadau hynny.¹⁹⁹

6. Mesurau Amddiffyn Arbennig

6.1 Ceiswyr lloches a ffoaduriaid

- Mae'r amcangyfrifon swyddogol diweddaraf yn awgrymu bod rhyw 27 o blant heb eu hebrwng yn ceisio lloches yng Nghymru.
- Mae bwlch pwysig yn y data ynghylch plant sy'n geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid yng Nghymru.

Yn ei Sylwadau Terfynol i'r Deyrnas Unedig, beirniadodd Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn y Deyrnas Unedig ar nifer o faterion oedd yn ymwneud â hawliau plant oedd yn ceisio lloches, yn ffoaduriaid ac yn ymfudwyr.²⁰⁰ Un mater allweddol oedd y diffyg data dibynadwy ynghylch plant oedd yn ceisio lloches yn y Deyrnas Unedig. Ers hynny, mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi lansio ymchwiliad i geiswyr lloches a ffoaduriaid yng Nghymru.²⁰¹ Yn yr ymchwiliad, amcangyfrif Ysgrifennydd y Cabinet oedd bod rhyw 27 o blant heb eu hebrwng yn ceisio lloches yng Nghymru, ac fe sicrhodd y pwyllgor fod y Llywodraeth wrthi'n datblygu system casglu ac adrodd am ddata er mwyn medru monitro'n fwy cywir. Er bod y cyhoeddiad hwn i'w groesawu, mae'n bwysig pwysleisio bod y gosodiad hwn yn cyfeirio at blant heb eu hebrwng oedd yn ceisio lloches yn unig, a dylid cofnodi niferoedd y plant mewn teuluoedd sy'n ceisio lloches yn ogystal.

Mae prinder tystiolaeth ynghylch bywydau plant sy'n ceisio lloches ac yn ffoaduriaid. Pan na ellir nodi'r niferoedd sy'n byw yng Nghymru, mae fwy neu lai'n amhosibl gwneud gwaith ymchwil pellach ar ganlyniadau gwahaniaethol a barn a phrofiadau'r plant hyn, a allai helpu i sicrhau bod eu hawliau'n cael eu cyflawni.

6.2 Plant yn y system cyfiawnder ieuenctid

Canfyddiadau allweddol

- Bu gostyngiad mawr yn nifer y plant sy'n cyflawni dedfryd o garchar yng Nghymru yn ystod y degawd diwethaf.

¹⁹⁹ National Crime Agency. 2018. *National Referral Mechanism Statistics – End of Year Summary 2018*. Ar gael yn: <http://www.nationalcrimeagency.gov.uk/publications/national-referral-mechanism-statistics/2017-nrm-statistics/884-nrm-annual-report-2017/file>

²⁰⁰ Y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn. 2016. *Concluding observations on the fifth periodic report of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland*. Ar gael yn: https://tbinternet.ohchr.org/_layouts/treatybodyexternal/Download.aspx?symbolno=CRC%252fC%252fGBR%252fCO%252f5&Lang=en

²⁰¹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru. 2017. *"I used to be someone". Refugees and asylum seekers in Wales*. Ar gael yn: <http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld11012/cr-ld11012-e.pdf>



- Oherwydd diffyg cyfleusterau, mae 45 y cant o'r plant o Gymru sydd yn y ddalfa yn cael eu carcharu mewn sefydliadau yn Lloegr ar hyn o bryd, ac mae rhai yn sôn am lefel uwch o unigrwydd ac ynysu o ganlyniad i hynny.
- Mae adroddiadau arolygu'n codi pryderon difrifol ynghylch diogelwch plant sy'n cael eu cadw mewn sefydliadau carcharu.
- Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos gostyngiad yng nghyfran y bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuentid sy'n cael mynediad i lety addas.
- Gwelir o Ddangosydd Cyfiawnder Ieuentid newydd a gyflwynwyd yng Nghymru yn 2017 fod dros 90 y cant o'r bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuentid a atgyfeiriwyd ar gyfer asesiad iechyd meddwl wedi derbyn hynny o fewn 28 diwrnod.

Nid yw cyfiawnder troseddol wedi'i ddatganoli i Gymru, ac felly nid oes cyfrifoldeb am gyfiawnder ieuentid gan Lywodraeth Cymru. O ganlyniad, mae diffyg cyffredinol o ddata Cymru'n unig ynghylch y bobl ifanc sy'n ymwneud â'r system gyfiawnder, er enghraifft, achosion o stopio pobl ifanc a'u chwilio. Fodd bynnag, mae tablau rhanbarthol ar gyfer rhai agweddau ar gyfiawnder ieuentid yn cael eu cyhoeddi'n flynyddol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.²⁰² Mae'r rhain yn darparu peth data ar sail Cymru'n unig, yn ogystal â data ar ranbarthau Lloegr. Nid ydynt yn cyflwyno data ar sail Lloegr yn unig, ac felly yr unig gymariaethau uniongyrchol sy'n bosibl yw canrannau Cymru a chanrannau cyffredinol Cymru a Lloegr.

Yn 2014, fel rhan o'r strategaeth 'Plant a Phobl Ifanc yn Gyntaf' i wella gwasanaethau i bobl ifanc o Gymru sydd mewn perygl o ymwneud â'r system cyfiawnder ieuentid, neu sydd eisoes wedi gwneud hynny, cyflwynwyd dangosyddion ychwanegol i Gymru.²⁰³ Mae'r rhain yn gosod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i fonitro:

- Ymgysylltiad ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth
- Mynediad i lety addas
- Mynediad i wasanaethau camddefnyddio sylweddau

O 2017, mae mynediad i wasanaethau iechyd meddwl yn cael ei fonitro hefyd.²⁰⁴

²⁰² Ystadegau Gwladol. 2018. *Youth Justice annual statistics: 2016 to 2017. Regional level tables*. Ar gael yn:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/679143/regional-level-tables.xls

²⁰³ Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid. 2014. *Welsh Government/Youth Justice Board joint strategy to improve services for young people from Wales at risk of becoming involved in, or in, the youth justice system*. Ar gael yn:

<https://gov.wales/docs/dsilg/publications/commsafety/140710-youth-justice-strategyv2-en.pdf>

²⁰⁴ National Statistics. 2018. *Annex D. Performance outcomes in the Youth Justice System*. Ar gael yn:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/676052/youth_justice_statistics_2016_to_2017_additional_annexes.zip



Tabl D.6: Cyfran y bobl ifanc oedd â llety addas i fynd iddo adeg cychwyn a/neu gwblhau ymyriad cymunedol neu adeg eu rhyddhau o'r ddalfa yng Nghymru, yn y blynyddoedd yn diweddu ym mis Mawrth 2016 a mis Mawrth 2017(1)²⁰⁵

	Y flwyddyn yn diweddu ym mis Mawrth 2016		Y flwyddyn yn diweddu ym mis Mawrth 2017	
	Pob lleoli	Rhyddhau o'r ddalfa	Pob lleoli	Rhyddhau o'r ddalfa
Llety addas cyn dechrau'r cyfnod	95.7%	90.9%	94.0%	86.9%
Llety addas ar ddiwedd y cyfnod	94.5%	93.3%	92.1%	81.4%
Y newid o ran pwynt canran	-1.2	2.4	-1.9	-5.5

Dengys y data fod cyfran y bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuencid yng Nghymru oedd â llety addas cyn ac ar ôl y cyfnod dan sylw wedi gostwng rhwng Mawrth 2016 a Mawrth 2017. Roedd y newid yn fwy yn achos y rhai oedd yn cyflawni dedfryd o garchar.

Nifer cyfartalog yr oriau o addysg, hyfforddiant a chyflogaeth (ETE) yr oedd pobl ifanc oed ysgol yn y system cyfiawnder ieuencid yn eu mynychu yn ystod y flwyddyn yn diweddu ym mis Mawrth 2017 oedd 13.7 awr ar ddechrau'r lleoliad a 14.7 ar ddiwedd y lleoliad, sy'n cynrychioli cynnydd o 7.5 y cant.²⁰⁶ Roedd hwn yn gynydd llai na'r cynnydd o 10 y cant a welwyd y flwyddyn flaenorol, pan gwblhaodd pobl ifanc yn y system gyfiawnder 14.4 awr ar gyfartaledd cyn eu lleoliad, a 15.9 wedyn.

Cyfran y bobl ifanc oedd yn ymwneud â'r system cyfiawnder ieuencid a gafodd eu hatgyfeirio ar gyfer asesiad camddefnyddio sylweddau, ac y cynhaliwyd yr asesiad hwnnw o fewn pum diwrnod i'r atgyfeiriad, oedd 82.8 y cant yn 2017.²⁰⁷ Mae'r ffigur hwn wedi gostwng o flwyddyn i flwyddyn ers 2014, pan gyflawnwyd 90.4 y cant o'r atgyfeiriadau o fewn y cyfnod targed. Fodd bynnag, cododd y gyfran a aseswyd fel rhai yr oedd angen ymyriad arnynt a dderbyniodd hynny o fewn 10 niwrnod yn ystod y cyfnod hwn (er gwaethaf gostyngiad bychan yn 2015), o 96.6 y cant yn 2014 i 97.4 y cant yn 2017.

Cyfran yr asesiadau iechyd meddwl a gyflawnwyd o fewn 28 diwrnod i'r atgyfeiriad i bobl ifanc oedd yn ymwneud â'r system cyfiawnder ieuencid yn 2017 oedd 91 y cant.²⁰⁸ O'r rhai yr aseswyd bod angen ymyriad arnynt,

²⁰⁵ Tabl o National Statistics. 2018. *Annex D. Performance outcomes in the Youth Justice System*. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/676052/youth_justice_statistics_2016_to_2017_additional_annexes.zip

²⁰⁶ Ibid.

²⁰⁷ Ibid.

²⁰⁸ Ibid.



derbyniodd 91.1 y cant ymyriad o fewn 28 diwrnod. Gan mai 2017 oedd blwyddyn gyntaf adrodd am y dangosydd hwn, nid oes modd cymharu â blynyddoedd blaenorol.

Bu adroddiad a gyhoeddwyd yn 2018 gan Ganolfan Trosedd a Chyfiawnder Cymdeithasol Cymru yn edrych ar droseddu 'mynych' gan bobl ifanc yng Nghymru rhwng 2009 a 2015.²⁰⁹ Dyma'r unig ffynhonnell o dystiolaeth a nodwyd oedd yn cynnwys gwaith ymchwil ansoddol manwl gyda phobl ifanc oedd wedi ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol a'u gweithwyr cyfiawnder ieuencid. Mae'n dangos bod amrywiaeth ymarfer ymhlith y rhai sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn y sefyllfaoedd hyn, ond bod nifer o'r rhai a gafodd gyfweiliad yn amlygu pwysigrwydd cynnwys pobl ifanc mewn penderfyniadau am y gefnogaeth maen nhw'n ei derbyn. Canfu prosiect ymchwil yn 2015 nad oedd yr ymarfer a'r athroniaeth y soniwyd amdanynt gan weithwyr cyfiawnder ieuencid mewn cyfweiliadau yng Nghymru yn drawiadol wahanol i'r hyn a geid yn Lloegr.²¹⁰ Nododd yr astudiaeth ansoddol hon ymrwymiad i les pennaf plant ymhlith mwyafrif yr ymarferwyr, ond amlygodd nad oedd hynny'n dod o safbwynt hawliau o reidrwydd.

Plant sydd mewn sefydliadau carcharu

